



**Cynulliad Cenedlaethol Cymru
The National Assembly for Wales**

**Cofnod y Trafodion
The Record of Proceedings**

**Dydd Mercher, 23 Ebrill 2008
Wednesday, 23 April 2008**

Cynnwys
Contents

- 3 Cwestiynau i'r Cwnsler Cyffredinol ac Arweinydd y Tŷ
Questions to the Counsel General and Leader of the House
- 6 Cwestiynau i'r Gweinidog dros Faterion Gwledig
Questions to the Minister for Rural Affairs
- 25 Datganiad gan y Llywydd
Statement by the Presiding Officer
- 25 Dadl y Ceidwadwyr Cymreig: Y Dreth Gyngor
Welsh Conservatives Debate: Council Tax
- 55 Dadl y Ceidwadwyr Cymreig: Cyflwr Amgylcheddau Trefol
Welsh Conservatives Debate: The Condition of Urban Environments
- 81 Dadl Democratiaid Rhyddfrydol Cymru: Economi Cymru
Welsh Liberal Democrats Debate: The Welsh Economy
- 104 Dadl Fer: Marwolaeth Entrepreneur
Short Debate: Death of an Entrepreneur
- 117 Amser Pleidleisio
Voting Time

Yn y golofn chwith, cofnodwyd y trafodion yn yr iaith y llefarwyd hwy ynnddi yn y Siambr.
Yn y golofn dde, cynhwyswyd cyfieithiad o'r areithiau hynny.

In the left-hand column, the proceedings are recorded in the language in which they were spoken in the Chamber. In the right-hand column, a translation of those speeches has been included.

*Cyfarfu'r Cynulliad am 12.30 p.m. gyda'r Llywydd (Dafydd Elis-Thomas) yn y Gadair.
The Assembly met at 12.30 p.m. with the Presiding Officer (Dafydd Elis-Thomas) in the Chair.*

Y Llywydd: Galwaf y Cynulliad i drefn.

The Presiding Officer: I call the Assembly to order.

Cwestiynau i'r Cwnsler Cyffredinol ac Arweinydd y Tŷ Questions to the Counsel General and Leader of the House

Blaenoriaethau

Priorities

C1 David Lloyd: A wnaiff y Cwnsler Cyffredinol amlinellu ei flaenoriaethau ar gyfer y 12 mis nesaf? OAQ(3)0102(CGE)

Q1 David Lloyd: Will the Counsel General outline his priorities for the next 12 months? OAQ(3)0102(CGE)

Y Cwnsler Cyffredinol ac Arweinydd y Tŷ (Carwyn Jones): Fy mlaenoriaeth ar gyfer y flwyddyn nesaf yw cyflawni amcanion Llywodraeth Cynulliad Cymru, sydd wedi eu nodi yn 'Cymru'n Un', ac yn enwedig rhoi cyngor pan fo angen hynny.

The Counsel General and Leader of the House (Carwyn Jones): My priority for the next year is to achieve the Welsh Assembly Government's objectives set out in 'One Wales', in particular to give advice when required.

David Lloyd: One of the Counsel General's responsibilities is to respond to consultations on non-devolved legal matters on behalf of the Assembly Government. In the interests of transparency and accountability, will you agree to place this information in the public domain?

David Lloyd: Un o gyfrifoldebau'r Cwnsler Cyffredinol yw ymateb i ymgynghoriadau ar faterion cyfreithiol na chawsant eu datganoli ar ran Llywodraeth y Cynulliad. Er lles tryloywder ac atebolrwydd, a wnewch gytuno i sicrhau bod y wybodaeth hon ar gael yn gyhoeddus?

Carwyn Jones: Yes, I will do that.

Carwyn Jones: Gwnaf hynny.

Y Llywydd: Trosglwyddwyd cwestiynau 2, OAQ(3)0100(CGE), 3, OAQ(3)0103(CGE), a 4, OAQ(3)0098(CGE), i'w hateb yn ysgrifenedig.

The Presiding Officer: Questions 2, OAQ(3)0100(CGE), 3, OAQ(3)0103(CGE), and 4, OAQ(3)0098(CGE), have been transferred for written answer.

Tryloywder

Transparency

C5 David Lloyd: Sut mae'r Cwnsler Cyffredinol yn sicrhau tryloywder yn ei swyddogaeth? OAQ(3)0099(CGE)

Q5 David Lloyd: How does the Counsel General ensure transparency in his role? OAQ(3)0099(CGE)

Carwyn Jones: Fel mae Cod y Gweinidogion yn ei nodi, yr wyf yn atebol i'r Cynulliad am gyflawni'r swyddogaethau a roddwyd i mi'n uniongyrchol fel Cwnsler Cyffredinol.

Carwyn Jones: As set out in the Ministerial Code, I am accountable to the Assembly for the exercise of those functions conferred directly on me as Counsel General.

David Lloyd: No-one in this Chamber would question the Counsel General's adeptness to tackle the legal complexities of the Assembly and its relationship with Westminster. That

David Lloyd: Ni fyddai neb yn y Siambr hon yn amau gallu'r Cwnsler Cyffredinol i fynd i'r afael â chymhlethdodau cyfreithiol y Cynulliad a'i berthynas â San Steffan. Fodd

said, how are Assembly Members expected to scrutinise the representations made by the Counsel General on behalf of the Assembly if we cannot gain access to that information?

Carwyn Jones: I do not act on behalf of the Assembly—I act on behalf of the Welsh Assembly Government; I need to make that clear. I do not normally make representations to Westminster; those representations are made by my ministerial colleagues. My role is to advise them as they make those representations. On directly communicating with Ministers in Westminster, I do that in the way that we have just discussed, in terms of responding to consultations on non-devolved matters, which I am happy to place at Members' disposal.

Gorchymynion Cymhwysedd Deddfwriaethol

C6 Alun Ffred Jones: Pa drafodaethau diweddar mae'r Cwnsler Cyffredinol wedi'u cynnal gyda Swyddfa Cymru ynglŷn â'r Gorchymynion cymhwysedd deddfwriaethol? OAQ(3)0101(CGE)

Carwyn Jones: Nid wyf wedi cael unrhyw drafodaethau gyda Swyddfa Cymru ynglŷn â hyn. Mae gennyf rôl o ran rhoi cyngor i'm cyd-Weinidogion, yn ogystal â rhoi barn ar ba mor eang y mae LCO yn mynd, ac i edrych ar ba mor ymarferol fyddai LCO. Trwy hynny, yr wyf yn rhoi barn a chyngor i gyd-Weinidogion yn y Cabinet, yn hytrach na siarad yn uniongyrchol gyda San Steffan.

Alun Ffred Jones: Y drefn, fel yr wyf yn ei deall, yw bod y Llywodraeth yn trafod gyda'i chymheiriaid yn San Steffan cyn cyflwyno Gorchymyn, er mwyn sicrhau rhyw fesur o ddealltwriaeth. Un o'r Gorchymynion cyntaf a ddaeth gerbron y Cynulliad oedd yr un yn ymwneud â'r amgylchedd. Mae'r pwyllgor hwnnw wedi cyfarfod ac wedi adrodd ar ôl ystyried y Gorchymyn a gwneud ei argymhellion. Fodd bynnag, hyd y gwelaf, nid yw'r Gorchymyn hwnnw wedi cael ei gyflwyno gan Ysgrifennydd Cymru i sylw'r Senedd yn Llundain, ac mae pedwar i bum mis wedi mynd heibio bellach ers i'r broses honno ddod i ben.

bynnag, sut y mae disgwyl i Aelodau Cynulliad graffu ar y sylwadau a wnaethpwyd gan y Cwnsler Cyffredinol ar ran y Cynulliad oni allwn gael gweld y wybodaeth honno?

Carwyn Jones: Nid wyf yn gweithredu ar ran y Cynulliad—yr wyf yn gweithredu ar ran Llywodraeth Cynulliad Cymru; mae angen imi ddatgan hynny'n glir. Nid wyf yn cyflwyno sylwadau i San Steffan fel arfer; fy nghyd-Weinidogion sy'n cyflwyno'r sylwadau hynny. Fy swyddogaeth i yw eu cynghori wrth iddynt gyflwyno'r sylwadau hynny. O ran cyfathrebu â Gweinidogion yn San Steffan yn uniongyrchol, gwnaf hynny yn y ffordd a grybwyllwyd gynau, sef ymateb i ymgynghoriadau am faterion na chawsant eu datganoli, ac yr wyf yn fwy na pharod i ryddhau'r rheini i Aelodau.

Legislative Competence Orders

Q6 Alun Ffred Jones: What recent discussions has the Counsel General had with the Wales Office regarding legislative competence Orders? OAQ(3)0101(CGE)

Carwyn Jones: I have had no discussions with the Wales Office regarding this. I have a role in giving advice to my colleagues in the Cabinet, as well as giving an opinion on how wide-ranging an LCO is, and to look at how practical an LCO would be. I give my opinion and advice to my Cabinet colleagues, rather than talk directly with Westminster.

Alun Ffred Jones: The procedure, as I understand it, is that the Government holds discussions with its counterparts in Westminster before introducing an Order, in order to reach some level of understanding. One of the first Orders that came before the Assembly was the one in relation to the environment. That committee has met and reported after considering the Order and has made its recommendations. However, as far as I can see, that Order has not been submitted to Parliament in Westminster by the Secretary of State for Wales, and four or five months have now elapsed since that process finished.

A allwch ein goleuo ynglŷn a'r hyn sydd wedi digwydd, neu'r hyn sy'n debyg o ddigwydd, o ran y Gorchymyn hwnnw, a'r hyn sy'n digwydd os nad oes dim byd yn digwydd yn San Steffan i hwnnw neu i unrhyw Orchymyn arall? Mae'n rhwystredig i bobl sydd wedi gwneud eu gwaith yn pen hwn i weld dim byd yn symud yr ochr arall.

Carwyn Jones: Fy nealltwriaeth i yw bod trafodaethau yn digwydd rhwng Caerdydd a Llundain ynglŷn a'r LCO hwn. Mae pethau yn symud yn eu blaenau, a gobeithio y ceir datganiad cyn bo hir. Yr wyf yn siarad yn awr fel rhan o'm rôl fel Arweinydd y Tŷ, yn hytrach na'm rôl fel Cwnsler Cyffredinol.

Y Llywydd: Ar bwynt o drefn, awgrymaf fod Alun Ffred Jones ac Aelodau arall yn gofyn cwestiynau felly i'r Gweinidog perthnasol. Efallai gallent berswadio eu cyfeillion yn San Steffan i roi'r un cwestiwn i'r Gweinidog yno. Deallaf awydd y Cwnsler Cyffredinol i ymateb fel Cwnsler Cyffredinol. Nid yw'n ddiffygiol o ran rhoi gwybodaeth, ond y mae'n ceisio rhoi'r wybodaeth berthnasol i'r rôl mae'n ateb cwestiynau arno ar hyn o bryd.

Peter Black: Would the Counsel General give me his view as to what happens when a Member proposed legislative competence Order is approved by the Assembly but is not supported by the Government? Who is responsible for processing that issue with the Westminster Government and how would that proceed?

Carwyn Jones: Again, that comes within my role as Leader of the House rather than as the Counsel General; there is also a role for the Presiding Officer. It is my understanding that, where a Member wishes to promote an LCO, and the Government remains neutral, it would be for that Member to liaise with the Wales Office in terms of its promoting it at the Westminster end. Where the Government actively supports an LCO, then there is scope for the Government to take it forward on behalf of that Member.

Can you enlighten us on what has happened, and what is likely to happen, to that Order, or what is happening to that Order, or any other Order, if there is nothing at all happening in Westminster? It is frustrating for those who have done the work at this end to see no progress being made at the other.

Carwyn Jones: My understanding is that there are ongoing discussions between Cardiff and London regarding this LCO. Progress is being made, and there will be hopefully a statement soon. I speak now in my role as Leader of the House, rather than in my role as Counsel General.

The Presiding Officer: On a point of order, I suggest that Alun Ffred Jones and other Members direct such questions to the relevant Minister. They can maybe persuade their friends in Westminster to put the same question to the Minister there. I understand the Counsel General's desire to answer in his role as Counsel General. He is not deficient in giving information, but he is trying to give information that is relevant to the role on which he is now answering questions.

Peter Black: A fyddai'r Cwnsler Cyffredinol yn rhoi ei farn ynghylch beth sy'n digwydd pan gaiff Gorchymyn cymhwysedd deddfwriaethol arfaethedig Aelod ei gymeradwyo gan y Cynulliad ond na chaiff ei gefnogi gan y Llywodraeth? Pwy sy'n gyfrifol am brosesu'r mater hwnnw â Llywodraeth San Steffan a sut y byddai hynny'n mynd yn ei flaen?

Carwyn Jones: Unwaith eto, mae hynny'n rhan o'm swyddogaeth fel Arweinydd y Tŷ yn hytrach na fel y Cwnsler Cyffredinol; mae swyddogaeth hefyd yn hynny o beth i'r Llywydd. Yn ôl fy nealltwriaeth, pan mae Aelod yn dymuno hybu Gorchymyn cymhwysedd deddfwriaethol, ac mae'r Llywodraeth yn aros yn niwtral, mater i'r Aelod hwnnw fyddai trafod â Swyddfa Cymru o ran ei hybu yn San Steffan. Os yw'r Llywodraeth yn cefnogi Gorchymyn cymhwysedd deddfwriaethol, yna gall y Llywodraeth fwrw ymlaen ag ef ar ran yr Aelod hwnnw.

Lesley Griffiths: I would like to add my voice to the concerns raised by Alun Ffred. In a report published last December by the Welsh Affairs Select Committee on the proposed LCO for additional learning needs, the MPs on that committee complained bitterly about matters relating to timetabling. They even berated the Assembly and an Assembly Minister for requesting powers too quickly. When you next meet the Secretary of State for Wales, would you raise with him the fact that, under the Government of Wales Act 2006, there is a requirement for MPs to ensure that a timetable is in place, so that they can ensure that Orders are passed more swiftly than is the case at the present time?

Lesley Griffiths: Hoffwn ychwanegu fy llais at y pryderon a godwyd gan Alun Ffred. Mewn adroddiad a gyhoeddwyd fis Rhagfyr diwethaf gan y Pwyllgor Dethol ar Faterion Cymreig ar y Gorchymyn cymhwysedd deddfwriaethol arfaethedig ar anghenion dysgu ychwanegol, cwynodd yr ASau ar y pwyllgor hwnnw'n chwyrn ynghylch materion yn ymwneud â'r amserlen. Gwnaethant hyd yn oed ddwrddio'r Cynulliad ac un o Weinidogion y Cynulliad am wneud cais am bwerau'n rhy sydyn. Pan fyddwch yn cyfarfod nesaf ag Ysgrifennydd Gwladol Cymru, a fydddech yn codi'r mater ag ef bod gofyniad ar ASau, dan Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006, i sicrhau bod amserlen mewn grym, fel y gallant sicrhau bod Gorchymynion yn cael eu cymeradwyo'n gynt na'r sefyllfa ar hyn o bryd?

Carwyn Jones: I am sure that those advising our parliamentary colleagues in London will be telling them just that. Of course, it is important that everyone understands—in what is quite a new process—how the timetable is meant to work. There have been occasions when it has not been possible, for example, to table joint meetings of the appropriate Westminster committee and the appropriate Assembly committee to scrutinise an LCO. The hope is that this will be the norm, even though there may be occasions when that cannot be done.

Carwyn Jones: Yr wyf yn siŵr y bydd y rheini sy'n cynghori ein cyd-Aelodau yn y Senedd yn Llundain yn dweud yn union yr un peth. Wrth gwrs, mae'n bwysig bod pob un yn deall—gan ei bod yn system weddol newydd—sut y mae'r amserlen i fod i weithio. Mae adegau wedi codi lle na fu'n bosibl, er enghraifft, cynnal cyfarfodydd ar y cyd rhwng y pwyllgor priodol yn San Steffan a'r pwyllgor priodol yn y Cynulliad i graffu ar Orchymyn cymhwysedd deddfwriaethol. Gobeithio mai dyma fydd y norm, er efallai y bydd adegau'n codi pan na ellir gwneud hynny.

Y Llywydd: Diolch yn fawr i'r Cwnsler Cyffredinol am ei atebion yn ôl ei allu a'i gymhwysedd—credaf mai dyna'r geiriau cywir.

The Presiding Officer: I thank the Counsel General for answering according to his ability and competence—I think those are the correct words.

Cwestiynau i'r Gweinidog dros Faterion Gwledig Questions to the Minister for Rural Affairs

Y Llywydd: Trosglwyddwyd cwestiwn 1, OAQ(3)0298(RAF), i'w ateb yn ysgrifenedig.

The Presiding Officer: Question 1, OAQ(3)0298(RAF), has been transferred for written answer.

Agri-environment Schemes

Cynlluniau Amaeth-amgylcheddol

Q2 Angela Burns: Will the Minister give an update on the administration of agri-environment schemes? OAQ(3)0301(RAF)

C2 Angela Burns: A wnaiff y Gweinidog roi'r wybodaeth ddiweddaraf am weinyddu cynlluniau amaeth-amgylcheddol? OAQ(3)0301(RAF)

The Minister for Rural Affairs (Elin Jones): The Welsh Assembly Government has now developed the necessary systems to administer agri-environment schemes according to new EC regulatory controls introduced in January 2007. These include automated cross-checks, the introduction of cross-compliance, and a single claim date. In 2007-08, just over 9,000 beneficiaries were paid approximately £42 million.

Angela Burns: I have spoken before of the delays in payment for the Tir Gofal scheme. In fact, I raised a case with you when I was first elected here. That case, relating to Mr Goddard, is still with me, as he is still being burdened by the poor administration of the Tir Gofal scheme, the delays in payments due to him, and, therefore, the threat to his farm and his livelihood. What review process do you intend to put in place to continually evaluate these schemes and so ensure that farmers' businesses are not put under threat by the poor administration of a Welsh Assembly Government department?

Elin Jones: I do not agree with you that there is necessarily poor performance or poor administration. However, along the lines of my initial response to you, the new regulations for the 2007 to 2013 for rural development and the administration of agri-environment schemes have imposed upon us a new framework for making payments. Claims for Tir Gofal and other agri-environment schemes are now made through the single application form. Therefore, payments for agri-environment schemes are made once verification of the single application form is undertaken by the Assembly Government. I acknowledge that it is a new system, and, for those people who are long-standing participants in the previous system, the changes have resulted in changes in payments. If there is anything that I can do with regard to the individual application, perhaps you would write to me about it.

12.40 p.m.

Nerys Evans: A allwch roi sicrwydd i bawb a drodd at ffermio'n organig yn hwyr yn 2006 a drwy gydol 2007 y byddant yn awr yn

Y Gweinidog dros Faterion Gwledig (Elin Jones): Bellach, mae Llywodraeth Cynulliad Cymru wedi datblygu'r systemau angenrheidiol i weinyddu cynlluniau amaeth-amgylcheddol yn unol â rheoliadau newydd y CE a gyflwynwyd ym mis Ionawr 2007. Mae'r rhain yn cynnwys croeswiriog awtomataidd, cyflwyno trawsgydymffurfio, ac un dyddiad hawlio. Yn 2007-08, talwyd oddeutu £42 miliwn i ychydig dros 9,000 o fuddiolwyr.

Angela Burns: Yr wyf wedi sôn yn y gorffennol am yr oedi gyda thaliadau yn y cynllun Tir Gofal. Yn wir, soniais wrthyhch am achos pan gefais fy ethol yma gyntaf. Mae'r achos hwnnw, parthed Mr Goddard, yn dal ar fy nesg, gan ei fod yn dal i gael ei lethu gan weinyddiaeth wael y cynllun Tir Gofal, yr oedi yn y taliadau sy'n ddyledus iddo, ac, felly, y bygythiad i'w fferm ac i'w fywoliaeth. Pa broses adolygu y bwriadwch ei rhoi ar waith i werthuso'r cynlluniau hyn yn barhaus er mwyn sicrhau nad yw busnesau ffermwyr dan fygythiad oherwydd gweinyddiaeth wael gan un o adrannau Llywodraeth Cynulliad Cymru?

Elin Jones: Nid wyf yn cytuno â chi bod y perfformiad neu'r weinyddiaeth yn wael fel y cyfryw. Fodd bynnag, fel y dywedais yn fy ateb cyntaf i chi, mae'r rheoliadau newydd ar gyfer 2007 i 2013 ym maes datblygu gwledig a gweinyddu cynlluniau amaeth-amgylcheddol wedi gosod fframwaith newydd arnom ar gyfer gwneud taliadau. Bellach, caiff hawliadau ar gyfer Tir Gofal a chynlluniau amaeth-amgylcheddol eraill eu cyflwyno ar ffurflen y cais sengl. Felly, gwneir taliadau ar gyfer cynlluniau amaeth-amgylcheddol ar ôl i Lywodraeth y Cynulliad wirio ffurflen y cais sengl. Yr wyf yn cydnabod ei bod yn system newydd, ac, i'r rheini a oedd yn hen law ar y system flaenorol, mae'r newidiadau wedi arwain at newidiadau mewn taliadau. Os gallaf wneud unrhyw beth ynghylch y cais unigol, efallai y gallech anfon nodyn ataf amdano.

Nerys Evans: Can you give an assurance to everyone who started farming organically at the end of 2006 and throughout 2007 that

derbyn eu taliadau? Beth yr ydych yn ei wneud i sicrhau na fydd y ffermwyr hyn yn dioddef trafferthion ariannol?

Elin Jones: Fel y dywedais wrth Angela Burns, mae'r rheoliadau sydd mewn grym yn awr yn mynnu fod taliadau organig yn cael eu gwneud drwy'r ffurflenni taliadau sengl. Mae rhyw 70 o ffermwyr a oedd wedi cychwyn trosi i ffermio'n organig cyn mis Mai llynedd sydd heb dderbyn taliad hyd yn hyn. Fel Llywodraeth, byddwn yn ysgrifennu at y ffermwyr hyn i gadarnhau y byddwn yn gwneud taliad dwbl iddynt, unwaith y bydd eu ffurflenni taliad sengl wedi eu cymeradwyo. Mae'n bosibl y bydd hynny ym mis Medi. Yr wyf yn gobeithio y bydd hyn yn gysur iddynt hwy ac i'w rheolwyr banc os yw hynny'n briodol.

The Electronic Identification of Sheep

Q3 Joyce Watson: Will the Minister make a statement with regards to the EU directive on the electronic identification of sheep? OAQ(3)0275(RAF)

Elin Jones: Commission regulation 21/2004 will apply across all member states from 31 December 2009. The regulation was amended in December 2007, following pressure from the UK, delaying the requirement for mandatory electronic identification until 2010. The majority of affected member states did not wish to delay electronic identification from 1 January 2008.

Joyce Watson: Given the decision by the European Commission to defer the introduction of electronic identification until 2009-10, as you mentioned, and in light of the forthcoming review of red tape in the agricultural industry, could you tell me what measures you are taking, as Minister, to allay the concerns of the farming community about the cost and the robustness of the electronic identification technology?

Elin Jones: I am aware, of course, of the uncertainty surrounding the introduction of electronic identification of sheep among farmers and representatives of the farming industry. The Assembly Government and Hybu Cig Cymru are currently looking at on-farm practical research in relation to the

they will now be receiving their payments? What are you doing to ensure that these farmers will not suffer financially?

Elin Jones: As I said to Angela Burns, the regulations that are now in place insist that organic payments are made via the single payment forms. Around 70 farmers who had started converting to organic before May last year have not yet received their payments. The Government will be writing to these farmers to confirm that we will be giving them a double payment, once their single payment forms have been approved. That may be in September. I hope that this will be of comfort to them and their bank managers, if appropriate.

Adnabod Defaid yn Electronig

C3 Joyce Watson: A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am gyfarwyddeb yr UE ynghylch adnabod defaid yn electronig? OAQ(3)0275(RAF)

Elin Jones: Bydd rheoliad 21/2004 y comisiwn yn dod i rym ledled yr holl aelod wladwriaethau o 31 Rhagfyr 2009 ymlaen. Diwygiwyd y rheoliad ym mis Rhagfyr 2007, yn dilyn pwysau gan y DU, a gohiriwyd y gofyniad am dagiau electronig gorfodol tan 2010. Nid oedd y rhan fwyaf o aelod wladwriaethau yr effeithiwyd arnynt am ohirio tagiau electronig o 1 Ionawr 2008.

Joyce Watson: A chofio penderfyniad y Comisiwn Ewropeaidd i oedi cyn cyflwyno tagiau electronig tan 2009-10, fel y soniasoch, a'r adolygiad sydd ar y gorwel o fiwrocratiaeth yn y diwydiant amaeth, a allwch ddweud wrthyf pa fesurau yr ydych yn eu cymryd, fel Gweinidog, i dawelu pryderon y gymuned ffermio ynghylch cost a chadernid y dechnoleg adnabod yn electronig?

Elin Jones: Yr wyf yn ymwybodol, wrth gwrs, o'r ansicrwydd ymhlith ffermwyr a chynrychiolwyr y diwydiant ffermio ynghylch cyflwyno system adnabod defaid yn electronig. Mae Llywodraeth y Cynulliad a Hybu Cig Cymru ar hyn o bryd yn edrych ar ymchwil ymarferol ar y fferm o ran

introduction of electronic identification on farms in Wales. That will be a useful piece of work in terms of the practical application of electronic identification that is to come in 2010. However, we are also expecting additional information from the European Commission in the summer of this year as to the practical application of this regulation in Wales. I think that it is important to stress at this point that this development is not being driven by the Assembly Government or the UK Government; it is a regulation that was brought in following the foot-and-mouth-disease outbreak in 2001 and is one that other member states are very keen for the European Union to adopt across all member states.

Brynle Williams: I am listening with great interest to your answers to my colleague, Joyce Watson. The set-up costs alone of this electronic tagging system, according to Hybu Cig Cymru's study, will be somewhere in the region of £9.31 per ewe. I think that you have already alluded to the possibility that the practicalities of using electronic tagging will pose serious problems. I believe that there are now problems with the robustness of the equipment used for reading the tags. Going back to the costs, for a 600-ewe flock, it is going to cost an extra £5,600 a year and then £800 a year for tests. You have answered some of my points in your responses to Joyce Watson. However, is this really necessary, given the robust tracing system that we already have for sheep? Should we not be applying once again for an extension of this derogation? We are the largest sheep producer in the whole of Europe, so I think that we may have more experience in this area. Would you and your counterparts in London please push this matter further forward?

Elin Jones: Brynle, you have identified some of the practical on-farm issues that the electronic identification of sheep will result in. The cost is a significant part of that. We and Hybu Cig Cymru are currently looking at how the practical implementation can be made easier for all farmers and at how we can get some benefits out of this as well, because it might lead to some benefits; that work is important in preparing the way for a regulation that will come in to force in 2010.

cyflwyno tagiau electronig ar ffermydd yng Nghymru. Bydd hwnnw'n ddarn defnyddiol o waith o ran yr ystyriaethau ymarferol wrth roi'r system adnabod electronig ar waith yn 2010. Fodd bynnag, yr ydym hefyd yn disgwyl rhagor o wybodaeth gan y Comisiwn Ewropeaidd yn yr haf eleni ynghylch yr ystyriaethau ymarferol o weithredu'r rheoliad hwn yng Nghymru. Credaf ei fod yn bwysig pwysleisio nad Llywodraeth y Cynulliad na Llywodraeth y DU sy'n gyrru'r datblygiad hwn; mae'n rheoliad a gyflwynwyd yn dilyn yr achosion o glwy'r traed a'r genau yn 2001 ac mae'n ddatblygiad y mae aelod wladwriaethau eraill yn awyddus iawn i'r Undeb Ewropeaidd ei fabwysiadu ledled yr holl aelod wladwriaethau.

Brynle Williams: Gwrandawaf yn astud ar eich atebion i'm cyd-Aelod Joyce Watson. Bydd costau sefydlu'r system tagiau electronig hon yn unig, yn ôl astudiaeth Hybu Cig Cymru, oddeutu £9.31 y ddfad. Credaf eich bod eisoes wedi cyfeirio at y posibilrwydd y bydd ymarferoldeb defnyddio tagiau electronig yn peri problemau difrifol. Credaf fod problemau wedi codi yn awr gyda cadernid yr offer a ddefnyddir ar gyfer darllen y tagiau. Gan fynd yn ôl at y costau, ar gyfer diadell gyda 600 o ddefaid, bydd yn costio £5,600 yn ychwanegol y flwyddyn ac yna £800 y flwyddyn am brofion. Yr ydych wedi ateb rhai o'm pwyntiau yn eich ateb i Joyce Watson. Fodd bynnag, a yw hyn wir yn angenrheidiol, a chofio'r system gadarn o olrhain defaid sydd gennym eisoes? Oni ddylem fod yn gwneud cais unwaith eto am estyniad i'r rhanddirymiad hwn? Ni yw'r cynhyrchwr defaid mwyaf ledled Ewrop, felly credaf fod gennym, o bosibl, fwy o brofiad yn y maes hwn. A fydddech chi a'ch cyd-Aelodau yn Llundain yn gwthio'r mater hwn ymhellach?

Elin Jones: Brynle, yr ydych wedi nodi rhai o'r materion ymarferol ar y fferm a ddaw yn sgil cyflwyno tagiau electronig i ddefaid. Mae'r gost yn rhan sylweddol o hynny. Ar hyn o bryd, yr ydym ni a Hybu Cig Cymru yn ymchwilio i weld sut y gallwn ei gwneud yn haws i bob ffermwr roi hyn ar waith yn ymarferol a sut y gallwn gael rai manteision o hyn hefyd, oherwydd gallai arwain at rai manteision; mae'r gwaith hwnnw'n bwysig i fraenaru'r tir ar gyfer rheoliad a ddaw i rym

yn 2010.

It is important to stress, however, that the UK Government position, supported by the Welsh Government, is to seek a review of this regulation. We are currently pressing for such a review, but we do not wish to raise any expectations as it is being resisted by other member states.

Brynle Williams: To add another strand to this, Minister, we have raised the point several times about the additional costs facing the ancillary industry. Livestock auctioneers will have to spend large amounts of money on reading tags as stock go through the market. Will there be any financial aid for the livestock markets? There is a downward pressure on them now, with deadweight selling. Is this possibly another nail in the coffin of the livestock market in Wales?

Elin Jones: It need not be seen as a nail in anybody's coffin. I understand that there are practical issues of implementation for all concerned with the sheep industry, and keeping costs to a minimum is essential in introducing this. However, we also have to remember that there could be benefits to all concerned from introducing a system like this further down the line, and a key benefit could well be the reduction of form-filling and bureaucracy for farmers, which is something that we would all welcome. Some farmers are working electronically—pretty much 100 per cent—and they tell me that this would bring benefits for their business. That is not to say that I do not appreciate the costs or the practical difficulties involved in our work with the farming industry to prepare our way for the introduction of this regulation.

Eleanor Burnham: Yr ydych wedi ateb bron bob cwestiwn ar y mater hwn. Beth ydych yn ei wneud ynglŷn â'r ffaith bod cig eidion yn dod o Seland Newydd—dylwn ddatgan buddiant, gan fod llawer o fy nheulu yn ffermwyr cefnog yn Seland Newydd. Mae cig o Seland Newydd yn gallu dod yma heb yr unrhywstrau a heb y tagio hwn. Sut yn union yr ydych yn gobeithio sicrhau prisiau realistig i'r ffermwyr fel y cânt barhau â'u ffermio?

Fodd bynnag, mae'n bwysig pwysleisio mai safle Llywodraeth y DU, gyda chefnogaeth Llywodraeth Cymru, yw ceisio adolygiad o'r rheoliad hwn. Ar hyn o bryd yr ydym yn pwyso am adolygiad o'r fath, ond nid ydym yn dymuno codi unrhyw ddisgwyliadau gan fod aelod-wladwriaethau eraill yn ei wrthwynebu.

Brynle Williams: I ychwanegu haen arall at hyn, Weinidog, yr ydym wedi codi'r pwynt droeon ynghylch y costau ychwanegol sy'n wynebu'r diwydiant ategol. Bydd yn rhaid i arwerthwyr da byw wario llawer iawn o arian ar ddarllen tagiau wrth i'r stoc fynd drwy'r farchnad. A fydd unrhyw gymorth ariannol ar gyfer y marchnadoedd da byw? Ceir pwysau arnynt nawr, gyda gwerthu pwysau marw. A yw hyn o bosibl yn hoelen arall yn arch y farchnad da byw yng Nghymru?

Elin Jones: Nid oes yn rhaid ei ystyried fel hoelen yn arch unrhyw un. Yr wyf yn deall bod materion ymarferol ynghylch gweithredu ar gyfer pawb sy'n ymwneud â'r diwydiant defaid, ac mae cadw costau mor isel ag sy'n bosibl yn hanfodol wrth gyflwyno hyn. Fodd bynnag, rhaid inni gofio hefyd y gallai fod manteision i bawb dan sylw o gyflwyno system fel hon yn nes ymlaen, a gallai un o'r manteision allweddol hynny olygu llenwi llai o ffurflenni a llai o fiwrocratiaeth ar gyfer ffermwyr, sydd yn rhywbeth y byddem i gyd yn ei groesawu. Mae rhai ffermwyr yn gweithio'n electronig—100 y cant i raddau helaeth—ac maent yn dweud wrthyf y byddai hyn yn dod â manteision i'w busnes. Nid yw hynny'n dweud nad wyf yn gwerthfawrogi'r costau na'r anawsterau ymarferol sydd ynghlwm wrth ein gwaith gyda'r diwydiant ffermio i baratoi ein ffordd ar gyfer cyflwyno'r rheoliad hwn.

Eleanor Burnham: You have answered almost every question on this issue. What are you doing about the fact that beef is imported from New Zealand—I should declare an interest, since many members of my family are wealthy farmers in New Zealand. Meat from New Zealand can be imported here without the same restrictions and without this tagging. How exactly do you hope to ensure that farmers are given realistic prices so that

Mae pob peth sy'n costio mwy iddynt yn golygu eu bod yn gwneud llai o elw.

they can continue to farm? Everything that costs them more means that they make less profit.

Y Llywydd: Trefn. Cwestiwn am dagio defaid yw hwn.

The Presiding Officer: Order. This is a question about tagging sheep.

Eleanor Burnham: Ie. Nid ydynt yn gorfod gwneud yr un fath, felly, nid yw'r gost hon ar ffermwyr Seland Newydd. Gan bod y cwestiynau eraill wedi cyffwrdd â bron pob agwedd arall ar y mater hwn, meddyliais y gallwn fynd ar drywydd ychydig bach yn wahanol, gan fod rhaid i'n ffermwyr gystadlu yn erbyn ffermwyr Seland Newydd, lle nad yw'r gost hon yn bodoli.

Eleanor Burnham: Yes. They do not have to do it and, therefore, farmers in New Zealand do not have to pay this cost. Since the other questions have touched on almost all other aspects on this issue, I thought that I could take a slightly different angle, because our farmers have to compete with New Zealand's farmers, where this cost does not exist.

Y Llywydd: Mae hynny'n iawn, dim ond bod gan y cwestiwn gyswllt trefnus â'r cwestiwn gwreiddiol. Derbyniaf yr ymgais diweddaraf.

The Presiding Officer: That is fine, as long as the question has an orderly link to the original question. I will accept the latest attempt.

Elin Jones: Mae'n siŵr mai cyfeirio at fewnforio cig oen o Seland Newydd yr oedd Eleanor Burnham, er mwyn i'r cysylltiad fod yn fwy uniongyrchol â'r cwestiwn gwreiddiol.

Elin Jones: I am sure that Eleanor Burnham was referring to importing lamb from New Zealand, which links more directly with the original question.

Derbyniaf bwynt Eleanor; mae ffermwyr a phobl yn y diwydiant cig yn aml yn gofyn inni sicrhau bod y gofynion sydd arnynt yn yr Undeb Ewropeaidd o ran olrhain tarddiad cig ac anifeiliaid hefyd yn bodoli mewn gwledydd eraill. Dyna ran o'r drafodaeth sydd wedi bod rhwng yr Undeb Ewropeaidd a Brasil yn ddiweddar, o ran sicrhau na fewnforir cig o ffermydd ac ardaloedd lle mae achosion o glwy'r traed a'r genau.

I accept Eleanor's point; farmers and people in the meat industry often ask us to ensure that the requirements placed on them by the European Union in relation to tracing meat and animals are also requirements in other countries. That has been part of the recent discussions between the European Union and Brazil, to ensure that meat is not imported from farms and areas where there has been an outbreak of foot and mouth disease.

12.50 p.m.

Rhaid inni gofio mai sicrhau diogelwch bwyd yw prif bwrpas y gofynion a'r rheoliadau hyn. Dyna pam maent ar waith yn y lle cyntaf, yn sgîl yr achosion o glwy'r traed a'r genau yn 2001. Felly, bydd unrhyw beth y gallwn ei wneud i gynnal hyder ein cwsmeriaid yn ein cig ni ein hunain, oherwydd bod ein gofynion ar ein diwydiant ni yn fwy nag a geir mewn unrhyw wlad arall, o fantais. Os ydym yn defnyddio hynny fel arf i werthu, mae o fantais i ni gyda'r cwsmer—gall y cwsmer fod yn fwy hyderus am gig o Gymru nag am unrhyw gig arall ar silff mewn archfarchnad neu siop neu ar

We must remember that the main purpose of these regulations is to ensure food safety. That is why they exist in the first place, due to the outbreak of foot and mouth disease in 2001. Therefore, since the requirements placed on our industry are greater than in any other country, anything that we can do to support customer confidence in our own meat will be beneficial. If we used that as a selling point, it gives us an advantage with the customer—the customer can be more confident about Welsh meat than any other meat on a supermarket or shop shelf or on a farm.

fferm.

Clefyd y Tafod Glas

C4 Paul Davies: A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am effeithiau clefyd y tafod glas ar y diwydiant amaethyddol yng Nghymru? OAQ(3)0293(RAF)

Elin Jones: Mae'r cyfyngiadau ar symud anifeiliaid, a sefydlwyd i geisio rheoli lledaeniad clefyd y dafod las, wedi effeithio ar y diwydiant yng Nghymru drwy newid arferion ffermio i rai, a chyfyngu ar fasnach rhwng ffermydd, marchnadoedd a lladd-dai. Er fy mod yn sylweddoli y gallai hyn greu problemau i ffermwyr, y brif flaenoriaeth o hyd yw i gadw clefyd y dafod las allan o Gymru.

Paul Davies: Fel y dywedasoch, mae'r clefyd hwn wedi effeithio'n fawr ar y diwydiant amaethyddol. Caf ar ddeall, o ddatganiadau a wnaed gennych eisoes eleni, fod y Llywodraeth wedi archebu rhyw 2.5 miliwn o ddsau o frechlyn clefyd y tafod glas. O ystyried bod rhyw 12 miliwn o ddefaid yng Nghymru, beth mae'r Llywodraeth yn ei wneud i geisio archebu mwy o ddsau i lenwi'r bwlch hwn?

Elin Jones: Yr ydym ar ganol trafodaethau gyda DEFRA a chwmnïau sy'n cyflenwi brechlynnau i ystyried dyblu'r archeb. Yr ydym yn rhan o strategaeth frechu y Deyrnas Gyfunol, y cytunwyd arni gyda'r Comisiwn Ewropeaidd. Felly, byddwn yn dilyn cynllun o frechu gwirfoddol yng Nghymru ac yn Lloegr. Mae'n rhaid i Gymru fod yn barth gwarchod yn gyntaf cyn y gall unrhyw frechiad ddigwydd yma. Ar hyn o bryd, nid yw'n bosibl i ni ddatgan bod Cymru yn barth gwarchod tan bod y clwyf yn cylchredeg yng Nghymru neu ein bod yn ffinio â pharth gwarchod yn Lloegr; nid dyna'r sefyllfa ar hyn o bryd.

Fy neges i ffermwyr ac Aelodau Cynulliad sy'n cynrychioli ffermwyr yw i sicrhau eu bod yn cofrestru eu diddordeb gyda milfeddygon i ddweud sawl brechiad y byddai arnynt eu hangen ar gyfer eu ffermydd. Bydd brechu yn rhan bwysig o'r strategaeth o leihau effaith clefyd y dafod las yng Nghymru.

Bluetongue Disease

Q4 Paul Davies: Will the Minister make a statement on the effects of bluetongue disease on the agricultural industry in Wales? OAQ(3)0293(RAF)

Elin Jones: The movement restrictions put in place to limit the spread of bluetongue disease have impacted on the industry in Wales by affecting farming practices and restricting trade between farms, markets and abattoirs. While I appreciate that this may cause problems for farmers, the overriding priority must be to keep bluetongue disease out of Wales.

Paul Davies: As you said, this disease has had a severe impact on the agricultural industry. I understand, from statements you have already made this year, that the Government has ordered around 2.5 million doses of vaccines for bluetongue disease. Considering there are around 12 million sheep in Wales, what is the Government doing in its attempts to order more doses to bridge this gap?

Elin Jones: We are in discussions with DEFRA and companies that supply the vaccines to consider doubling the order. We are part of the United Kingdom's vaccination strategy, which was agreed upon with the European Commission. Therefore, we will follow a voluntary vaccination scheme in England and Wales. Wales has to be a protection zone before any vaccination can take place here. As it stands, it is not possible for us to declare Wales a protection zone until the disease circulates in Wales, or until we border on a protection zone in England; that is not currently the case.

My message to farmers and Assembly Members who represent farmers is to ensure that they register their interest with vets to inform them how many vaccines they will need for their farms. Vaccination will be an important part of the strategy to reduce the impact of bluetongue disease in Wales.

Safeguarding Rural Communities

Q5 The Leader of the Opposition (Nick Bourne): Will the Minister outline her plans for safeguarding our rural communities? OAQ(3)0291(RAF)

Elin Jones: Supporting the economic, social, environmental and cultural cohesion of rural Wales is integral to my ministerial portfolio in working to meet the 'One Wales' commitments, to take forward the aims and objectives in the Wales spatial plan and to support the delivery of actions under the rural development plan.

Nick Bourne: Will the Minister outline her plans in relation to the meat industry, with the Maclean formula and the subsidy system coming to an end in about a year's time—April 2009, I think? It will have an adverse effect, particularly on small abattoirs and I wonder what plans the Minister has for dealing with that situation.

Elin Jones: I have met with the chairman of the Meat Hygiene Service in the last few months, following representations made to me by Assembly Members and by representatives of the abattoir sector in Wales regarding their concerns about the increase in charges in this financial year and about the change to the system of charging. There is a feeling among smaller abattoirs in particular that they could be particularly vulnerable. We need to ensure that we protect the smaller abattoir capacity that we have in Wales. I have also discussed the matter with my ministerial colleague with direct responsibility for the Food Standards Agency, the Minister for Health and Social Services. Yesterday, my officials met with Food Standards Agency officials. All abattoirs in Wales were invited to a meeting to look at how the new charging system could work in Wales, and how to ensure that we do not lose any abattoir capacity, because of our need to ensure a wide range of abattoir capacity from the smaller abattoirs to the very large ones that are scattered around Wales.

Lesley Griffiths: Minister, do you agree that

Diogelu Cymunedau Gwledig

C5 Arweinydd yr Wrthblaid (Nick Bourne): A wnaiff y Gweinidog amlinellu ei chynlluniau ar gyfer diogelu ein cymunedau gwledig? OAQ(3)0291(RAF)

Elin Jones: Mae cefnogi cydlyniant economaidd, cymdeithasol, amgylcheddol a diwylliannol Cymru wledig yn rhan annatod o'm portffolio gweinidogol wrth weithio i ddiwallu ymrwymadau 'Cymru'n Un', i fynd â nodau ac amcanion cynllun gofodol Cymru rhagddynt a chefnogi cymryd camau gweithredu dan y cynllun datblygu gwledig.

Nick Bourne: A wnaiff y Gweinidog amlinellu ei chynlluniau yng nghyswllt y diwydiant cig, gyda fformiwla Maclean a'r system cymhorthdal yn dod i ben mewn oddeutu blwyddyn—Ebrill 2009, yr wyf yn meddwl? Bydd yn cael effaith andwyol, yn enwedig ar ladd-dai bach ac yr wyf yn pendroni tybed pa gynlluniau sydd gan y Gweinidog ar gyfer delio â'r sefyllfa honno.

Elin Jones: Yr wyf wedi cwrdd â chadeirydd y Gwasanaeth Hylendid Cig dros y misoedd diwethaf, yn dilyn sylwadau a gefais gan Aelodau Cynulliad a chan gynrychiolwyr y sector lladd-dai yng Nghymru ynghylch eu pryderon am y cynnydd mewn taliadau yn ystod y flwyddyn ariannol hon ac ynghylch y newid i'r system codi taliadau. Mae lladd-dai llai yn benodol yn teimlo y gallent fod yn arbennig o agored i niwed. Mae angen inni sicrhau ein bod yn amddiffyn gallu'r lladd-dai llai sydd gennym yng Nghymru. Yr wyf hefyd wedi trafod y mater gyda fy nghyd-Weinidog sydd â chyfrifoldeb uniongyrchol dros yr Asiantaeth Safonau Bwyd, y Gweinidog dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol. Ddoe, cyfarfu fy swyddogion â swyddogion yr Asiantaeth Safonau Bwyd. Cafodd pob lladd-dy yng Nghymru ei wahodd i gyfarfod i edrych ar sut y gallai'r system codi taliadau newydd weithio yng Nghymru, a sut y dylid sicrhau nad ydym yn colli unrhyw gapasiti o ran lladd-dai, oherwydd ein hangen i sicrhau ystod eang o gapasiti o'r lladd-dai llai i'r rhai mawr iawn sydd ar gael ar hyd a lled Cymru.

Lesley Griffiths: Weinidog, a ydych yn

one important way of safeguarding Welsh rural communities, and the farming industry in Wales in particular, is to ensure that Welsh meat not only maintains but increases its market share in sales? Do you share my optimism for Welsh farming when you hear such news as Hybu Cig Cymru's recent announcement that retail sales of Welsh lamb and beef rose significantly in the first two months of this year?

Elin Jones: Yes. I share your optimism because I have complete confidence that the meat produced in Wales—particularly lamb and beef—is of the highest possible quality. The work that Hybu Cig Cymru does in promoting Welsh meat to consumers in Wales and outside Wales is key to ensuring that, when people go to the supermarkets and shops and are thinking about their Sunday joint or evening meal, Welsh lamb and beef is right in front of them in the shops and at the front of their minds.

Janet Ryder: Another way to ensure that rural communities have a future is to look at the skills that people need to be equipped with and to ensure that we have the training facilities ready, particularly for land-based work in the horticultural sector. Do you agree that the Welsh College of Horticulture at Northop in north-east Wales must and will play a crucial role in the development of those skills?

Elin Jones: You may know that I launched the Assembly Government's horticultural strategy in south Wales, in Pembrokeshire, and in north-east Wales—two areas of particular significance for horticulture. I have a particular interest in the development of the horticultural sector in Wales, because we need to be a country that produces food generally—not just meat and milk, but vegetables and fruit—so that we produce a balance of food from our land. It is, therefore, essential that we provide training for our farmers and growers in Wales and look to develop the base that we have.

cytuno mai un ffordd bwysig o ddiogelu cymunedau gwledig Cymru, a'r diwydiant ffermio yng Nghymru yn benodol, yw sicrhau bod cig o Gymru nid yn unig yn cynnal ei gyfran o'r farchnad o ran gwerthiant ond yn ei chynyddu? A ydych yn rhannu fy optimistiaeth ar gyfer ffermio yng Nghymru pan fyddwch yn clywed newyddion megis cyhoeddiad diweddar Hybu Cig Cymru bod gwerthiant adwerthu cig oen a chig eidion Cymru wedi codi'n sylweddol yn ystod dau fis cyntaf eleni?

Elin Jones: Ydw. Yr wyf yn rhannu eich optimistiaeth oherwydd yr wyf yn gwbl ffyddiog bod y cig sy'n cael ei gynhyrchu yng Nghymru—yn enwedig cig oen a chig eidion—o'r ansawdd uchaf bosibl. Mae'r gwaith y mae Hybu Cig Cymru'n ei wneud drwy hybu cig o Gymru i ddefnyddwyr yng Nghymru a thu hwnt yn allweddol ar gyfer sicrhau, pan fydd pobl yn mynd i archfarchnadoedd a siopau ac yn meddwl am gig ar gyfer eu cinio Sul neu bryd min nos, bod cig oen a chig eidion o Gymru yn syth o'u blaenau yn y siopau ac ar flaenau eu meddwl.

Janet Ryder: Ffordd arall o sicrhau bod gan gymunedau gwledig ddyfodol yw edrych ar y sgiliau y mae eu hangen ar bobl a sicrhau bod y cyfleusterau hyfforddi'n barod gennym, yn enwedig ar gyfer gwaith tir yn y sector garddwriaeth. A ydych yn cytuno ei bod yn rhaid i Goleg Garddwriaeth Cymru, yn Llaneurgain yng ngogledd-ddwyrain Cymru, chwarae rhan allweddol i ddatblygu'r sgiliau hynny ac y bydd yn gwneud hynny?

Elin Jones: Efallai eich bod yn gwybod imi lansio strategaeth garddwriaeth Llywodraeth y Cynulliad yn y de, yn sir Benfro, ac yn y gogledd ddwyrain—dwyrain ardal sydd ag arwyddocâd penodol ar gyfer garddwriaeth. Mae gennyf ddiddordeb penodol mewn datblygu'r sector garddwriaeth yng Nghymru, oherwydd mae angen inni fod yn wlad sy'n cynhyrchu bwyd yn gyffredinol—nid dim ond cig a llaeth, ond llysiau a ffrwythau—er mwyn inni gynhyrchu cydbwysedd o fwyd o'n tir. Felly, mae'n hanfodol ein bod yn darparu hyfforddiant ar gyfer ein ffermwyr a'n tyfwyr yng Nghymru a'n bod yn ceisio datblygu'r sylfaen sydd gennym.

Alun Davies: We all know that rural communities and businesses make a huge contribution to Wales's economy and culture. The Assembly Government has said that, where necessary, those communities and businesses need support to thrive, adapt and diversify to ensure a more prosperous future. It has listed the means by which it seeks to support rural communities, but one thing missing from that list is support for community and co-operative initiatives. In many parts of the United Kingdom and elsewhere, communities have found innovative solutions to some of the problems caused by a diminution of services, whether that is the provision of shop facilities—or post offices, which we are discussing at the moment—or other facilities. Is the Assembly Government prepared to proactively support community and co-operative initiatives to maintain innovative solutions to provide some of the services that people require in rural Wales?

Elin Jones: Byddwn yn barod iawn i roi fy nghefnogaeth i'r trywydd hwnnw. Nid yw cynlluniau cydweithredol yn bethau newydd, wrth gwrs, yng nghyd-destun cefn gwlad na'r cyd-destun amaethyddol. Efallai nad ydynt wedi datblygu i'r un graddau yng Nghymru ag yn Iwerddon, ond mae'r traddodiad cydweithredol yn bodoli yn y sector bwyd. Mae gennym fentrau bwyd cydweithredol pwysig iawn yn datblygu mewn gwahanol rannau o Gymru. Mae'r cynllun datblygu gwledig a'r arian sydd ar gael yn cynnig cyfleoedd i ddatblygu mentrau cydweithredol fel y rhai y bu i chi gyfeirio atynt.

Y Llywydd: Tynnwyd cwestiynau 6, OAQ(3)0282(RAF), a 7, OAQ(3)0283(RAF), yn ôl.

The Farming Industry

Q8 Nick Bourne: Will the Minister outline her vision for our farming industry in 10 years? OAQ(3)0295(RAF)

Elin Jones: The aim is for an industry that is sustainable and profitable. It is my intention to consult this summer on a new strategy for

Alun Davies: Yr ydym i gyd yn gwybod bod busnesau a chymunedau gwledig yn gwneud cyfraniad enfawr at economi a diwylliant Cymru. Mae Llywodraeth y Cynulliad wedi dweud, lle bydd angen, bod angen cefnogaeth ar y busnesau a'r cymunedau hynny i ffynnu, i addasu ac i arallgyfeirio i sicrhau dyfodol mwy ffyniannus. Mae wedi rhestru'r ffyrdd y mae'n bwriadu cefnogi cymunedau gwledig, ond un peth sydd ar goll o'r rhestr honno yw cefnogaeth ar gyfer mentrau cymunedol a chydweithredol. Mewn nifer o rannau o'r Deyrnas Unedig a thu hwnt, mae cymunedau wedi dod o hyd i atebion arloesol i rai o'r problemau a achosir oherwydd bod nifer y gwasanaethau'n lleihau, boed hynny'n ddarparu cyfleusterau siop—neu swyddfeydd post, yr ydym yn ei drafod ar hyn o bryd—neu gyfleusterau eraill. A yw Llywodraeth y Cynulliad yn fodlon cefnogi mentrau cymunedol a chydweithredol yn rhagweithiol i gynnal atebion arloesol i ddarparu rhai o'r gwasanaethau y mae pobl yn gofyn amdanynt yng Nghymru wledig?

Elin Jones: I would be more than willing to give my support to such developments. Of course, co-operative developments are nothing new in the rural context or even the agricultural context. Perhaps they have not developed to the same extent in Wales as in Ireland, but the co-operative tradition exists in the food sector. Very important food co-operatives are developing in many parts of Wales. The rural development plan and the funding available under it will provide opportunities to develop co-operative initiatives such as those to which you refer.

The Presiding Officer: Questions 6, OAQ(3)0282(RAF), and 7, OAQ(3)0283(RAF), are withdrawn.

Y Diwydiant Ffermio

C8 Nick Bourne: A wnaiff y Gweinidog amlinellu ei gweledigaeth ar gyfer ein diwydiant ffermio mewn 10 mlynedd? OAQ(3)0295(RAF)

Elin Jones: Y nod yw cael diwydiant sy'n gynaliadwy ac yn broffidiol. Fy mwriad yw ymgynghori'r haf hwn ar strategaeth newydd

farming that will include proposals to address the challenges facing farm profitability, climate change and the viability of our rural communities.

Nick Bourne: Has the Minister given any thought—I am sure that she has—to the issue of biofuels? On one hand, if we are encouraging their production, they are a green source of energy and a source of income for farmers. On the other hand, they affect food production. Where does the Government stand on squaring that circle and what balance is being struck by the Minister?

1.00 p.m.

Elin Jones: We have a new situation in Wales, in the rest of the United Kingdom, in Europe and probably in the world, where there are competing interests for the use of land, which is having an effect on food production and the land allocated for that. You will know that, in the One Wales Government programme, we have pledged to consider whether we intend to introduce a grant for energy crops in Wales. I will be pursuing that through the axis 2 review of the rural development plan, looking to all of our land management agri-environment schemes to develop schemes that support the new challenges that are facing us, as you have indicated, through climate change and the competing interests for land use.

Alun Ffred Jones: Cyfeiriasoch yn eich ateb blaenorol at rôl lladd-dai bach neu gymharol fach yn y diwydiant amaethyddol. Pa gysur neu ba gefnogaeth ymarferol y gallwch ei gynnig i'r lladd-dai hyn sydd yn bwysig i'r ffermwyr o ran creu marchnad ychwanegol, ac o ran creu brand i gig Cymru, o gofio'r pwysau cynyddol sydd arnynt o du biwrocratiaeth a iechyd a diogelwch sy'n cynyddu costau tra bo prisiau'n cael eu gwasgu gan yr archfarchnadoedd?

Elin Jones: Mae dwy ffordd uniongyrchol y gallwn, fel Llywodraeth, roi cefnogaeth i ladd-dai bach, yn enwedig. Un o'r ffyrdd

ar gyfer ffermio a fydd yn cynnwys cynigion i roi sylw i'r sialensiau sy'n wynebu proffidioldeb ffermydd, newid yn yr hinsawdd a hyfywedd ein cymunedau gwledig.

Nick Bourne: A yw'r Gweinidog wedi ystyried—ac yr wyf yn siŵr ei bod—biodanwyddau? Ar un llaw, os ydym yn hybu eu cynhyrchu, maent yn ffynhonnell werdd o ynni ac yn ffynhonnell incwm i ffermwyr. Ar y llaw arall, maent yn effeithio ar gynhyrchu bwyd. Beth yw barn y Llywodraeth ar sgwario'r cylch hwnnw a'r cydbwysedd y mae'r Gweinidog yn ei gyflawni?

Elin Jones: Mae gennym sefyllfa newydd yng Nghymru, yng ngweddill y Deyrnas Unedig, yn Ewrop a ledled y byd, yn ôl pob tebyg, lle y mae gwahanol fuddiannau'n cystadlu am gael defnyddio tir, ac mae hynny'n effeithio ar gynhyrchu bwyd a'r tir sydd wedi'i ddyrannu ar gyfer hynny. Byddwch yn gwybod ein bod wedi addo yn rhaglen Llywodraeth Cymru'n Un y byddwn yn ystyried a ydym yn bwriadu cyflwyno grant ar gyfer cnydau ynni yng Nghymru. Byddaf yn dilyn hynny drwy'r adolygiad o'n cynllun datblygu gwledig dan echel 2, gan ddisgwyl y bydd pob un o'n cynlluniau amaeth-amgylcheddol ar gyfer rheoli tir yn datblygu cynlluniau sy'n ymateb i'r heriau newydd yr ydym yn eu hwynebu, fel yr ydych wedi nodi, oherwydd newid yn yr hinsawdd a'r gwahanol fuddiannau sy'n cystadlu am gael defnyddio tir.

Alun Ffred Jones: You referred in your earlier response to the role of small or comparatively small abattoirs in the agriculture industry. What comfort or which practical support can you offer these abattoirs that are frequently very important to farmers in creating an additional market, and also creating a brand for Welsh meat, bearing in mind the increasing pressures upon them as regards bureaucracy and health and safety which increase the costs while prices are squeezed by the supermarkets?

Elin Jones: I would say that there are two direct ways in which we, as a Government, can look at giving support to the small

hynny fyddai i'r lladd-dai hynny, wrth ymwneud â'r gadwyn fwyd, ystyried y grantiau sydd ar gael o dan y cynllun datblygu gwledig a'r cynllun prosesu a marchnata yn benodol. Yn ail, gan fynd yn ôl i gwestiwn Nick Bourne a atebais i ynghynt, yr wyf wedi cymryd diddordeb yn yr angen i sicrhau bod gennym rwydwaith cynhwysfawr o ladd-dai yng Nghymru, o ladd-dai mawr sy'n cyflenwi archfarchnadoedd mawr i ladd-dai llai sy'n gweithio'n lleol gyda chigyddion a marchnadoedd ffermwyr, ac, wrth gwrs, lladd-dai fel hwnnw yn un eich etholaeth chi sy'n cyflenwi'r farchnad allforio, fel ein bod yn gallu sicrhau yr ystod ehangaf posibl. Mae'n bwysig fy mod i, yn ystod fy nhrafodaethau gyda'r Gwasanaeth Hylendid Cig, yn edrych i weithio gyda lladd-dai i sicrhau bod gennym system o godi tâl ar ladd-dai o ran yr arolygiadau sydd angen eu gwneud, fel na bo hynny'n peryglu hyfywedd y lladd-dai hynny i'r dyfodol.

Preserving Protected Species

Q9 Peter Black: Will the Minister make a statement on how she is preserving protected species in Wales? OAQ(3)0284(RAF)

Elin Jones: The European habitats directive requires member states to protect certain species of animals and plants. In Wales, this is implemented through the habitats regulations. My commitment to species conservation is demonstrated through the support of over 50 per cent of agricultural land in Wales under an agri-environment scheme such as Tir Gofal.

Peter Black: As you have now taken a decision to exterminate badgers in a particular part of Wales, can you give us an early indication of which parts of Wales you are thinking of earmarking for this process, and what sort of timetable we are looking at?

Elin Jones: I have nothing more to report on this matter than that which I reported extensively in a debate on this floor last week and that which I stated in a statement on this matter a fortnight ago. It is important that we use language carefully in, and outside, the

abattoir, in particular. One way, of course, is for those abattoirs that are involved in the food chain to consider the grants that are available under the rural development plan and the marketing and processing scheme specifically. Secondly, referring to the answer that I gave Nick Bourne earlier, I have taken a personal interest in ensuring that we have a comprehensive network of abattoirs in Wales, from large abattoirs supplying large supermarkets to smaller abattoirs working locally with butchers and farmers' markets so that we can ensure the widest range possible and, of course, an abattoir such as the one in your constituency which supplies the export market. It is important that I, during my discussions with the Meat Hygiene Service, look to working with the abattoirs to ensure that we have a system of charging abattoirs for the inspections that are required that will not endanger the viability of those abattoirs in future.

Gwarchod Rhywogaethau a Ddiogelir

C9 Peter Black: A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am sut y mae hi'n gwarchod rhywogaethau a ddiogelir yng Nghymru? OAQ(3)0284(RAF)

Elin Jones: Mae'r gyfarwydddeb cynefinoedd Ewropeaidd yn mynnu bod aelod-wladwriaethau'n gwarchod rhywogaethau penodol o anifeiliaid a phlanhigion. Yng Nghymru, fe'i rhoddir ar waith drwy'r rheoliadau cynefinoedd. Dangosir fy ymrwymiad i gadw rhywogaethau drwy'r cymhorthdal ar gyfer mwy na 50 y cant o'r tir amaethyddol yng Nghymru dan gynlluniau amaeth-amgylcheddol fel Tir Gofal.

Peter Black: Gan eich bod bellach wedi gwneud penderfyniad i ddifodi moch daear mewn rhan benodol o Gymru, a allwch nodi'n fuan pa rannau o Gymru yr ydych yn ystyried eu clustnodi ar gyfer y broses hon, a pha fath o amserlen sydd dan sylw?

Elin Jones: Nid oes gennyf ddim pellach i'w adrodd ar y mater hwn na hynny yr adroddais yn helaeth arno mewn dadl ar lawr y Siambr hon yr wythnos diwethaf a hynny a ddywedais mewn datganiad am y mater hwn bythefnos yn ôl. Mae'n bwysig inni drin

Chamber. There is no extermination of the Welsh badger, and there is no Welsh badger cull. Badgers remain a protected species and there will only be consideration of culling them in an area of TB infection when a decision is taken and is licensed by me. No-one else has the authority now, and no-one else had the authority before, to cull badgers in Wales.

Chris Franks: There are examples of birds in Wales that are in serious decline. One of those birds is the curlew, whose numbers have declined by 81 per cent over the last 13 years. Similarly, it is believed that there are just 600 or so breeding pairs of lapwings remaining. What is the Minister doing to ensure landscape and habitation restoration and protection in Wales? How will you ensure that these sites are in good working condition, so that they are able to support adequate numbers of birds?

Elin Jones: As I indicated in my original answer, schemes such as Tir Gofal have looked to ensure the provision of habitats for bird conservation—particularly for birds that are in decline. You mentioned the lapwing, and there has been significant progress with regard to that bird in some areas of Wales under agri-environment schemes and through work with the farm and wildlife advisory group to ensure that land is designated for lapwings, allowing them to be promoted and developed further in Wales.

William Graham: Minister, I am not sure whether you are a fan of television soap operas, but my staff tell me that there is a current storyline about bats. All 17 species—

David Melding: In which soap opera?

William Graham: Now, there you have me. I do not know.

The Presiding Officer: Order. William Graham is not answering questions today.

William Graham: Minister, you will know that there are 17 species of bat in Wales, all

geiriau'n ofalus y tu mewn a'r tu allan i'r Siambr. Nid oes bwriad i ddifodi moch daear Cymru, ac nid oes cynllun i ddifa moch daear yng Nghymru. Mae moch daear yn rhywogaeth a warchodir o hyd a dim ond wedi i mi wneud penderfyniad a thrwyddedu hynny yr ystyrir eu difa mewn ardal sydd wedi'i heintio gan TB. Nid oes gan neb arall awdurdod yn awr, ac ni fu gan neb arall awdurdod o'r blaen, i ddifa moch daear yng Nghymru.

Chris Franks: Mae enghreifftiau o adar yng Nghymru sy'n dirywio'n enbyd. Un o'r adar hynny yw'r gylfinir, y mae ei niferoedd wedi gostwng 81 y cant dros y 13 blynedd diwethaf. Yn yr un modd, credir mai dim ond oddeutu 600 o barau magu o gornicyllod sy'n weddill. Beth y mae'r Gweinidog yn ei wneud i sicrhau bod tirweddau a chynefinoedd yn cael eu gwarchod a'u hadfer yng Nghymru? Sut y byddwch yn sicrhau bod y safleoedd hyn mewn cyflwr da, fel eu bod yn gallu cynnal digon o adar?

Elin Jones: Fel y nodais yn fy ateb gwreiddiol, mae cynlluniau fel Tir Gofal wedi ceisio sicrhau bod cynefinoedd ar gael er mwyn cadw adar—yn enwedig adar y mae eu niferoedd yn gostwng. Cyfeiriasoch at y cornicyll, a bu cynnydd sylweddol mewn cysylltiad â'r aderyn hwnnw mewn rhai ardaloedd yng Nghymru dan gynlluniau amaeth-amgylcheddol a drwy weithio gyda'r grŵp cynghori ar ffermio a bywyd gwyllt i sicrhau bod tir wedi'i ddynodi ar gyfer cornicyllod, fel y gellir eu hyrwyddo a'u datblygu ymhellach yng Nghymru.

William Graham: Weinidog, nid wyf yn sicr a ydych yn dilyn operâu sebon ar y teledu'n selog, ond mae fy staff yn dweud wrthyf fod rhediad stori am ystlumod ar hyn o bryd. Mae pob un o'r 17 o rywogaethau—

David Melding: Ym mha opera sebon?

William Graham: Yr ydych wedi fy nal. Nid wyf yn gwybod.

Y Llywydd: Trefn. Nid yw William Graham yn ateb cwestiynau heddiw.

William Graham: Weinidog, byddwch yn gwybod bod 17 o rywogaethau o ystlumod

of which are protected. Could you outline your suggestions for continuing the sustainability of bat colonies?

Elin Jones: This is not directly a matter for me; it is a matter for the Minister for the Environment and Sustainability—the question would be more appropriately addressed to her. As you said, all species of bat are protected, and it is important that they remain so in Wales. However, I have no idea which soap opera you are talking about.

William Graham: I am told that it was *Coronation Street*.

Welsh Food Produce

Q10 Nick Ramsay: What action is the Welsh Assembly Government taking to promote Welsh food produce? OAQ(3)0278(RAF)

Elin Jones: The Assembly Government is committed to supporting the food and drink industry in Wales. A number of Welsh Assembly Government initiatives promote the high-quality food and drink that Wales produces in Wales and the UK, and on the international stage.

Nick Ramsay: You will be relieved to know that I will not ask you about *Coronation Street* or *EastEnders*, or any other soap opera. I will ask you about the state of the Welsh pig industry, which I know you have been considering, and which affects many of my constituents. Pig farmers have a problem making money at the moment—I believe that they are losing about £26 on each pig that they sell at present. Can you update us on what you are doing about this situation? Pork is an important part of the Welsh agricultural industry and export market, and, as my colleagues say, pork is indeed very tasty. It is important that we give this industry as much support as possible.

Elin Jones: Yes, and I acknowledge what you say about the problems facing the pork

ying Nghymru, y mae pob un ohonynt wedi'i gwarchod. A allech amlinellu'ch awgrymiadau i sicrhau y bydd nythfeydd ystlumod yn dal yn gynaliadwy?

Elin Jones: Nid yw hyn yn fater i mi'n uniongyrchol; mae'n fater i'r Gweinidog dros yr Amgylchedd a Chynaliadwyedd—byddai'n fwy priodol gofyn y cwestiwn iddi hi. Fel y dywedasoch, mae pob un o rywogaethau'r ystlum wedi'i gwarchod, ac mae'n bwysig iddynt aros felly yng Nghymru. Fodd bynnag, nid oes gennyf unrhyw syniad pa opera sebon yr ydych yn sôn amdani.

William Graham: Dywedir wrthyf mai *Coronation Street* ydoedd.

Cynnyrch Bwyd o Gymru

C10 Nick Ramsay: Pa gamau y mae Llywodraeth Cynulliad Cymru'n eu cymryd i hybu cynnyrch bwyd o Gymru? OAQ(3)0278(RAF)

Elin Jones: Mae Llywodraeth y Cynulliad wedi ymrwmo i gefnogi'r diwydiant bwyd a diod yng Nghymru. Mae nifer o gynlluniau Llywodraeth Cynulliad Cymru yn hybu'r bwydydd a diodydd o ansawdd da y mae Cymru'n eu cynhyrchu yng Nghymru ac yn y DU, ac yn rhyngwladol.

Nick Ramsay: Bydd yn dda gennych glywed na fyddaf yn eich holi am *Coronation Street* neu *EastEnders*, neu unrhyw opera sebon arall. Gwnaf eich holi am gyflwr diwydiant moch Cymru, y gwn eich bod wedi'i ystyried, ac sy'n effeithio ar lawer o'm hetholwyr. Mae ffermwyr moch yn ei chael yn anodd gwneud arian ar hyn o bryd—credaf eu bod yn colli £26 am bob mochyn y maent yn ei werthu'n awr. A allwch roi'r wybodaeth ddiweddaraf i ni am yr hyn yr ydych yn ei wneud ynghylch y sefyllfa hon? Mae porc yn rhan bwysig o ddiwydiant amaethyddol a marchnad allforion Cymru, ac, fel y dywed fy nghyd-Aelodau, mae porc yn flasus dros ben. Mae'n bwysig inni roi cymaint o gefnogaeth ag y bo modd i'r diwydiant hwn.

Elin Jones: Ydyw, a derbynaf yr hyn yr ydych yn ei ddweud am yr anawsterau sy'n

industry, although they are not exclusive to that industry. There are increased feed costs and increased costs in general across the livestock-producing sector. However, the pig industry is certainly suffering at the moment, with increased costs possibly not being matched by increased prices. You will know, of course, that Hybu Cig Cymru is now taking on a role in promoting pork in Wales. That is a new development and I want the Assembly Government to engage with it. I want Wales to be a country that produces lamb, beef, pork and other meats, and we should not confine our efforts to a particular meat sector.

Jeff Cuthbert: Minister, you will know that Caerphilly is not only famous as the birthplace of Tommy Cooper, but that it is also famous for its cheese. Will you use your good offices to ensure that Caerphilly cheese is made available here at the Assembly?

Elin Jones: I am keen to lend my support to Caerphilly cheese, as to all Welsh cheeses. However, it is not a matter for me to decide which cheeses are sold on the Senedd or Assembly premises.

The Presiding Officer: I will expedite this matter urgently as a point of order. *[Laughter.]*

1.10 p.m.

David Lloyd: I suspect that the majority of the public, if questioned, would express a preference to buy locally produced food and drink, but in an age when retailers encourage shoppers to buy everything under one roof, from tomatoes to televisions, it requires a conscientious effort to turn principle into practice. Will you consider a Government advertising campaign to encourage people to think before they shop?

Elin Jones: Mae'r dystiolaeth, yn ôl arolygon marchnad, yn dangos bod pobl yn datgan y byddent am brynu bwyd lleol, neu fwyd Cymreig hyd yn oed, ond mae ymarferion cwsmeriaid yn wahanol i'r hyn y maent yn datgan y byddent yn ei wneud ac

wynebu'r diwydiant porc, er nad ydynt yn gyfyngedig i'r diwydiant hwnnw. Mae costau bwydydd anifeiliaid yn uwch ac mae'r costau'n uwch yn gyffredinol ym mhob rhan o'r sector cynhyrchu da byw. Fodd bynnag, mae'n sicr bod y diwydiant moch yn dioddef ar hyn o bryd, gan ei bod yn bosibl nad yw'r costau uwch yn mynd law yn llaw â phrisiau uwch. Byddwch yn gwybod, wrth gwrs, fod Hybu Cig Cymru bellach yn cymryd rhan wrth hybu porc yng Nghymru. Mae hynny'n ddatblygiad newydd ac yr wyf yn dymuno i Lywodraeth y Cynulliad gymryd rhan ynddo. Yr wyf am i Gymru fod yn wlad sy'n cynhyrchu cig oen, cig eidion, porc a chigoedd eraill, ac ni ddylem gyfyngu ein hymdrechion i un sector cig penodol.

Jeff Cuthbert: Weinidog, byddwch yn gwybod bod Caerffili nid yn unig yn enwog fel man geni Tommy Cooper, ond ei bod hefyd yn enwog am ei chaws. A fyddwch mor garedig â sicrhau y bydd caws Caerffili ar gael yma yn y Cynulliad?

Elin Jones: Yr wyf yn awyddus i gefnogi caws Caerffili, yn yr un modd â phob math o gaws o Gymru. Er hynny, nid mater i mi yw penderfynu pa fathau o gaws a werthir yn y Senedd neu yn adeiladau'r Cynulliad.

Y Llywydd: Byddaf yn rhoi sylw ar frys i'r mater hwn fel pwynt o drefn. *[Chwerthin.]*

David Lloyd: Yr wyf yn amau y byddai'r rhan fwyaf o'r cyhoedd, os caent eu holi, yn dweud y byddai'n well ganddynt brynu bwyd a diod a gynhyrchwyd yn lleol, ond mewn oes pan yw manwerthwyr yn annog siopwyr i brynu popeth dan yr un to, yn amrywio o domatos i setiau teledu, mae angen ymdrech gydwbodol i weithredu ar sail egwyddor. A wnewch ystyried ymgyrch hysbysebu gan y Llywodraeth i annog pobl i ystyried cyn iddynt siopa?

Elin Jones: The evidence, from market surveys does show that people state that they would want to buy local food, or even Welsh produce, but customer habits are often different to what they claim to want to do and their buying policy does not always reflect

nid yw eu polisi pryniant wastad yn adlewyrchu hwnnw, gan fod pobl efallai yn edrych ar gost yn ogystal ag arferion prynu. Felly, mae'n bwysig ein bod ni fel Llywodraeth yn edrych i hyrwyddo'r sector bwyd yng Nghymru yn ei amryw ffyrdd, a bod y sector yn edrych i hynny hefyd. Ni fydd sector bwyd lle mae pawb yn prynu o'r un math o le—bydd rhai'n dewis prynu mewn archfarchnadoedd a bydd eraill yn dewis prynu mewn marchnadoedd ffermwyr. Mae'n bwysig ein bod ni, drwy'r dulliau sydd ar gael i ni o ran hybu bwyd, twristiaeth bwyd a chig, yn sicrhau bod y neges yn gyson bod cynnyrch Cymru o'r safon uchaf a'i fod yn cynnal ein cymunedau cefn gwlad a'n sector bwyd.

Bovine Tuberculosis

Q11 Brynle Williams: Will the Minister make a statement on the eradication of bovine TB? OAQ(3)0286(RAF)

Elin Jones: I ailadrodd yr hyn a ddywedais bythefnos yn ôl, yr ydym wedi cyhoeddi rhaglen i ddileu TB mewn gwartheg yng Nghymru. Yr ydym wedi cyfeirio £27 miliwn ychwanegol at y broses honno dros y tair mlynedd nesaf.

Brynle Williams: What discussions have you had with your colleagues across the border on the eradication of bovine TB? What plans have you made to manage the eradication strategy in the event of a bluetongue outbreak—which we all hope will not happen—given the impact that foot and mouth disease had on TB incidence in the years following 2001?

Elin Jones: Mae fy swyddogion mewn cyswllt parhaol gyda swyddogion yn Adran yr Amgylchedd, Bwyd a Materion Gwledig i drafod clefydau anifeiliaid ac, ymysg rheiny, TB wrth gwrs. Cefais gyfarfod y bore yma gydag uchel swyddogion yr Asiantaeth Iechyd Anifeiliaid i drafod, ymysg pethau eraill, y rhaglen gwaredu TB yng Nghymru a'r cydweithio sydd ei angen rhwng Asiantaeth Iechyd Anifeiliaid a Llywodraeth y Cynulliad ar ein rhaglen gwaredu TB.

that, because people probably look at costs as well as buying habits. Therefore, it is important that we as a Government look to promote the food sector in Wales in its various forms and that the sector does so too. There will not be a food sector where everyone buys from the same kind of outlets—some will choose to buy in supermarkets and others will choose to buy in farmers' markets. It is important that we, using the means available to us with regard to food promotion, food and meat tourism, ensure that the message is consistent, that Welsh produce is of the highest quality and that it sustains our rural communities and our food sector.

Twbercwlosis mewn Gwartheg

C11 Brynle Williams: A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am ddileu twbercwlosis mewn gwartheg? OAQ(3)0286(RAF)

Elin Jones: To repeat what I said a fortnight ago, that we have announced a bovine TB eradication programme in Wales. We have directed an extra £27 million to that process over the next three years.

Brynle Williams: Pa drafodaethau yr ydych wedi'u cael â'ch cymheiriaid ar draws y ffin am ddileu TB mewn gwartheg? Pa gynlluniau yr ydych wedi'u gwneud i reoli'r strategaeth ddileu os ceir achosion o'r tafod glas—er bod pob un ohonom yn gobeithio na ddigwydd hynny—a chofio'r effaith a gafodd clwy'r traed a'r genau ar fynychder yr achosion o TB yn y blynyddoedd ar ôl 2001?

Elin Jones: My officials are constantly in talks with officials at the Department for the Environment, Food and Rural Affairs to discuss animal disease, including TB of course. I had a meeting this morning with senior officials from the Animal Health Agency to discuss, among other things, the TB eradication programme in Wales and the collaboration that is required between the Animal Health Agency and the Assembly Government on our TB eradication programme.

O ran y cysylltiad rhwng clwyf y dafod las a TB, ar hyn o bryd ein polisi yw sicrhau ein bod yn cadw clwyf y dafod las allan o Gymru. Yr wyf yn ddigon o realydd i wybod efallai na fydd hynny'n bosibl yn yr hir dymor, felly bydd yn rhaid i ni reoli'r ddau glwyf ar y cyd mewn ffyrdd gwahanol gan eu bod yn wahanol iawn. Fodd bynnag, bydd yn rhaid i ni wneud y gorau o'r sefyllfa honno, fel yr ydym wastad yn gorfod ei wneud lle mae afiechydon anifeiliaid yn y cwestiwn.

In terms of the links between blue tongue and TB, our policy at present is to ensure that we keep blue tongue out of Wales. I am enough of a realist to know that that may not prove possible in the long term, therefore we will have to control both diseases jointly in very different ways as they are very different diseases. However, we will have to make the best of the situation as we always have to do where animal health issues are concerned.

Farm Incomes

Q12 David Melding: Will the Minister make a statement on farm incomes in Wales? OAQ(3)0266(RAF)

Elin Jones: The data published in February reflected the difficulties facing farming in 2007. Higher costs affected all sectors but impacted more severely on less-favoured-area livestock producers, given that, at an important period in the farming year, their trading and export activities were also disrupted due to the foot-and-mouth-disease movement controls.

David Melding: I was impressed to see from a recent review of Tir Gofal that much of the support given to promote the environment and the general state of farms can be retained by farmers in, for example, capital projects, boundary fences, looking after historical sites and so on. Around 60 per cent of the payments are now used by farmers to pay for their own labour or that of their family. It seems to me that, under the common agricultural policy review and the success of Tir Gofal, that type of scheme and principle needs to be retained, so that there is a level of income support for what are, generally, public goals.

Elin Jones: Those points were raised by the National Audit Office report and are borne out by the experience of the Tir Gofal scheme. The capital works projects undertaken as part of Tir Gofal have been of significant benefit to farmers directly and to surrounding rural businesses. What is always brought home to me is the fact that the

Incwm Ffermydd

C12 David Melding: A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am incwm ffermydd yng Nghymru? OAQ(3)0266(RAF)

Elin Jones: Yr oedd y data a gyhoeddwyd ym mis Chwefror yn adlewyrchu'r anawsterau a oedd yn wynebu ffermio yn 2007. Effeithiodd y costau uwch ar yr holl sectorau ond cawsant effaith fwy difrifol ar gynhyrchwyr da byw mewn ardaloedd llai ffafriol, gan gofio bod eu gweithgareddau masnachu ac allforio wedi'u drysu hefyd, mewn cyfnod pwysig yn y flwyddyn ffermio, o ganlyniad i'r mesurau rheoli symudiadau oherwydd clwy'r traed a'r genau.

David Melding: Yr oedd yn dda gennyf weld mewn adolygiad diweddar o Tir Gofal y gall ffermwyr gadw llawer o'r cymhorthdal a roddir i hybu'r amgylchedd a chyflwr cyffredinol y ffermydd a hynny, er enghraifft, ar ffurf prosiectau cyfalaf, ffensys terfyn, gofalu am safleoedd hanesyddol ac yn y blaen. Bellach mae ffermwyr yn defnyddio tua 60 y cant o'r taliadau i dalu am eu llafur eu hunain neu lafur eu teulu. Mae'n ymddangos i mi fod angen cadw cynllun ac egwyddor o'r fath, dan yr adolygiad o'r polisi amaethyddol cyffredin ac oherwydd llwyddiant Tir Gofal, fel y bydd rhywfaint o gymhorthdal incwm ar gyfer pethau sydd, at ei gilydd, yn nodau cyhoeddus.

Elin Jones: Codwyd y pwyntiau hynny gan adroddiad y Swyddfa Archwilio Genedlaethol ac mae'r profiad gyda chynllun Tir Gofal yn eu cadarnhau. Mae'r prosiectau gwaith cyfalaf yr ymgwymerwyd â hwy fel rhan o Tir Gofal wedi bod o fudd sylweddol i ffermwyr yn uniongyrchol ac i fusnesau gwledig o'u hamgylch. Yr hyn sydd bob

payments made to the agriculture industry circulate not just within the farming family, but often within the wider rural economy. There is a very local nature to the spend, and all the statistics show that the majority of it remains and is retained in the local economy or by surrounding, individual farms.

The Rural Development Plan

Q13 Andrew R.T. Davies: Will the Minister make a statement on her aspirations for the rural development plan? OAQ(3)0273(RAF)

Elin Jones: The support provided under the rural development plan will further sustain the competitiveness of agriculture and forestry, enhance the environment and the countryside, and strengthen the economic and social fabric of our rural communities, consistent with the overall commitments set out in 'One Wales'.

Andrew R.T. Davies: Thank you for that answer, Minister. One element of the previous rural development plan was the Farming Connect scheme, and one of its benefits was the facilitator network, especially the local facilitator network. It has taken some time to get the new rural development plan approved by Europe, and all the facilitators were laid off when the previous scheme ended on 31 March 2007. For the rural development plan to be a success, it is imperative that that local facilitator link be re-established. How confident are you that you will be able to re-establish that link with local facilitators, who understand the nature of business in rural communities, and could access the benefits of the new rural development plan?

Elin Jones: You will know that the Farming Connect project has gone through a process of public tender, and so I will make an announcement on the detail of that project and programme late in the spring. I know of the value of the facilitators in developing projects and co-operation. We also have the farm advisory service, which continues to do

amser yn fy narbwylo i yw'r ffaith bod y taliadau a wneir i'r diwydiant amaethyddol yn cylchredeg nid dim ond o fewn y teulu ffermio, ond yn aml o fewn yr economi wledig ehangach. Mae i'r gwariant natur leol iawn, ac mae'r holl ystadegau'n dangos bod y rhan fwyaf ohono yn aros ac yn cael ei gadw yn yr economi leol neu gan ffermydd unigol, cyfagos.

Y Cynllun Datblygu Gwledig

C13 Andrew R.T. Davies: A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am ei dyheadau ar gyfer y cynllun datblygu gwledig? OAQ(3)0273(RAF)

Elin Jones: Bydd y cymorth a ddarperir o dan y cynllun datblygu gwledig yn cynnal natur gystadleuol amaethyddiaeth a choedwigaeth ymhellach, yn gwella'r amgylchedd a chefn gwlad, ac yn cryfhau gwead economaidd a chymdeithasol ein cymunedau gwledig, yn gyson â'r ymrwymadau cyffredinol a roddwyd yn 'Cymru'n Un'.

Andrew R.T. Davies: Diolch ichi am yr ateb hwnnw, Weinidog. Un elfen o'r cynllun datblygu gwledig blaenorol oedd y cynllun Cyswllt Ffermio, ac un o'i fanteision oedd y rhwydwaith o hwyluswyr, yn enwedig y rhwydwaith o hwyluswyr lleol. Mae wedi cymryd dipyn o amser i gael cymeradwyaeth gan Ewrop i'r cynllun datblygu gwledig newydd, a chafodd yr hwyluswyr i gyd eu diswyddo pan ddaeth y cynllun blaenorol i ben ar 31 Mawrth 2007. Er mwyn i'r cynllun datblygu lleol fod yn llwyddiant, mae'n hanfodol fod y cyswllt hwnnw â hwyluswyr lleol yn cael ei ailsefydlu. Pa mor hyderus ydych chi y gallwch ailsefydlu'r cyswllt hwnnw â hwyluswyr leol, sy'n deall natur busnes mewn cymunedau gwledig, ac a allai gyrchu at fanteision y cynllun datblygu gwledig newydd?

Elin Jones: Byddwch yn gwybod bod prosiect Cyswllt Ffermio wedi bod drwy broses dendro gyhoeddus, felly byddaf yn gwneud cyhoeddiad ar fanylion y prosiect hwnnw a'r rhaglen tua diwedd y gwanwyn. Gwn am werth yr hwyluswyr yn datblygu prosiectau a chydweithrediad. Mae gennym hefyd y gwasanaeth cynghori ffermydd, sy'n

its work of providing direct support to farmers in their relationship with the Assembly Government, so that they can access public funding sources.

Pris Teg am Gynnyrch

C14 Eleanor Burnham: Pa gynlluniau sydd gan y Gweinidog i sicrhau bod ffermwyr yn cael pris teg am eu cynnyrch? OAQ(3)0289(RAF)

Elin Jones: Ar hyn o bryd, mae Swyddfa Masnachu Teg y Comisiwn Cystadleuaeth yn ymchwilio i'r sector hwn. Yr wyf wedi ysgrifennu at y Comisiwn Cystadleuaeth i gefnogi'r cynnig ffurfiol am ombwdsmon i reoli'r sector manwerthu bwyd a chefnogi'r cynhyrchwyr, a disgwyliaf dderbyn ei adroddiad terfynol ynghylch polisiau prisio y gadwyn gyflenwi bwyd ym mis Mai.

Eleanor Burnham: Diolch am yr ateb hwnnw, Weinidog. Yr ydym oll yn gweld prisiau bwyd yn cynyddu'n ddyddiol ac effaith hynny ar bobl sydd ag incwm isel. Bu prisiau cig eidion, llaeth, cig oen a grawnfwyd yn cynyddu i'r cwsmer, ond nid i'r ffermwr. Deallaf fod cyfran ffermwyr o'r pris a godir yn y siopau am gig eidion wedi syrthio o 48 i 46 y cant. Fel arfer, yr archfarchnadoedd sy'n gwneud yr elw a'r ffermwr sy'n colli allan. Beth yn union ydych yn ei wneud i sicrhau na fydd y sefyllfa yn gwaethygu, ac a allwch chi bwysu os yr archfarchnadoedd yn hynny o beth?

Elin Jones: Nid yw'n hollol wir i ddweud nad oes dim o'r cynnydd ym mhrisiau bwyd yn cael ei basio ymlaen at y ffermwyr. Digwyddodd hynny gyda'r sector llaeth, er enghraifft. Dros y flwyddyn neu'r 18 mis diwethaf, mae ffermwyr wedi gweld cynnydd sylweddol ym mhris llaeth, ond, wrth gwrs, mae hwnnw wedi cydreddeg â chynnydd yn eu costau. Dychwelaf at fy ateb gwreiddiol er mwyn ateb eich cwestiwn, a dweud fy mod wedi gwneud barn Llywodraeth y Cynulliad yn glir i'r Comisiwn Cystadleuaeth—er nad yw'r materion hyn wedi eu datganoli i ni—a'r farn honno yw bod gennym bryder am hyn, ac yr ydym yn gweld yr angen i sicrhau tryloywder yn y gadwyn fwyd, ac felly ein bod yn gweld bod angen rôl i reoleiddiwr neu ombwdsmon yn y sector hwn, fel bod pawb

parhau i wneud ei waith o ddarparu cymorth uniongyrchol i ffermwyr yn eu perthynas â Llywodraeth y Cynulliad, fel y gallant fanteisio ar ffynonellau cyllido cyhoeddus.

A Fair Price for Produce

Q14 Eleanor Burnham: What plans does the Minister have to ensure that farmers receive a fair price for their produce? OAQ(3)0289(RAF)

Elin Jones: The Competition Commission's Office of Fair Trading is investigating this sector. I have written to the Competition Commission to support the formal proposal for an ombudsman to regulate the food retail sector and to support producers, and I expect to receive its final report about pricing policies in the food supply chain in May.

Eleanor Burnham: Thank you for that response, Minister. We have all seen food prices rising daily and the effect of that on people with low incomes. The price of beef, milk, lamb and cereal has increased for the customer but the price paid to the farmer has not. I understand that the farmer's share of the price that is charged in shops for beef has fallen from 48 to 46 per cent. As usual, the supermarkets make the profit and the farmers lose out. What exactly are you doing to ensure that the situation does not get worse, and can you bring some pressure to bear on supermarkets in that regard?

Elin Jones: It is not entirely true to say that none of the increase in the price of foods has been passed on to the farmer. That has happened with the dairy industry, for instance. Over the past year or 18 months, farmers have received a significant increase in the price of their milk, but, of course, that has gone hand in hand with an increase in their costs. I will return to my original answer to respond to you, and say that I have made the Assembly Government's opinion clear to the Competition Commission—although these matters are not devolved to us—and our opinion is that we are concerned about this, and we see the need to ensure transparency in the food chain. Therefore, we feel that there is a role for a regulator or ombudsman in this sector, so that everyone can be confident that

yn gallu bod yn hyderus ei fod yn gweithio mewn ffordd deg, o'r cyflenwr, sef y ffermwr, i'r archfarchnad, sef y gwerthwr.

it is working fairly, all the way through from the supplier, that is, the farmer, to the supermarket, the vendor.

1.20 p.m.

Y Llywydd: Diolch yn fawr i'r Gweinidog am ateb pob cwestiwn, bron, ar y rhestr heddiw.

The Presiding Officer: Thank you very much to the Minister for answering nearly all of the questions on her list today.

Datganiad gan y Llywydd Statement by the Presiding Officer

Y Llywydd: Cyn imi drosglwyddo'r awenau i'r Dirprwy Lywydd, hoffwn wneud datganiad byr mewn ymateb i'r ail bwynt o drefn a godwyd ddoe gan arweinydd yr wrthblaid. Wedi darllen y Cofnod, yn fy marn i, nid oedd unrhyw ymadrodd allan o drefn ddoe. Er fy mod yn parchu'r angen i Aelodau Cynulliad allu beirniadu ymddygiad a pholisïau Llywodraethau eraill, byddwn yn anghymeradwyo unrhyw feirniadaeth gyffredinol a geisiai ddiffrio pobloedd ar sail eu cenedligrwydd neu eu hethnigrwydd.

The Presiding Officer: Before handing over to the Deputy Presiding Officer, I wish to make a brief statement in response to the second point of order raised yesterday by the leader of the opposition. In my opinion, having read the Record, no statement made yesterday was out of order. Although I respect the need for Assembly Members to be able to disapprove of the behaviour and policies of other Governments, I would deprecate any general criticism which was disparaging of people's nationality or ethnicity.

*Daeth y Dirprwy Lywydd (Rosemary Butler) i'r Gadair am 1.21 p.m.
The Deputy Presiding Officer (Rosemary Butler) took the Chair at 1.21 p.m.*

Dadl y Ceidwadwyr Cymreig Welsh Conservatives Debate

Y Dreth Gyngor Council Tax

The Deputy Presiding Officer: I have selected amendment 1 in the name of William Graham, and amendment 2 in the name of Kirsty Williams.

Y Dirprwy Llywydd: Yr wyf wedi dethol gwelliant 1 yn enw William Graham, a gwelliant 2 yn enw Kirsty Williams.

Nick Ramsay: I propose that

Nick Ramsay: Cynigiaf fod

the National Assembly for Wales:

Cynulliad Cenedlaethol Cymru:

agrees that the scale of this year's council tax rises are the result of the Assembly Government's derisory financial settlement for local authorities. (NDM3915)

yn cytuno bod graddfa'r codiadau yn y dreth gyngor eleni yn ganlyniad i setliad ariannol dirmygus Llywodraeth y Cynulliad i awdurdodau lleol. (NDM3915)

I propose amendment 1: insert a new point at the end of the motion:

Cynigiaf welliant 1. Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:

acknowledges the social and economic

yn cydnabod manteision cymdeithasol ac

benefits of immediately implementing a £100 council tax rebate to all pensioner households in Wales.

I am pleased to propose the motion and to open this important and timely debate on council tax. It is timely, because tax levels are uppermost in people's minds at present, across the UK and particularly across Wales. People have been hit exceptionally hard by the council tax bills that have landed on their doormats in recent months, and their pay packets have also been hit by the Westminster Government's scrapping of the lowest 10p rate of income tax.

At this time of local authority elections, I am sure that many people will be receiving optimistic and glossy messages from their Plaid Cymru and Labour Party candidates—more optimistic in some areas than others, I am sure—which will mean nothing to a beleaguered electorate that has once again seen the average council tax bill increase above the rate of inflation. It will also mean nothing to pensioners, who know that the package of assistance offered to them by the Welsh Assembly Government does not even begin to address the difficulties that they face, including spiralling council tax bills, and at a time when local services are being cut.

Since 1997, council tax rates in Wales have more than doubled. Without taking the botched re-evaluation programme into account, every household in Wales has paid an extra £3,508 in council tax since Labour came to power. It is happening across the board, in north, south, east and west Wales. The residents of Conwy have been stung with an increase of 138 per cent since 1997, while those in Merthyr Tydfil have had to stomach a rise of 111 per cent. Only five councils in Wales have not seen council tax rates increase above 100 per cent since 1997, and even those living where they have increased by the lowest amount in the past 10 years have still had to pay 81 per cent more.

Therefore, it comes as no surprise to learn that, according to recent research, almost 99 per cent of the public cite council tax as the

economiaidd ad-dalu £100 o'r dreth gyngor ar unwaith i'r holl aelwydydd pensiynwyr yng Nghymru.

Mae'n bleser gennyf gynnig y cynnig ac agor y ddadl bwysig ac amserol hon ar y dreth gyngor. Mae'n amserol, oherwydd lefelau'r dreth sydd flaenaf ym meddyliau pobl ar hyn o bryd, ar draws y DU ac yn arbennig ar draws Cymru. Mae pobl wedi cael eu taro'n eithriadol o galed gan y biliau treth gyngor sydd wedi dod drwy'r blwch llythyrau dros y misoedd diwethaf, ac mae eu pecyn cyflog wedi ei daro hefyd wrth i Lywodraeth San Steffan ddileu'r gyfradd dreth incwm isaf o 10c.

Ar yr adeg hon o etholiadau awdurdodau lleol, yr wyf yn siŵr y bydd llawer o bobl yn cael negeseuon optimistaidd a sgleiniog gan eu hymgeiswyr Plaid Cymru a Llafur—mwy optimistaidd mewn rhai ardaloedd nag eraill, mae'n siŵr—na fyddant yn golygu dim i etholwyr mewn sefyllfa anodd sydd unwaith eto wedi gweld y bil treth gyngor cyfartalog yn codi uwchlaw'r gyfradd chwyddiant. Ni fydd ychwaith yn golygu dim i bensynwyr, sy'n gwybod nad yw'r pecyn cymorth a gynigiwyd iddynt gan Lywodraeth Cynulliad Cymru hyd yn oed yn dechrau mynd i'r afael â'r anawsterau sy'n eu hwynebu, gan gynnwys biliau treth gyngor sy'n cynyddu, ar adeg o dorri gwasanaethau lleol.

Er 1997, mae cyfraddau'r dreth gyngor yng Nghymru wedi mwy na dyblu. Heb ystyried y rhaglen ailbriso y gwnaethpwyd cymaint o stomp ohoni, mae pob aelwyd yng Nghymru wedi talu £3,508 yn ychwanegol o dreth gyngor ers i Lafur ddod i rym. Mae'n digwydd ym mhobman, yng ngogledd, de, dwyrain a gorllewin Cymru. Mae trigolion Conwy wedi cael cynnydd o 138 y cant er 1997, tra mae pobl Merthyr Tudful wedi gorfod stumogi cynnydd o 111 y cant. Pum cngor yn unig yng Nghymru sydd heb weld cyfraddau'r dreth gyngor yn codi dros 100 y cant er 1997, ac mae hyd yn oed y rheini sy'n byw lle maent wedi codi leiaf yn y 10 mlynedd diwethaf yn dal wedi gorfod talu 81 y cant yn fwy.

Felly, nid yw'n syndod o gwbl deall, yn ôl ymchwil yn ddiweddar, fod bron i 99 y cant o'r cyhoedd yn nodi'r dreth gyngor fel y

pre-eminent penalising stealth tax. That much has changed since I first stood for election in 2003, when the people whom I spoke to on the doorsteps did not even mention it as a problem. Something has clearly gone wrong, and it is not necessarily the structure or the type of tax; it is to do with the funding of councils and the level of tax that has resulted.

The previous decade of stealth taxation means that we should not be surprised that the Welsh Assembly Government successfully managed to turn the re-evaluation and rebanding exercise into yet another opportunity to part the electorate from its hard-earned cash. It seems that the Assembly Government's counterpart in London was paying close attention to its ability to turn taxation reform into a shameful money-grab, given the current débâcle regarding the scrapping of the 10p income tax rate.

A former Minister famously once claimed that the re-evaluation exercise would result in more winners than losers, which was another misleading comment given that it substantially increased the amount of council tax that people were expected to pay at a stroke.

David Lloyd: Correct me if I am wrong, but did the Conservatives not support the re-evaluation exercise?

Nick Ramsay: The re-evaluation exercise did not even happen across the border in England, because the Government there ran scared of it. That is a revealing comment, therefore, Dai, on your support for your colleagues on the Government benches. The fact is that we now have an uneven playing field, with people here being taxed more.

Mark Isherwood: To correct Dai, in the first Assembly, we accepted assurances that the increases in the rebanding or revaluation would be revenue neutral. When we realised that we were being—and I choose my words carefully—informed in a manner that may not have been absolutely accurate, our colleagues in both Houses of Parliament tabled amendments to prevent it from

dreth lechwraidd bennaf sy'n ein cosbi. Mae hynny wedi newid ers i mi sefyll etholiad gyntaf yn 2003, pan nad oedd y bobl yr oeddwn yn siarad â hwy wrth y drws hyd yn oed yn ei chrybwyll fel problem. Mae rhywbeth yn amlwg wedi mynd o chwith, ac nid y strwythur na'r math o dreth yw hwnnw o reidrwydd; mae a wnelo â chyllido cynghorau ac â lefel y dreth sydd wedi deillio o hynny.

Mae'r degawd blaenorol o drethi llechwraidd yn golygu na ddylem synnu bod Llywodraeth Cynulliad Cymru wedi llwyddo i droi'r ymarferiad ailbriso ac ailfandio yn gyfle arall eto i gymryd eu henillion haeddiannol oddi ar yr etholwyr. Mae'n ymddangos bod cymar Llywodraeth y Cynulliad yn Llundain yn rhoi sylw manwl i'w gallu i droi ymarferiad diwygio trethi yn gyfle gwarthus i fachu arian, ac ystyried yr helynt ar hyn o bryd ynglŷn â dileu'r gyfradd treth incwm 10c.

Honnodd cyn Weinidog yn gofiadwy unwaith y byddai mwy o bobl ar eu hennill nag ar eu colled o ganlyniad i'r ymarferiad ailbriso. Yr oedd hwnnw'n sylw camarweiniol arall o gofio iddo gynyddu swm y dreth gyngor yr oedd disgwyl i bobl ei dalu yn sylweddol ag un ergyd.

David Lloyd: Cywirwch fi os wyf yn anghywir, ond oni chefnogodd y Ceidwadwyr yr ymarferiad ailbriso?

Nick Ramsay: Ni wnaeth yr ymarferiad ailbriso hyd yn oed ddigwydd dros y ffin yn Lloegr, gan fod ar y Llywodraeth yno ofn ei roi ar waith. Mae'n hwnnw'n sylw dadlennol iawn, felly, Dai, am eich cefnogaeth i'ch cyd-Aelodau ar feinciau'r Llywodraeth. Y ffaith yw bod gennym gae chwarae anwastad erbyn hyn, a phobl yma'n gorfod talu mwy o drethi.

Mark Isherwood: I gywiro Dai, yn y Cynulliad cyntaf derbyniasom sicrwydd y byddai'r codiadau wrth ailfandio neu ailbriso yn niwtral o ran refeniw. Pan sylweddolwyd ein bod—ac yr wyf yn dewis fy ngeiriau'n ofalus—wedi cael gwybodaeth mewn ffordd nad oedd efallai yn gwbl gywir, cyflwynodd ein cyd-Aelodau yn Nhŷ'r Cyffredin a Thŷ'r Arglwyddi ddiwygiadau i'w atal rhag

happening. However, unfortunately, Labour, supported by the Liberal Democrats, voted it through nonetheless.

Nick Ramsay: The typical revalued home—*[Interruption.]*

The Deputy Presiding Officer: Order. You may not like what Nick Ramsay is saying, but at least let us listen to him.

Nick Ramsay: The typical revalued home in Wales has so far paid nearly £4,000 more in council tax since 1997. That means that the revaluation exercise, which happened here but not across the border, has already snatched back around £500 from those living in revalued properties, in addition to the £3,500 more that they paid as a consequence of the council tax increases since 1997. The revaluation exercise was stealth taxation at its craftiest, constituting yet another means by which the state maximises the amount of money that it claims as it earns from the public's paycheque. The fact that nearly 20,000 revaluation appeals were successful between April 2005 and December 2006 clearly shows that the Government was not just crafty, but incompetent with it.

You might hope that, given the unprecedented increase in council taxation that we have seen over the past decade, the Assembly Government would be doing all that it could to give local authorities some room to manoeuvre and to breathe. However, we all know the story there: the recent 2008-09 local government settlement was, in reality—whatever the Minister might say—a cut. It was a 0.4 per cent cut in real terms funding on the Government's own 2.7 per cent inflation figure, and it was well below the retail price index inflation rate of 4.9 per cent.

Hard-pressed and fed-up council officials in Powys had to make do with a paltry 1 per cent increase. Conwy had to do what it could with a 1.1 per cent increase, before the outcry led to the necessary changes to that. More than half of the unitary authorities saw an

digwydd. Fodd bynnag, yn anffodus, pleidleisiodd Llafur, gyda chefnogaeth y Democratiaid Rhyddfrydol, i'w gymeradwyo beth bynnag.

Nick Ramsay: Mae'r cartref nodweddiadol sydd cael ei ailbriso—*[Torri ar draws.]*

Y Dirprwy Lywydd: Trefn. Efallai nad ydych yn hoffi'r hyn y mae Nick Ramsay yn ei ddweud, ond gadewch i ni o leiaf wrando arno.

Nick Ramsay: Mae'r cartref nodweddiadol sydd wedi ei ailbriso yng Nghymru hyd yma wedi talu bron i £4,000 yn fwy mewn treth gyngor er 1997. Mae hynny'n golygu bod yr ymarferiad ailbriso, a ddigwyddodd yma ond nid dros y ffin, eisoes wedi cymryd tua £500 yn ôl oddi wrth bobl sy'n byw mewn eiddo a ailbrisiwyd, ar ben y £3,500 yn rhagor a dalasant o ganlyniad i'r codiadau treth gyngor er 1997. Yr oedd yr ymarferiad ailbriso yn drethu llechwraidd ar ei fwyaf cyfrwys, ac yn ffordd arall eto i'r wladwriaeth gynyddu faint o arian y mae'n ei hawlio wrth iddi ennill o daliadau'r cyhoedd. Mae'r ffaith fod bron i 20,000 o apeliadau ailbriso wedi llwyddo rhwng mis Ebrill 2005 a mis Rhagfyr 2006 yn dangos yn glir fod y Llywodraeth nid yn unig yn gyfrwys, ond yn anfedrus yn ogystal.

Efallai y byddech yn gobeithio, o ystyried y cynnydd na welwyd ei debyg mewn trethi cyngor dros y degawd diwethaf, y byddai Llywodraeth y Cynulliad yn gwneud popeth a allai i roi rhywfaint o le i awdurdodau lleol symud ac anadlu. Fodd bynnag, gwyddom i gyd y stori yno: yr oedd setliad llywodraeth leol 2008-09 yn ddiweddar mewn gwirionedd—beth bynnag a ddywed y Gweinidog—yn ostyngiad. Yr oedd yn ostyngiad o 0.4 y cant o ran cyllido gwirioneddol yn ôl ffigur chwyddiant y Llywodraeth ei hun o 2.7 y cant, ac yr oedd ymhell islaw cyfradd chwyddiant y mynegai prisiau manwerthu o 4.9 y cant.

Bu'n rhaid i swyddogion cyngor ym Mhowys sydd dan bwysau ac wedi alaru fodloni ar gynnydd pitw o 1 y cant. Bu'n rhaid i Gonwy wneud yr hyn a allai â chodiad o 1.1 y cant, cyn i'r protestiadau arwain at y newidiadau angenrheidiol yn hynny. Cafodd dros hanner

increase of 2.3 per cent or lower in the first instance, with six seeing increases of less than 2 per cent. It was not surprising that the Welsh Local Government Association was so outraged by this that it led the Government to reconsider, at least in part, the amount of funding that it was given. However, was it any wonder that councillor Derek Vaughan of the WLGA said that the local government settlement figure would make it impossible for councils to maintain front-line services without making cuts?

We all accept that this year's financial settlement to the Assembly was tight. We are not living in cloud-cuckoo-land, and we realise that a settlement had to be made. However, the fact that local government has had a disproportionately smaller share of the cake than it was due is a betrayal of our local authorities and of our council tax payers, because it was known back then what the result would be.

In our capital city of Cardiff, band D property taxpayers can expect a bill just shy of £1,000. In Rhondda Cynon Taf, an already high council tax bill—

Leighton Andrews: If you are so concerned for the council tax payers of Rhondda Cynon Taf, why are you not standing any candidates there?

Nick Ramsay: We are.

Leighton Andrews: No, you are not. How many?

Nick Ramsay: The debate is about council tax, and I hope that your candidates in Rhondda Cynon Taf will offer a far better deal to people there than they have received in recent years.

In Rhondda Cynon Taf, an already high council tax bill will increase by 4.9 per cent. In Blaenau Gwent—another bastion of Labour rule—council tax payers will be forced to shell out £1,264 this year. This all means that we are now looking at a band D tax level of well above and fast accelerating beyond the £1,000 level, with no fewer than 17 councils charging in excess of that sum.

yr awdurdodau unedol gynnydd o 2.3 y cant neu lai yn y lle cyntaf, a chafodd chwech godiadau o lai na 2 y cant. Nid oedd yn syndod fod Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru wedi ei chythruddo gan hyn i'r fath raddau nes iddi beri i'r Llywodraeth ailystyried, o leiaf yn rhannol, faint o gyllid a roddwyd iddi. Fodd bynnag, a yw'n syndod o gwbl fod y cynghorydd Derek Vaughan o CLILC wedi dweud y byddai ffigur y setliad i lywodraeth leol yn ei gwneud yn amhosibl i'r cynghorau gynnal eu gwasanaethau rheng flaen heb wneud toriadau?

Yr ydym i gyd yn derbyn bod y setliad ariannol eleni i'r Cynulliad yn dynn. Nid ydym yn byw â'n pennau yn y cymylau, a sylweddolwn ei bod yn rhaid gwneud setliad. Fodd bynnag, mae'r ffaith fod lywodraeth leol wedi cael cyfran lai o'r deisen yn ôl yr herwydd nag a ddylai ei chael bradychu ein hawdurdodau lleol a'n talwyr treth gyngor, oherwydd yr gwyddid bryd hynny beth fyddai'r canlyniad.

Yn ein prifddinas, Caerdydd, gall trethdalwyr eiddo band D ddisgwyl bil mymryn yn llai na £1,000. Yn Rhondda Cynon Taf, bydd bil treth gyngor sydd eisoes yn uchel—

Leighton Andrews: Os ydych mor bryderus am dalwyr treth gyngor Rhondda Cynon Taf, pam nad ydych yn cynnig unrhyw ymgeiswyr yno?

Nick Ramsay: Yr ydym.

Leighton Andrews: Na, nid ydych. Faint?

Nick Ramsay: Dadl yw hon am y dreth gyngor, a gobeithio y bydd eich ymgeiswyr yn Rhondda Cynon Taf yn cynnig llawer gwell bargaen i bobl yno nag y maent wedi'i chael dros y blynnyddoedd diwethaf.

Yn Rhondda Cynon Taf, bydd bil treth gyngor sydd eisoes yn uchel yn codi 4.9 y cant. Ym Mlaenau Gwent—un arall o gadarnleoedd teyrnasiad Llafur—bydd talwyr y dreth gyngor yn gorfod talu £1,264 eleni. Mae hyn i gyd yn golygu ein bod bellach yn edrych ar lefel treth band D sydd ymhell dros £1,000 ac yn prysur gynyddu y tu hwnt i hynny, a dim llai na 17 o gynghorau'n codi

mwy na'r swm hwnnw.

1.30 p.m.

This is a particular concern for us as opposition Members, and it should also be a concern for the Assembly Government. I have mentioned that it is also a concern for pensioners, which is why we have proposed amendment 1, and I urge Assembly Members here to support that amendment on behalf of their electorate and pensioners. The package that the Assembly Government—Labour and its Plaid colleagues—is proposing for pensioners falls way short of what is needed. It short-changes pensioners, who are among the most vulnerable people in our society. We are not even clear yet how this will be divvied up, but if it turns out that pensioners will receive £15, that is scandalously low and a derisory payback. I urge the Government, in responding to this debate, to ensure that pensioners and the most vulnerable people in our society are given the support that they deserve. Pensioners have received a pittance, local authorities have received a pittance, and the people of Wales are being and continue to be short-changed. I hope, in responding to this debate, that the Government will look seriously at the issues that we on this side of the Chamber will be raising. As I said, some years ago this was not the issue it is now, and we now need serious steps to deal with a problem that is penalising the poorest people in our society. I can see some of the Members opposite laughing, but there was a time when the Labour Party did not just claim to be the party of the people; it once sought to put measures in place that would alleviate hardship. We are not seeing any such proposals now and I urge the Government to reconsider how it is treating local government and the council tax payer.

Jenny Randerson: I propose amendment 2 in the name of Kirsty Williams. Add as a new point at the end of the motion:

believes that the council tax system is inherently unfair and calls for its replacement by a system based on the ability to pay.

Mae hyn yn destun pryder penodol i ni fel Aelodau'r gwrthbleidiau, a dylai hefyd fod yn bryder i Lywodraeth y Cynulliad. Yr wyf wedi sôn ei fod hefyd yn bryder i bensïynwyr, a dyna pam yr ydym wedi cynnig gwelliant 1, ac anogaf Aelodau Cynulliad yma i gefnogi'r gwelliant hwnnw ar ran eu hetholwyr a'u pensïynwyr. Mae'r pecyn y mae Llywodraeth y Cynulliad—Llafur a'i chyd-Aelodau Plaid—yn ei gynnig ar gyfer pensïynwyr yn brin iawn o'r hyn y mae ei angen. Mae'n twyllo pensïynwyr, sydd ymhlith y bobl fwyaf agored i niwed yn ein cymdeithas. Ni wyddom eto hyd yn oed sut y rhennir hwn, ond os digwydd i bensïynwyr gael £15, mae hynny'n warthus o isel ac yn ad-daliad gwrthun. Anogaf y Llywodraeth, wrth ymateb i'r ddadl hon, i sicrhau bod pensïynwyr a'r bobl fwyaf agored i niwed yn ein cymdeithas yn cael y gefnogaeth a haeddant. Mae pensïynwyr wedi cael cardod, mae awdurdodau lleol wedi cael cardod, ac mae pobl Cymru'n cael eu twyllo ac yn dal i gael eu twyllo. Gobeithio, wrth ymateb i'r ddadl hon, y bydd y Llywodraeth yn edrych o ddifrif ar y materion y byddwn ni, yr ochr hon i'r Siambr, yn eu codi. Fel y dywedais, rai blynyddoedd yn ôl nid oedd hon yn broblem fel y mae heddiw, ac mae arnom angen camau o ddifrif yn awr i ddelio â phroblem sy'n cosbi'r bobl dlotaf yn ein cymdeithas. Gwelaf rai o'r Aelodau gyferbyn yn chwerthin, ond yr oedd yna adeg pan oedd y Blaid Lafur yn gwneud mwy na dim ond honni bod yn blaid y bobl; ar un adeg, ceisiai sefydlu mesurau a fyddai'n lleddfu caledi. Ni welwn ddim cynigion o'r fath yn awr, ac anogaf y Llywodraeth i ail-ystyried y ffordd y mae'n trin llywodraeth leol a phobl sy'n talu'r dreth gyngor.

Jenny Randerson: Cynigïaf welliant 2 yn enw Kirsty Williams. Ychwanegu fel pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:

yn credu bod hanfod system y dreth gyngor yn annheg ac yn galw iddi gael ei disodli gan system sy'n seiliedig ar y gallu i dalu.

I thank the Conservatives for proposing this motion today, because it gives me the opportunity to remind people that they invented the council tax, which is a fundamentally unfair tax. I find it ridiculous that we can consider, in a civilised society, a tax that, at its extreme, charges a pensioner on a very modest pension the same amount of money as a family of five professionals all earning large salaries, simply because they live in similar houses in the same neighbourhood. The amount that people contribute should be based on their ability to pay, that is, their income, rather than on the arbitrary measure of the value of their house. The situation has become starkly worse in my constituency. I highlight the example of people living in the Cathays area in Cardiff since the rebanding: simply because they live in Cathays, an area that is subject to investment by landlords because there are lots of students living there, the value of their modest terraced house is well above that of such houses in other parts of Cardiff. Why should they be forced to leave the neighbourhood in which they have lived all of their lives because they cannot afford to pay their council tax? Before my Labour colleague Leighton Andrews mocks too loudly, I will tell him that I have received casework relating to this issue within the last fortnight from people who are desperate because they cannot afford to pay their council tax—and that is despite the fact that the increase in Cardiff this year was very modest.

The need for a change has been especially pressing in the last 10 years. Council tax bills have more than doubled since Labour came to power in 1997 and owners of the average band D house now pay more than £1,000 a year in council tax. Those on fixed incomes suffer increasingly as council tax goes up, and low earners see more and more of their income taken away. We can tinker at the edges and offer £100 off the council tax bill to pensioners, and we can encourage the take-up of benefit, but we cannot make council tax fair. I remind people that despite efforts to advertise council tax benefit, not only is there an exceptionally poor take-up of it, but many pensioners—and I have spoken to them on this issue—refuse to claim benefit as a matter of principle because that is not their way;

Diolch i'r Ceidwadwyr am gyflwyno'r cynnig hwn heddiw, gan ei fod yn gyfle imi atgoffa pobl mai hwynt-hwy a ddyfeisiodd y dreth gyngor, sy'n dreth sylfaenol annheg. Gwallgofrwydd yw ein bod, mewn cymdeithas wâr, yn gallu ystyried treth sydd, ar ei heithaf, yn codi'r un faint o arian ar bensynwyr sy'n cael pensiwn bach iawn ag ar deulu o bump o weithwyr proffesiynol, bob un yn ennill cyflog mawr, dim ond am eu bod yn byw mewn tai cyffelyb yn yr un gymdogaeth. Dylai'r swm y mae pobl yn ei dalu fod yn seiliedig ar eu gallu i dalu, hynny yw, eu hincwm, yn hytrach nag ar y mesur mympwyol o werth eu tŷ. Mae'r sefyllfa wedi mynd yn sylweddol waeth yn fy etholaeth i. Tynnaf sylw at enghraifft y bobl sy'n byw yn ardal Cathays yng Nghaerdydd ers yr ailfandio: oherwydd eu bod yn byw yn Cathays, ardal sy'n denu buddsoddiadau gan landlordiaid oherwydd bod llawer o fyfyrwyr yn byw yno, mae gwerth eu tŷ teras cyffredin lawer yn uwch na thai cyffelyb mewn rhannau eraill o Gaerdydd. Pam ddylent hwy gael eu gorfodi i adael y gymdogaeth lle buont yn byw gydol eu hoes oherwydd na allant fforddio'u treth gyngor? Cyn i'm cyd-Aelod Llafur Leighton Andrews watwar yn rhy uchel, dywedaf wrtho fy mod wedi cael gwaith achos ar y mater hwn yn y pythefnos diwethaf gan bobl sydd ar ben eu tennyn am na allant fforddio talu eu treth gyngor—ac mae hynny er gwaethaf y ffaith fod y cynnydd yng Nghaerdydd eleni yn un bychan iawn.

Mae'r angen am newid wedi dod yn arbennig o amlwg yn y 10 mlynedd diwethaf. Mae biliau'r dreth gyngor wedi mwy na dyblu ers i Lafur ddod i rym yn 1997 ac mae perchnogion tŷ cyffredin band D yn awr yn talu dros £1,000 y flwyddyn o dreth gyngor. Mae'r rheini sydd ar incwm sefydlog yn dioddef fwyfwy wrth i'r dreth gyngor gynyddu, ac mae pobl ar incwm isel yn gweld mwy a mwy o'u hincwm yn cael ei gymryd oddi arnynt. Gallwn goluro'r cyrion, a chynnig £100 oddi ar y dreth gyngor i bensynwyr, a gallwn annog pobl i fanteisio ar fudd-daliadau, ond ni allwn wneud y dreth gyngor yn un deg. Atgoffaf bobl, er gwaethaf ymdrechion i hysbysebu budd-daliadau treth gyngor, nid yn unig fod y nifer sy'n manteisio arnynt yn fychan iawn, ond mae

they have always been self-supporting throughout their lives and they will not take money from the state. As a party, we have said frequently that we feel that this tax is unjust.

That is why the Welsh-Liberal-Democrat-controlled councils have tried hard to keep council tax rises as low as possible, and we have succeeded. I am proud that we have delivered, across the four councils that we control, better public services as well as keeping council tax rises down. I will give you statistics with which no-one can argue. Liberal Democrat councils saw, on average, a 3.4 per cent increase in council tax over the last four years; independent-run councils, a 4.2 per cent increase; Labour-run councils, a 4.4 per cent increase; Conservative councils, a 4.6 per cent increase; and Plaid-Cymru-run councils, a 5.6 per cent increase. I will happily give way to Andrew R.T. Davies.

Andrew R.T. Davies: While we accept that there are no official league tables on performance, the *Western Mail* published a table indicating performance against key targets in which Cardiff was the bottom performer, receiving a mark of 23 out of 40. Do you recognise that level of performance from your Cardiff County Council colleagues?

Jenny Randerson: Cardiff started from a dramatically low base four years ago, on which we have improved considerably. There is room for further improvement. However, on education spending, for example, Cardiff was at the bottom of the league four years ago, but is now well into the top half. I am very proud of that record.

I also agree with the Conservatives that the derisory local government settlement this year has made a bad situation worse. We need to recognise that council tax can never be fair, and it is time to ditch it. When I was teaching economics, I was always told to tell

llawer o bensiynewyr—ac yr wyf wedi trafod hyn gyda hwy—yn gwrthod hawlio budd-dal gan nad dyna eu natur; y maent erioed wedi eu cynnal eu hunain gydol eu hoes ac nid ydym yn barod i dderbyn arian gan y wladwriaeth. Fel plaid, yr ydym wedi dweud yn aml ein bod yn teimlo bod hon yn dreth anghyfiawn.

Dyna pam mae'r cynghorau a reolir gan Ddemocratiaid Rhyddfrydol Cymru wedi ymdrechu'n galed i gadw codiadau treth gyngor mor isel â phosibl, ac yr ydym wedi llwyddo. Yr wyf yn ymfalchio ein bod wedi darparu, yn y pedwar cyngor a reolwn, well gwasanaethau cyhoeddus yn ogystal â chadw codiadau treth gyngor i lawr. Dyma i chi ystadegau na all neb eu gwadu. Ar gyfartaledd, yng nghynghorau'r Democratiaid Ryddfrydol gwelwyd cynnydd o 3.4 y cant yn y dreth gyngor dros y pedair blynedd diwethaf; mewn cynghorau annibynnol, cynnydd o 4.2 y cant; mewn cynghorau Llafur, cynnydd o 4.4 y cant; mewn cynghorau Ceidwadol, cynnydd o 4.6 y cant; ac yng nghynghorau Plaid Cymru, cynnydd o 5.6 y cant. Ildiaf yn llawen i Andrew R.T. Davies.

Andrew R.T. Davies: Er ein bod yn derbyn nad oes yna dablau cynghrair swyddogol ar berfformiad, cyhoeddodd y *Western Mail* dabl yn nodi perfformiad yn erbyn targedau allweddol lle'r oedd Caerdydd yn berfformiwr gwaethaf, yn cael 23 o farciau allan o 40. A ydych yn cydnabod y lefel perfformiad honno gan eich cyfeillion yng Nghyngor Dinas Caerdydd?

Jenny Randerson: Dechreuodd Caerdydd o sylfaen ddramatig o isel bedair blynedd yn ôl, ac yr ydym wedi gwella'n sylweddol ar hynny. Mae lle i wella eto. Fodd bynnag, gyda gwariant ar addysg, er enghraifft, yr oedd Caerdydd ar waelod y gynghrair bedair blynedd yn ôl, ond erbyn hyn mae'n gyfforddus yn yr hanner uchaf. Yr wyf yn falch iawn o'r record honno.

Cytunaf hefyd â'r Ceidwadwyr fod y setliad gwrthun i lywodraeth leol a wnaethpwyd eleni wedi gwneud sefyllfa wael yn waeth. Mae angen inni gydnabod na all y dreth gyngor fyth fod yn deg, ac mae'n bryd ei dileu. Pan oeddwn yn dysgu economeg,

people that a fair tax is one that is easy and convenient to pay. Council tax is not that. You have to pay large sums of money throughout the year.

The Deputy Presiding Officer: Will you wind up now, please?

Jenny Randerson: I will indeed. It is not easy and convenient to pay, it is not progressive—it does not take more from the rich than from the poor, and it is not easy to understand. People cannot understand—

The Deputy Presiding Officer: Order. Your time is up.

Andrew R.T. Davies: It is a pleasure to be able to contribute to this debate on local government tax. It is ironic that the Labour benches are so sparsely occupied today, given that, when we have been out canvassing, council tax is at the top of most people's priorities. However, I dare say that the Labour Members have little or nothing to offer; indeed, they have been sent away from so many doorsteps throughout this campaign, it is little wonder that they do not want to come to this debate today.

The basic failing of council tax relates to the factor of trust. Sadly, the electorate now feels totally betrayed by the administration in Cardiff since 1999 in its various facets—the Lib-Lab coalition of the first Assembly, or the Labour administration, and now the nationalist-Labour administration. We all accept that local services have to be funded. There is no doubt about that: if you do not put funding in, you will not get the services. However, there has been a series of betrayals and a series of increases in the cost burden passed back to local government, which the taxpayer has had to bear. The first part of that, which was eloquently emphasised by our lead speaker, Nick Ramsay, was the revaluation exercise. That exercise, had it been carried out properly and meaningfully, would have resulted in a fair and equitable settlement. However, sadly, through incompetence, it was not. That is shown by the appeals: of the 40,000 people who have appealed against rebanding, 50 per cent have been successful. They have had to go through

dywedid wrthyf bob amser am ddweud wrth bobl mai treth deg yw un hawdd a chyfleus ei thalu. Nid yw hynny'n wir am y dreth gyngor. Rhaid ichi dalu symiau sylweddol o arian gydol y flwyddyn.

Y Dirprwy Lywydd: A wnewch chi ddirwyn i ben yn awr, os gwelwch yn dda?

Jenny Randerson: Gwnaf yn wir. Nid yw'n rhwydd ac yn gyfleus ei thalu, nid yw'n flaengar—nid yw'n cymryd mwy oddi ar y cyfoethog nac oddi ar y tlawd, ac nid yw'n hawdd ei deall. Ni all pobl ddeall—

Y Dirprwy Lywydd: Trefn. Mae eich amser ar ben.

Andrew R.T. Davies: Mae'n bleser cael cyfrannu at y ddadl hon ar dreth llywodraeth leol. Mae'n eironig fod y meinciau Llafur mor wag heddiw, o gofio, a ninnau wedi bod allan yn canfasio, mai'r dreth gyngor sydd ar frig blaenoriaethau'r rhan fwyaf o bobl. Fodd bynnag, mentraf ddweud mai ychydig, os dim, sydd gan Aelodau Llafur i'w gynnig; yn wir, maent wedi eu gyrru i ffwrdd o gynifer o ddrysau tai drwy gydol yr ymgyrch hon, nid yw'n fawr o syndod nad ydynt am ddod i'r ddadl hon heddiw.

Mae methiant sylfaenol y dreth gyngor yn ymwneud â'r ffactor ymddiriedaeth. Yn anffodus, mae etholwyr yn awr yn teimlo'u bod wedi'u bradychu'n llwyr gan y weinyddiaeth yng Nghaerdydd er 1999 yn ei hamrywiol wedd—clymblaid Rhyddfrydwyr-Llafur y Cynulliad cyntaf, neu'r weinyddiaeth Lafur, ac yn awr y glymblaid o genedlaetholwyr-Llafur. Yr ydym oll yn derbyn ei bod yn rhaid cyllido gwasanaethau lleol. Nid oes dim amheuaeth ynghylch hynny: oni chyfrannwch yr arian, ni chewch y gwasanaethau. Fodd bynnag, cafwyd cyfres o fradychiadau a chyfres o godiadau yn y baich costau a drosglwyddwyd yn ôl i lywodraeth leol, a'r trethdalwr sydd wedi gorfod ei ysgwyddo. Y rhan gyntaf yn hynny, a bwysleisiwyd yn huawdl gan ein prif siaradwr, Nick Ramsay, oedd yr ymarfer ailbriso. Byddai'r ymarfer hwnnw, o'i gynnal yn briodol ac yn ystyrlon, wedi esgor ar setliad teg a chyfartal. Fodd bynnag, yn anffodus, oherwydd anghymhwyster, nid felly y bu. Prawf o hynny yw'r apeliadau: o'r

a traumatic experience, and have had a call on their precious resources before receiving the outcome of their appeal. It naturally causes people to distrust the system.

In addition to this, there is the Barnett consequential. Two or three years ago, the Westminster Government put money into council tax funding to try to restrain the increases in England. When the Barnett consequential arrived in this institution, the Executive took the decision—and it is for it to decide, because it is the Government of Wales—to put it into the health service. It decided that the £23 million that came here to help with local government tax bills was needed more in the health service, given the shambles over which the Government had presided in that field. Again, it picks away at the trust that local electors have in the authority and in its ability to be financed from this institution.

1.40 p.m.

Bethan Jenkins: Why does your party not support a local income tax? Your argument against it is that it would affect middle-income families, but the Scottish Government is currently taking evidence and undertaking research on this matter and it has shown that a local income tax would hit the top 10 per cent of earners rather than middle-income earners. I wonder why you do not support it when it will tax the rich.

Andrew R.T. Davies: I am glad that you mentioned local income tax, because I was just going to move on to that subject. I happen to believe that if there is anything that we have learned from history—you only have to go back to the 1970s—it is that if you start to tax income, you disincentivise people from working. By and large, people across all spectrums of society derive their income from work, and so the higher that you tax them, the less money you will raise. That has been proven by the Republic of Ireland's efforts in its taxation system. Local income tax is a darned good headline on the doorstep, but when you analyse it, it is a different

40,000 o bobl sydd wedi apelio yn erbyn ailfandio, mae 50 y cant wedi bod yn llwyddiannus. Maent wedi gorfod wynebu profiad trawmatig, ac wedi gorfod defnyddio'u hadnoddau gwerthfawr cyn cael canlyniad eu hapêl. Yn naturiol, mae'n gwneud i bobl amau'r system.

Yn ogystal â hyn, mae yna symiau canlyniadol Barnett. Ddwy neu dair blynedd yn ôl, rhoddodd Llywodraeth San Steffan arian at gyllido'r dreth gyngor er mwyn ceisio ffrwyno'r codiadau yn Lloegr. Pan gyraeddodd symiau canlyniadol Barnett y sefydliad hwn, penderfynodd y Weithrediaeth—a hi sydd i benderfynu, gan mai hi yw Llywodraeth Cymru—ei roi i'r gwasanaeth iechyd. Penderfynodd fod mwy o angen y £23 miliwn a ddaeth yma i helpu gyda biliau treth llywodraeth leol ar y gwasanaeth iechyd, yn wyneb y llanast yr oedd y Llywodraeth wedi ei oruchwylio yn y maes hwnnw. Unwaith yn rhagor, mae'n tanseilio ymddiriedaeth etholwyr lleol yn yr awdurdod ac yn ei allu i gael ei gyllido gan y sefydliad hwn.

Bethan Jenkins: Pam nad yw eich plaid yn cefnogi treth incwm leol? Eich dadl yn ei herbryn yw y byddai'n effeithio ar deuluoedd incwm canolig, ond mae Llywodraeth yr Alban yn derbyn tystiolaeth ar hyn o bryd, ac yn ymchwilio i'r mater hwn, ac mae wedi dangos y byddai treth incwm leol yn taro'r 10 y cant uchaf o enillwyr yn hytrach nag enillwyr incwm canolig. Tybed pam nad ydych chi'n ei chefnogi a hithau'n trethu'r cyfoethog?

Andrew R.T. Davies: Yr wyf yn falch ichi gyfeirio at dreth incwm leol, oherwydd yr oeddwn ar fin symud ymlaen at y pwnc hwnnw. Yr wyf yn digwydd credu, os oes un peth yr ydym wedi'i ddysgu gan hanes—nid oes ond raid ichi fynd yn ôl i'r 1970au—hwnnw yw, os dechreuwch drethu incwm, yr ydych yn cymell pobl i beidio â gweithio. Ar y cyfan, mae pobl ar draws pob sbectrum o gymdeithas yn cael eu hincwm drwy weithio, ac felly, po fwyaf y byddwch yn eu trethu, lleiaf oll o arian a godwch. Profwyd hynny drwy ymdrechion Gweriniaeth Iwerddon gyda'i system drethu. Mae treth incwm leol yn bennawd bachog wrth ddrysau tai, ond

matter. I think that we all remember the moment when, during the last general election campaign, somebody asked Charlie Kennedy how it would affect the electorate. He could not even remember the figures that they were being challenged to find.

Jenny Randerson: The fact that you raised that issue shows your failure to understand the principle of local income tax. The cost to you in local income tax will depend entirely upon which local authority you live in, just as the cost of council tax varies.

Andrew R.T. Davies: I agree that it would be a local income tax, but I, as an individual, and we, as a party, are against taxing income, because it is taxing the incentive to work, because you gain income through work. Equally, the administrative task of raising a local income tax would be massively complicated for local authorities and it would be disproportionate. What we, as Conservatives, want to see is a better level of finance for local government and a three-year cycle, so that they know where they are going and so that we do not see, time and again, the squabble that is going on.

When you look at the rebate that the nationalist and Labour Government has offered pensioners, it is derisory: £15. That will not provide any benefit to the hardest-hit sectors of society. Our proposal of a £100 benefit would start to address the real imbalance that affects pensioner households. That is why I am pleased to speak to this motion today and I hope that people will feel able to support us in our endeavours.

David Lloyd: Fel plaid, yr ydym o blaid treth incwm lleol ac y mae'r cynnig sydd ger ein bron heddiw yn gofyn i ni gytuno

'bod graddfa'r codiadau yn y dreth gyngor eleni yn ganlyniad i'

ac yn y blaen. Fodd bynnag, nid wyf yn cytuno â'r gosodiad hwnnw yn y bôn, oherwydd nid wyf yn credu ei fod yn wir. Buasem yn disgwyl i'r codiadau yn lefel y

ewch ati i'w dadansoddi ac mae'n fater gwahanol. Credaf ein bod i gyd yn cofio'r eiliad honno, yn ystod ymgyrch yr etholiad cyffredinol diwethaf, pan ofynnodd rhywun i Charlie Kennedy sut byddai'n effeithio ar yr etholwyr. Nid oedd hyd yn oed yn gallu cofio'r ffigurau yr oeddent yn cael eu herio i'w darganfod.

Jenny Randerson: Mae'r ffaith ichi godi'r mater hwnnw yn dangos eich methiant i ddeall egwyddor treth incwm leol. Bydd y gost i chi mewn treth incwm leol yn dibynnu'n llwyr ar yr awdurdod lleol lle'r ydych yn byw, yn union fel y mae cost treth gyngor yn amrywio.

Andrew R.T. Davies: Cytunaf y byddai'n dreth incwm leol, ond yr wyf fi, fel unigolyn, a ninnau, fel plaid, yn erbyn trethu incwm oherwydd ei fod yn trethu'r cymhelliant i weithio, gan eich bod yn cael incwm drwy weithio. Yn yr un modd, byddai'r dasg weinyddol o godi treth incwm leol yn aruthrol o ddyrys i awdurdodau lleol, ac yn anghyfartal. Yr hyn y mae arnom ni, fel Ceidwadwyr, eisiau ei weld yw gwell lefel o gyllid i lywodraeth leol a chylch tair blynedd, er mwyn iddynt wybod i ble maent yn mynd ac er mwyn peidio â gweld, dro ar ôl tro, y ceuru sy'n mynd ymlaen.

Pan edrychwch ar yr ad-daliad y mae Llywodraeth y cenedlaetholwyr a Llafur wedi ei chynnig i bensiynwyr, mae'n wrthun: £15. Ni fydd hynny o ddim budd i'r sectorau mewn cymdeithas sy'n dioddef fwyaf. Byddai ein cynnig o £100 yn dechrau mynd i'r afael â'r anghyfartaledd gwirioneddol sy'n effeithio ar aelwydydd pensiynwyr. Dyna pam yr wyf yn falch siarad ar y cynnig hwn heddiw, a gobeithio y bydd pobl yn teimlo'u bod yn gallu ein cefnogi yn ein hymdrechion.

David Lloyd: As a party, we are in favour of a local income tax and the motion before us today asks us to agree

'that the scale of this year's council tax rises are the result of'

and so on. However, I do not agree with the statement essentially, because I do not believe it is true. We would expect any increases in council tax levels this year to be

dreth gyngor eleni i fod yn enfawr i gyfiawnhau'r gosodiad yn y cynnig, ond mae hynny'n bell o fod yn wir. O edrych ar lefelau'r dreth gyngor ar gyfer tŷ ym mand D ar draws yr holl awdurdodau lleol, fe welwch, ar gyfartaledd, mai 3.91 y cant yw'r codiad ar draws Cymru eleni; dim ond yn 2005-06 yr oedd codiad is, a dim ond mewn tri awdurdod y mae codiad eleni yn fwy na chodiad y llynedd. Mae pob codiad eleni yn llai na 5 y cant, sy'n llawer gwell na'r sefyllfa rhwng 1998-99 a 2001 ac yn 2003-04. Ym 1998-99, yr oedd y codiadau i gyd yn uwch na 10 y cant, ag eithrio Rhondda Cynon Taf, gyda chodiad o 11.8 y cant ar gyfartaledd. Felly, mae'r codiadau yn lefel y dreth gyngor eleni yn sylweddol is.

Nick Ramsay: You must accept the basic principle that if the Assembly Government gives less money to local authorities, they have to raise the money somewhere. That is simple maths.

David Lloyd: Your motion refers to:

'the scale of this year's council tax rises',

and I am doing a forensic analysis of that piece of fiction, because the scale of this year's council tax rises is lower than in previous years and therefore the whole basis of your motion is in danger.

Mae'r Torïaid hefyd ar dir bregus yn dadlau am anghyfiawnderau'r dreth gyngor yn y lle cyntaf. Wedi'r cwbl, eu syniad nhw oedd y dreth gyngor—eu babi nhw ydyw. Ar ben hynny, maent yn cytuno â'r ailfandio. Yn wir, mae'r Torïaid yn frwd o blaid yr ailfandio sydd wedi achosi cynnydd sylweddol yn lefel y dreth gyngor.

Ar ben hyn oll, mae'r setliad ariannol i lywodraeth leol yn dynn—mae pawb yn cytuno ar hynny—am fod fformiwla Barnett yn rhoi setliad gwael i Gymru. Nid ydym yn cael ein hariannu yn ôl ein hanghenion ond yn ôl ein poblogaeth. Yn ogystal, nid yw'r Cynulliad yn gallu codi ei dreth ei hun er bod cynghorau sir yn gallu codi eu treth eu hunain—dyna beth yw'r dreth gyngor. Nid yw'r Cynulliad yn cael benthyg, ond, eto, mae'n cynghorau sir a'n cynghorau cymuned yn gallu gwneud hynny. Nid yw'r Torïaid yn

huge in order to justify the statement in the motion, but that is by no means true. If you look at council tax levels for a house in band D across all local authorities, you will see that the average increase across Wales this year is 3.91 per cent; only in 2005-06 was there a lower increase, and the increase this year is greater than last year in only three authorities. Every increase this year is less than 5 per cent, which is far better than was the case between 1998-99 and 2001 and in 2003-04. In 1998-99, the increases were all above 10 per cent, with the exception of Rhondda Cynon Taf, with an average increase of 11.8 per cent. Therefore, the increases in council tax levels this year are significantly lower.

Nick Ramsay: Rhaid ichi dderbyn yr egwyddor sylfaenol hon: os yw Llywodraeth y Cynulliad yn rhoi llai o arian i awdurdodau lleol, rhaid iddynt godi'r arian rywle. Mathemateg syml yw hynny.

David Lloyd: Cyfeiria eich cynnig at:

'graddfa'r codiadau yn y dreth gyngor eleni',

ac yr wyf yn gwneud dadansoddiad ffrensig o'r ffuglen honno, oherwydd mae graddfa codiadau'r dreth gyngor eleni yn is nag mewn blynyddoedd blaenorol ac felly mae holl sail eich cynnig yn fregus.

The Tories are also on unsafe ground when they argue about the injustice of the council tax in the first place. After all, the council tax was their idea—it was their baby. In addition to that, they agree with rebanding. In fact, the Tories are keenly in favour of the rebanding which has led to a substantial increase in council tax levels.

In addition to all this, the local government financial settlement is tight—everyone agrees on that—as a result of the poor settlement for Wales under the Barnett formula. We are funded according to our population rather than our need. The Assembly is also not able to raise its own taxes, even though county councils are able to do so—by way of council tax. The Assembly is unable to borrow, but, again, county and community councils are able to do so. The Tories are not enthusiastic about correcting the unfairness of the Barnett

frwd o blaid diwygio annhegwch fformiwla Barnett ychwaith. Felly, eto, gyda dwy brif elfen y cynnig—

Nick Bourne: I am grateful to Dai Lloyd for giving way on that timely point. It is obvious that he has not been following the news in the last 24 hours, because George Osborne was in Cardiff yesterday confirming that we are happy to look at the issue and the findings of the commission when the Government eventually gets around to setting it up. There does not seem to be much urgency about it.

David Lloyd: Your traditional position is better the devil you know, and you have not changed. That says nothing. It means that you will get involved in the process but still reject any change. Better the devil you know than a change to Barnett. Saying that you will look at it is absolutely meaningless, and it joins a retinue of meaningless phrases from London Tories.

Gyda dwy brif elfen y cynnig, sef y dreth gyngor—syniad y Torïaid ar ôl gwallgofrwydd treth y pen—a setliad ariannol Barnett, yr ydych yn berffaith hapus. Nid oes gwahaniaeth beth ddywedodd George Osborne y bore yma. Mae'r Torïaid yn uchel eu cloch yn beirniadu'r dreth gyngor, ond yr ydych am ei chadw ac yr ydych yn credu fod yr ailfandio yn syniad gwych. Yr ydych yn dal o blaid y prif bwyntiau yr ydych yn ceisio dadlau arnynt y prynhawn yma. Yr ydych o blaid y dreth gyngor, ailfandio a Barnett. Syniad y Torïaid oedd y dreth gyngor. Yr ydych yn dal i fod o blaid fformiwla Barnett, beth bynnag mae George Osborne yn ei ddweud. Yr ydych am gadw'r hyn sydd gennym, rhag ofn inni fod ar ein colled—nid ydych am ddiwygio Barnett.

Mark Isherwood *rose*—

David Lloyd: Felly, byddwn yn pleidleisio yn erbyn y cynnig ac o blaid y gwelliant o blaid treth incwm lleol.

Darren Millar: I do not want to focus on the instrument of council tax and whether it is justified as much as on the effect that it is having on individual constituents of mine

formula either. Therefore, again, with the two main points of the motion—

Nick Bourne: Yr wyf yn ddiolchgar i Dai Lloyd am ildio ar y pwynt amserol hwnnw. Mae'n amlwg nad yw wedi bod yn dilyn y newyddion yn ystod y 24 awr diwethaf, oherwydd yr oedd George Osborne yng Nghaerdydd ddoe yn cadarnhau ein bod yn hapus i edrych ar y mater ac ar ddarganfyddiadau'r comisiwn pan ddaw'r Llywodraeth i ben â'i sefydlu o'r diwedd. Nid oes fawr o frys arnynt i bob golwg.

David Lloyd: Eich safbwynt traddodiadol chi yw gwell y drwg sy'n hysbys, ac nid ydych wedi newid. Nid yw hynny'n dweud dim. Mae'n golygu y byddwch yn ymwneud â'r broses ond yn dal i ymwrthod ag unrhyw newid. Gwell y drwg sy'n hysbys na newid Barnett. Mae dweud y byddwch yn edrych arno yn gwbl ddiystyr, ac mae'n ychwanegu at res o ymadroddion diystyr gan Dorïaid Llundain.

You are perfectly happy with the motion's two main points, namely council tax—the Tories remedy to the craziness of poll tax—and the Barnett settlement. It makes no difference what George Osborne said this morning. The Tories are vocal in their criticism of council tax, but you want to keep it and you believe rebanding is a great idea. You are still in favour of the main points that you are trying to debate this afternoon. You are in favour of council tax, rebanding and Barnett. Council tax was a Tory idea. You are still in favour of the Barnett formula, whatever George Osborne says. You want to retain what currently exists, just in case we lose out—you do not want to review Barnett.

Mark Isherwood *a gododd*—

David Lloyd: Therefore, we will vote against the motion and in favour of the amendment calling for a local income tax.

Darren Millar: Nid wyf am ganolbwyntio ar offeryn y dreth gyngor a'r cwestiwn a oes modd ei gyfiawnhau, ond yn hytrach ar y ffordd y mae'n effeithio ar etholwyr unigol

who face hardship as a result of council tax increases. In the last few days, my office was contacted in two separate cases by pensioners, both of whom felt that their need warranted a visit to my office. They both had the same need, due to huge increases in council tax, not just this year, but in previous years, as a result of the much lower than average settlements that Conwy has received, leading to difficulties for people.

What we are talking about today, which is why I am grateful that the Welsh Conservatives have proposed this motion, is relevant to people right now. It is an indication of the need that many people are in as a direct result of this abysmal Labour-Plaid financial settlement to local authorities. I have to put on record again that north Wales had the lowest settlement of any region in this nation. While Labour at Westminster and, more specifically, here in Wales, with its Plaid Cymru sidekicks, might be content to keep pulling the rug from under the feet of those who need support most, we are the only party that is committed to supporting those people who are in need, especially pensioners, as best we can. It is they who keep getting knocked back by the never-ending rise in Labour taxation.

David Lloyd: I take it that you are going to scrap council tax, then.

Darren Millar: I said that I will not talk about the need to scrap council tax. I want to concentrate on the impact of the current financial settlement and the increases that people face this year.

Leanne Wood: Will you give way?

Darren Millar: No, I will not.

The constituents who came to see me this week have worked and contributed all their lives. One of them, who should have retired five years ago, is still having to go to work in an effort to afford to live a comfortable life—not an extravagant life; just a comfortable, normal life of the sort that we all should expect our pensioners to be able to lead after a lifetime of work and service to our country.

yn fy etholaeth i sy'n wynebu caledi oherwydd codiadau yn y dreth gyngor. Yn ystod yr ychydig ddiwrnodau diwethaf, cysylltodd pensiynwyr â'm swyddfa ynglŷn â dau achos ar wahân, y ddau'n teimlo bod angen iddynt ymweld â'm swyddfa oherwydd eu sefyllfa. Yr oedd angen y ddau yr un fath, oherwydd cynnydd anferth yn y dreth gyngor, nid eleni'n unig ond mewn blynyddoedd blaenorol, oherwydd y setliadau is o lawer na'r cyfartaledd y mae Conwy wedi'u cael, gan achosi anawsterau i bobl.

Mae'r hyn yr ydym yn sôn amdano heddiw, a dyna pam yr wyf yn ddiolchgar i Geidwadwyr Cymru am gyflwyno'r cynnig hwn, yn berthnasol i bobl yn awr. Mae'n dangos bod llawer o bobl mewn angen o ganlyniad uniongyrchol i'r setliad ariannol affwysol hwn gan Lafur-Plaid i awdurdodau lleol. Rhaid imi nodi eto fod y setliad yn y gogledd yn is na setliad unrhyw ranbarth yn y wlad. Er bod Llafur yn San Steffan, ac yn fwy penodol, yma yng Nghymru, gyda'i chyfeillion ym Mhlaid Cymru hwyrach yn fodlon dal i dynnu'r carped o dan draed y rheini sydd fwyaf eu hangen, ni yw'r unig blaidd sydd wedi ymrwymo i wneud ein gorau glas i gynorthwyo'r bobl hynny sydd mewn angen, yn enwedig pensiynwyr. Hwy sy'n cael eu taro i lawr o hyd wrth i Lafur godi trethi'n ddi-ben-draw.

David Lloyd: Cymeraf eich bod yn bwriadu dileu'r dreth gyngor, felly.

Darren Millar: Dywedais na fyddaf yn sôn am yr angen i ddileu'r dreth gyngor. Yr wyf am ganolbwyntio ar effaith y setliad ariannol presennol ac ar y cynnydd sy'n wynebu pobl eleni.

Leanne Wood: A wnewch chi ildio?

Darren Millar: Na wnaif.

Mae'r etholwyr a ddaeth i'm gweld yr wythnos hon wedi gweithio ac wedi cyfrannu ar hyd eu hoes. Mae un ohonynt, a ddylai fod wedi ymddeol bum mlynedd yn ôl, yn dal i orfod mynd i'r gwaith er mwyn fforddio bywyd cyfforddus—nid bywyd afrad; dim ond bywyd cyffredin, cyfforddus, y math o fywyd y dylem i gyd ddisgwyl i'n pensiynwyr allu ei fwynhau ar ôl oes o waith

It is not easy when food, energy and transport costs are all increasing at an alarming rate. The expectation of a comfortable life has, sadly, been denied.

1.50 p.m.

Janet Ryder: I am slightly confused. Obviously, the Tories do not think that taxation should be linked to income. Therefore, to what will you link it? Will you go back to linking it to property prices? On what will you set your local tax?

Darren Millar: To reiterate my point to Plaid Cymru colleagues, I am simply trying to reinforce the point of the impact of the increases this year on people in my constituency.

In essence, this Labour-Plaid coalition Government has become the big bully of Welsh politics, picking on the most vulnerable people in our communities. Council tax continues to rise at rates that are well above the rate of inflation while pension and benefit increases are kept down. All parties in the Assembly must work together to ensure that council tax returns to sustainable levels. We must put measures in place to help to restore confidence in the system and trust in Government, which is an important point that my colleague, Andrew R.T. Davies, made earlier.

It is not just pensioner households that face hardship this year; at least 0.25 million households in Wales are feeling the pinch in their pockets as a result of the axing of the 10p tax band, at a time when worldwide money markets are increasingly unstable. We are all facing the problem of the credit crunch and people's financial worries are getting worse, but this Government issues a revenue support grant that is the worst in the history of the National Assembly for Wales, instigating a cut in real terms in local government finance. Therefore, instead of finding ways to alleviate the problem of poverty in Wales, you are simply adding to it. It is an insult to the people of our nation,

a gwasanaeth i'n gwlad. Nid yw'n hawdd pan fydd costau bwyd, ynni a chludiant i gyd yn cynyddu'n ddychrynlyd o gyflym. Yn anffodus, maent yn cael eu hamddifadu o'r bywyd cyfforddus yr oeddent wedi disgwyl ei gael.

Janet Ryder: Yr wyf wedi drysu braidd. Mae'n amlwg nad yw'r Toriaid yn credu y dylid cysylltu trethiant ag incwm. Felly â beth y bwriadwch ei gysylltu? A fyddwch yn mynd yn ôl i'w gysylltu â phrisiau eiddo? Ar beth y byddwch yn seilio'ch treth leol?

Darren Millar: I ailadrodd fy mhwynt wrth fy nghyd-Aelodau ym Mhlaid Cymru, y cyfan yr wyf yn ceisio'i wneud yw pwysleisio'r pwynt ynglŷn â'r effaith y mae'r cynydd eleni'n ei chael ar bobl yn fy etholaeth.

Yn ei hanfod, y Llywodraeth glymblaid Lafur-Plaid hon yw'r bwli mawr yng ngwleidyddiaeth Cymru. Mae'n pigo ar y bobl sydd fwyaf agored i niwed yn ein cymunedau. Mae'r dreth gyngor yn dal i godi ar gyfraddau sy'n uwch o lawer na chyfradd chwyddiant, ond ffrwynir cynnydd mewn pensiynau a budd-daliadau. Rhaid i bob plaid yn y Cynulliad gydweithio er mwyn sicrhau bod y dreth gyngor yn dychwelyd i lefelau cynaliadwy. Rhaid inni sefydlu mesurau a fydd yn gymorth i adfer hyder yn y system ac ymddiriedaeth yn y Llywodraeth, pwynt pwysig a wnaeth fy nghyd-Aelod, Andrew R. T. Davies, yn gynharach.

Nid aelwydydd pensiynwyr yn unig sy'n wynebu caledi eleni; mae o leiaf 0.25 miliwn o aelwydydd yng Nghymru'n teimlo'r wasgfa yn eu pocedi oherwydd dileu'r band treth 10c, ar adeg pan yw'r marchnadoedd arian byd eang yn fwyfwy ansefydlog. Yr ydym i gyd yn wynebu problem y wasgfa greddydd, ac mae pryderon ariannol pobl yn gwaethygu. Ond mae'r Llywodraeth hon yn cyhoeddi'r grant cynnal refeniw gwaethaf yn hanes Cynulliad Cenedlaethol Cymru, gan dorri arian llywodraeth leol mewn termau real. Felly, yn hytrach na dod o hyd i ffyrdd i liniaru problem tlodi yng Nghymru, y cyfan a wnewch yw ychwanegu ati. Mae'n sarhad ar bobl ein cenedl, ac ni fyddant yn anghofio

which they will not forget. I am sure that both of your parties will be paying the price when the elections take place next week.

It is time that you listened to our suggestions about how to help people in this country and that you introduced ways to help those hardest hit, particularly pensioner households. *[Interruption.]* I will give you a suggestion: give every pensioner household in Wales £100 in council tax rebate. That is what we are committed to, but will you give your commitment on that day?

Let us not forget that we are talking about the impact on people. I therefore urge Members to support our motion.

The Leader of the Welsh Liberal Democrat Group (Michael German): I start with a slight conundrum. I strongly feel that councils have had to face great strictures this year; Brian Gibbons's threat of a 5 per cent cap made sure that no-one put their tax up by more than 5 per cent. That threat also existed in previous years. If you go to the extent of saying, 'If you put it up by more than 5 per cent, we will cap you', it means that you limit what councils can spend. The amount of money provided this year by the Welsh Assembly Government has been less than in previous years, and, as a percentage of the money provided from the Assembly Government's budget, it has been less than that provided to other public services. There is no doubt that local government this year has been dealt a bad hand and that a hand has been placed on its head to hold it down.

The problem that I find is that I am trying to work out the alternative being proposed by the Conservative Party. I am in genuine difficulty, because I am hearing it say that a greater amount of money should be provided by the National Assembly so that a smaller amount of money has to be collected through council tax; I will come to the problem with council tax in a moment. If I am wrong, please tell me.

Jonathan Morgan: I am grateful to you for allowing me to intervene at this point, because what you have said is absolutely

hyn. Yr wyf yn siŵr y bydd eich dwy blaid yn talu'r pris pan gynhelir yr etholiadau yr wythnos nesaf.

Mae'n bryd ichi wrando ar ein hawgrymiadau ni ynglŷn â sut i gynorthwyo pobl yn y wlad hon, a chyflwyno ffyrdd i gynorthwyo'r rheini sydd dani fwyaf, yn enwedig aelwydydd pensiynwyr. *[Torri ar draws.]* Dyma awgrym ichi: rhochwch ad-daliad treth gyngor o £100 i bob aelwyd yng Nghymru lle mae pensiynwr. Dyna'n hymrwymiad ni, ond a rowch chi eich ymrwymiad ar y diwrnod hwnnw?

Peidiwn ag anghofio mai sôn am yr effaith ar bobl yr ydym. Felly, anogaf yr Aelodau i gefnogi'n cynnig.

Dywedodd y Gweinidog fod rhai ardaloedd wedi gwneud yn well nag eraill, ac mae hynny'n wir. Ond fel yr amlinellodd Nick Ramsay ar ddechrau'r ddadl, cafwyd cynnydd o 81 y cant dros 10 mlynedd yn yr ardal orau yng Nghymru. Mewn cyfnod pan oedd chwyddiant yn gymharol isel—ac mae'r cyfnod hwnnw'n dod i ben yn awr, fel y gwelwn i gyd yn y papurau newydd—

Brian Gibbons *a gododd*—

Nick Bourne: Ildiaf ymhen munud, gan mai dyna'r unig bryd y gallaf ildio a chael amser am wneud hynny, yn ôl a ddeallaf. Yr oedd y cynnydd isaf a gafwyd yn 81 y cant, ac yr oedd yr uchaf yn 140 y cant.

Brian Gibbons: A wyf i ddeall bod y dull a fabwysiadwyd gan William Hague—sef cynyddu swm y dreth y dylid bod wedi'i

should have been generated from local council tax in Wales—was wrong, and that that is no longer the position of the Welsh Conservatives?

Nick Bourne: I have never heard you mention his name with praise before, so I am grateful for that. However, there will come a stage when William himself will say that it must end. We cannot keep saying that we will increase the level of council tax in Wales as you have done; you have a selective memory of what he was saying and what he was doing. Perhaps you have not, but I have stood on many doorsteps over recent months, and people have told me that the level of council tax is unfair. When they speak further about it, they do not generally blame their local council—although sometimes they do; they blame the Assembly Government for the poor settlements that their local council has received. And nor are they saying, ‘Let us have a local income tax instead’.

Moving on to Plaid Cymru, we had the most extraordinary contribution from Dai Lloyd. I assume that, in the absence of Helen Mary Jones—who last week launched off about local authorities in a debate on local health boards—he felt the need to don her mantle. He rattled on about Barnett reform, obviously not knowing what had been said just yesterday by George Osborne in this very building. We are looking forward to the findings of the commission, but we are also looking forward to it starting. If it is so urgent, I am surprised that the Plaid Cymru part of the Government—and I see that only two Plaid backbenchers are present—is not putting the pressure on to get this commission on its feet. We signed up to that in ‘The All-Wales Accord’, as you will recall. Dai Lloyd took on the wild extravagant flights of fancy that are usually the prerogative of Helen Mary Jones, but she was not present today to do so herself.

I have been on doorsteps fighting the election in every corner of Wales, including Rhondda

chreu drwy dreth gyngor leol yng Nghymru—yn anghywir, ac nad dyna yw safiad y Ceidwadwyr Cymreig mwyach?

Nick Bourne: Nid wyf erioed wedi’ch clywed yn canmol ei enw o’r blaen, felly, yr wyf yn ddiolchgar am hynny. Fodd bynnag, daw adeg pan fydd William ei hun yn dweud ei bod yn rhaid rhoi terfyn arno. Ni allwn barhau i ddweud y byddwn yn cynyddu lefel y dreth gyngor yng Nghymru fel yr ydych chi wedi’i wneud; mae gennych atgof dethol o’r hyn yr oedd yn ei ddweud a’i wneud. Efallai nad ydych chi wedi sefyll ar garreg y drws mewn llawer cartref dros y misoedd diwethaf, ond yr wyf fi wedi gwneud hynny, ac mae pobl wedi dweud wrthyf fod lefel y dreth gyngor yn annheg. Pan fyddant yn siarad mwy amdani, nid ydynt yn gyffredinol yn beio eu cyngor lleol—er eu bod yn gwneud hynny weithiau; maent yn beio Llywodraeth y Cynulliad am y setliadau gwael a gafodd eu cyngor lleol. Nid ydynt ychwaith yn dweud, ‘Beth am gael treth incwm leol yn ei lle?’

I symud ymlaen at Blaid Cymru, cawsom y cyfraniad rhyfeddaf gan Dai Lloyd. Yr wyf yn tybio, yn absenoldeb Helen Mary Jones—a ddechreuodd bregethu am awdurdodau lleol mewn dadl am fyrddau iechyd lleol yr wythnos diwethaf—ei fod yn teimlo bod angen iddo gamu i’r adwy. Bu’n paldaruo am ddiwygio Barnett, ac yntau’n amlwg heb fod yn ymwybodol o’r hyn a ddywedodd George Osborne ddoe ddiwethaf yn yr union adeilad hwn. Yr ydym yn edrych ymlaen at ddarganfyddiadau’r comisiwn, ond yr ydym hefyd yn edrych ymlaen i’w weld yn cychwyn ar ei waith. Os oes cymaint o frys gyda’r mater, yr wyf yn synnu nad yw elfen Plaid Cymru yn y Llywodraeth—a gwelaf mai dau aelod yn unig o feinciau cefn Plaid Cymru sydd yma—yn pwysu am roi’r comisiwn hwn ar waith. Yr oeddem i gyd yn cefnogi hynny yn ‘Cytundeb Cymru Gyfan’, fel y cofiwch. Aeth Dai Lloyd ar drywydd un o’r dychmygion gwyllt, direol yr ydym yn eu cysylltu fel rheol â Helen Mary Jones, ond nid oedd hi yma heddiw i wneud hynny ei hun.

Yr wyf wedi sefyll ar garreg y drws mewn cartrefi ym mhob rhan o Gymru yn ymladd yr

Cynon Taf. Leighton Andrews has probably gone off to consult his *Teach yourself RCT*, and when he looks at it he will find that that we are fighting the election there. I think that I saw the man who passes for his valet, researcher and general factotum upstairs sending the information down here, because I saw Leighton blanch suddenly as though he were thinking, 'Oh right, they are standing there'.

On the Liberal Democrat alternative, it is superficially seductive, but it is easy to put forward these proposals when you have not been tested in Government. Without being patronising, the last time you were in Government was nearly 100 years ago, so it is easy for you to say—

Jenny Randerson: Will you give way?

Nick Bourne: I will give way in a minute, but I am not sure whether I am allowed time to do so.

The Deputy Presiding Officer: It is your debate, so you can do as you wish.

Nick Bourne: But you will dock it off my time.

The Deputy Presiding Officer: Order. I will not dock it off. I add time for interventions, but you cannot have extra time for every intervention, or we will be here until midnight.

Nick Bourne: Very well.

Jenny Randerson: I want to remind you briefly that not only have we been in Government in Wales—and you were an Assembly Member at the time, Nick—but we have also been in Government in Scotland for the past eight years, so we know all about difficult decisions.

Nick Bourne: I am aware that you have been in Government in Scotland and Wales, but you will know very well that taxation

etholiad, gan gynnwys yn Rhondda Cynon Taf. Mae'n debyg bod Leighton Andrews wedi mynd i bori yn ei gopi o *Rhondda Cynon Taf i Ddysgwyr*, a phan fydd yn edrych arno fe wêl ein bod yn ymladd yr etholiad yno. Credaf imi weld y dyn sy'n gweithio fel gwas, ymchwilydd a Siôn pob swydd iddo i fyny'r grisiau yn anfon y wybodaeth i lawr yma, oherwydd gwelais Leighton yn gwelwi'n sydyn fel petai'n meddwl, 'O, maent yn sefyll yno wedi'r cwbl'.

O ran dewis amgen y Democratiaid Rhyddfrydol, mae'n ddeniadol ar yr olwg gyntaf, ond mae'n hawdd cyflwyno'r cynigion hyn pan nad ydych wedi cael eich profi mewn Llywodraeth. Nid oes arnaf eisiau bod yn nawddoglyd, ond nid ydych wedi bod mewn Llywodraeth am bron i 100 mlynedd, felly, peth hawdd yw ichi ddweud—

Jenny Randerson: A wnewch ildio?

Nick Bourne: Ildiaf ymhen munud, ond nid wyf yn siŵr a ganiateir amser imi wneud hynny.

Y Dirprwy Lywydd: Eich dadl chi yw hi, felly, cewch wneud fel y mynnwch.

Nick Bourne: Ond byddwch yn ei gymryd o'm hamser.

Y Dirprwy Lywydd: Trefn. Ni fyddaf yn ei dynnu o'ch amser. Byddaf yn ychwanegu amser ar gyfer ymyriadau, ond ni allwch gael amser ychwanegol ar gyfer pob ymyriad, neu byddwn yma tan ganol nos.

Nick Bourne: Digon teg.

Jenny Randerson: Hoffwn eich atgoffa'n fyr ein bod nid yn unig wedi bod mewn Llywodraeth yng Nghymru—ac yr oeddech chi'n Aelod o'r Cynulliad ar y pryd, Nick—ond inni hefyd fod mewn Llywodraeth yn yr Alban am yr wyth mlynedd diwethaf, felly, gwyddom yn iawn am benderfyniadau anodd.

Nick Bourne: Yr wyf yn ymwybodol ichi fod mewn Llywodraeth yn yr Alban a Chymru, ond gwyddoch yn iawn mai mewn

decisions are taken elsewhere. Bringing in another system of local government finance in that way cannot be done here; it must be done as Westminster, as you would acknowledge.

So, in conclusion, this is an important debate and the motion reflects what people are telling us on doorsteps across Wales, namely that the system has been operated by the Labour Government as taxation by stealth. If Rhodri Morgan has learned nothing else from Gordon Brown, he has learned from the master about taxation by stealth. Gordon Brown has done it at Westminster, and the Labour Party and the First Minister have done it here, by ensuring that local government has not been properly financed over 10 years. That is why there have been massive increases in council tax in Wales, and Labour will be punished for it at the polls next week.

The Deputy Presiding Officer: The proposal is to agree amendment 1. Does any Member object? I see that there is an objection. We will, therefore, defer the votes until voting time.

Gohiriwyd y pleidleisiau tan yr amser pleidleisio
Votes deferred until voting time.

Dadl y Ceidwadwyr Cymreig **Welsh Conservatives Debate**

Cyflwr Amgylcheddau Trefol **The Condition of Urban Environments**

The Deputy Presiding Officer: I have selected amendments 1, 2, 3, 4, 5, 6 and 7 in the name of Carwyn Jones.

Darren Millar: I propose that

the National Assembly for Wales

1. expresses concern about the condition of urban environments and the lack of green community spaces in our towns and cities in Wales;

2. deplors the lack of prioritisation given to tackling public nuisance offences like litter dropping and dog-fouling and calls on the

man arall y gwneir y penderfyniadau treth. Ni ellir mynd ati i gyflwyno yma system arall o ariannu llywodraeth leol fel hynny; rhaid ei wneud yn San Steffan, a byddech yn cydnabod hynny.

Felly, wrth gloi, mae hon yn ddadl bwysig ac mae'r cynnig yn adlewyrchu'r hyn y mae pobl yn ei ddweud wrthym ar garreg y drws ledled Cymru, sef bod y Llywodraeth Lafur wedi rhedeg y system fel treth lechwraidd. Os nad yw Rhodri Morgan wedi dysgu dim arall gan Gordon Brown, y mae wedi dysgu am drethu'n llechwraidd gan y meist'r ei hun. Mae Gordon Brown wedi'i wneud yn San Steffan, ac mae'r Blaid Lafur a Rhodri Morgan wedi'i wneud yma, drwy sicrhau nad yw llywodraeth leol wedi cael ei hariannu'n iawn ers dros 10 mlynedd. Dyna pam y bu cynnydd aruthrol yn y dreth gyngor yng Nghymru, a bydd Llafur yn cael ei chosbi am hynny yn y blychau pleidleisio yr wythnos nesaf.

Y Dirprwy Lywydd: Y cynnig sydd gerbron yw derbyn gwelliant 1. A oes unrhyw Aelod yn gwrthwynebu? Gwelaf fod gwrthwynebiad. Byddwn yn gohirio'r pleidleisiau tan yr amser pleidleisio, felly.

Y Dirprwy Llywydd: Yr wyf wedi dethol gwelliannau 1, 2, 3, 4, 5, 6, a 7 yn enw Carwyn Jones.

Darren Millar: Cynigïaf fod

Cynulliad Cenedlaethol Cymru

1. yn mynegi pryder am gyflwr amgylcheddau trefol a'r prinder meysydd glas cymunedol yn ein trefi a'n dinasoedd yng Nghymru;

2. yn gresynu wrth y diffyg blaenoriaeth a roddir i fynd i'r afael â throseddau niwsans cyhoeddus megis taflu sbwriel a chŵn yn

Assembly Government to use its powers to promote the use of existing tools to tackle these issues of public nuisance; and

3. calls on the Assembly Government to work more closely with Local Government to ensure that green corridors are created to allow wildlife free movement between habitats and that green community areas are protected from urban development. (NDM3916)

I am grateful for the opportunity to open this debate, and to move formally the motion in the name of my colleague, William Graham. I am also happy to advise that the Welsh Conservatives will support amendments 1 and 7 in the name of Carwyn Jones, but we do not support any of the other amendments in his name. We do not feel that they add to the motion, they smack of complacency, and they seek simply to absolve the Assembly Government of any responsibility in these areas.

The Welsh Conservatives are leading the agenda on the environmental issues that matter to the people of Wales. The condition of our urban environments, the lack of green community spaces in our towns and cities, and public-nuisance offences, such as litter and dog fouling, are all issues that this party is committed to addressing. As we knock on doors around the country, we find that our messages on this matter are striking a chord and resonating with the people of Wales. Over the past few weeks, many of us have been canvassing support for local government candidates the length and breadth of the nation. The message from voters across Wales reflects the lack of action from Labour and Plaid Members to tackle the day-to-day issues and nuisances that irritate us all, the so-called smaller issues, such as litter on the street, fly-tipping, dog fouling, vandalism, graffiti—and the list goes on.

Leanne Wood: Are you aware that responsibility for dog fouling, litter picking, and the enforcement of the legislation

baeddu, ac yn galw ar Lywodraeth y Cynulliad i ddefnyddio'i phwerau i hybu defnyddio'r arfau sydd eisoes ar gael i fynd I'r afael â'r materion niwsans cyhoeddus hyn; ac

3. yn galw ar Lywodraeth y Cynulliad i weithio'n agosach gyda Llywodraeth Leol i sicrhau y caiff coridorau glas eu creu i roi rhyddid i anifeiliaid gwyllt symud o un cynefin i'r llall a bod meysydd glas cymunedol yn cael eu gwarchod rhag datblygiad trefol. (NDM3916)

Yr wyf yn ddiolchgar am y cyfle i agor y ddaid hon, a chynnig yn ffurfiol y cynnig yn enw fy nghyd-Aelod, William Graham. Mae'n bleser gennyf ddweud hefyd y bydd y Ceidwadwyr Cymreig yn cefnogi gwelliannau 1 a 7 yn enw Carwyn Jones, ond nid ydym yn cefnogi un o'r gwelliannau eraill yn ei enw. Ni theimlwn eu bod yn ychwanegu at y cynnig, maent yn gwbl hunan-foddhaus, a'r unig beth y ceisiant ei wneud yw rhyddhau Llywodraeth y Cynulliad o unrhyw gyfrifoldeb yn y meysydd hyn.

Mae'r Ceidwadwyr Cymreig yn arwain yr agenda ar y materion amgylcheddol sy'n bwysig i bobl Cymru. Mae cyflwr ein hamgylcheddau trefol, y prinder meysydd glas cymunedol yn ein trefi a'n dinasoedd, a throseddau niwsans cyhoeddus, megis taflu sbwriel a chŵn yn baeddu, i gyd yn faterion y mae'r blaid hon wedi ymrwymo i fynd i'r afael â hwy. Wrth inni guro ar ddrysau ledled y wlad, gwelwn fod ein negeseuon ar y mater hwn yn taro tant gyda phobl Cymru ac yn ennyn ymateb. Dros yr ychydig wythnosau diwethaf, bu llawer ohonom yn canfasio am gefnogaeth i ymgeiswyr llywodraeth leol ar hyd a lled y wlad. Mae'r neges gan bleidleiswyr ledled Cymru yn adlewyrchu diffyg gweithredu Aelodau Llafur a Phlaid i fynd i'r afael â'r materion a'r achosion o niwsans dyddiol sy'n ein gwylltio i gyd, sef y materion yr honnir eu bod yn llai pwysig, megis sbwriel ar y stryd, tipio'n anghyfreithlon, cŵn yn baeddu, fandaliaeth, graffiti—mae'r rhestr yn ddiwedd.

Leanne Wood: A ydych yn ymwybodol mai awdurdodau lleol, nid y Cynulliad, sy'n gyfrifol am gŵn yn baeddu, codi sbwriel, a

surrounding that lies with local authorities and not the Assembly?

Darren Millar: There are tools at the Assembly Government's disposal to encourage local authorities to use every power available to them to deter people from allowing their dogs to foul, and allowing litter to be dropped.

However, these so-called smaller issues are not smaller issues at all. Caring for the environment is close to people's hearts, and the Government's responsibility to address this has never been greater. Unfortunately for the people of Wales—and most people have woken up to this fact—the current Labour/Plaid pact is pretty ineffective at addressing the issues at the heart of our communities. They are far more content to satisfy their own big-head issues, as dictated by their Big Brother friends at Westminster.

Let us take, for example, the proposed legislative competence Order on environmental protection and waste management, or the green switch LCO, as the Government attempted to dub it some time ago—and I prefer my friend, Mick Bates's, title: the green-twitch LCO. When that LCO was first introduced last year, the Minister triumphantly announced that it would take just six months to go through the Assembly's and Parliament's processes. Here we are, at the end of April 2008, and it has not even started on the process of parliamentary scrutiny, because of internal arguments in the Labour Party. This is despite the First Minister, and others, telling us that this had been agreed by the Labour Party in Westminster and Wales prior to the Assembly elections.

Leanne Wood: I share your criticisms of the LCO process, which is why I support a referendum and a 'yes' vote to create a parliament for Wales, so that we can abolish the LCO process and go straight to making our own laws. Do you back that process, too?

gweithredu'r deddfwriaeth yn y meysydd hynny?

Darren Millar: Mae gan Lywodraeth y Cynulliad arfau i'w defnyddio i annog awdurdodau lleol i ddefnyddio'r holl bwerau sydd ar gael iddynt i atal pobl rhag gadael i'w cŵn faeddu, a chaniatau taflu sbwriel.

Fodd bynnag, nid yw'r materion hyn yr honnir eu bod yn llai pwysig yn faterion llai pwysig o gwbl. Mae gofalu am yr amgylchedd yn agos at galon pobl, ac mae cyfrifoldeb y Llywodraeth i fynd i'r afael â hyn yn fwy nag erioed. Yn anffodus i bobl Cymru—ac mae'r rhan fwyaf o bobl wedi dechrau sylweddoli hyn—mae cytundeb presennol Llafur a Phlaid Cymru yn eithaf aneffeithiol o ran mynd i'r afael â materion hanfodol ein cymunedau. Maent yn fwy hapus o lawer i fodloni eu materion mawreddog eu hunain, yn ôl gorchmynion y Brawd Mawr, sef eu cyfeillion yn San Steffan.

Ystyriwn, er enghraifft, y Gorchymyn cymhwysedd deddfwriaethol arfaethedig ar ddiogelu'r amgylchedd a rheoli gwastraff, neu Orchymyn y newid gwyrdd fel y ceisiodd y Llywodraeth ei alw dro'n ôl—ac mae'n well gennyf fi'r enw a fathwyd gan fy nghyfaill Mick Bates, sef y Gorchymyn nerfuswydd gwyrdd. Pan gyflwynwyd y Gorchymyn hwnnw gyntaf y llynedd, cyhoeddodd y Gweinidog yn orfoleddus mai chwe mis a gymerai i fynd drwy brosesau'r Cynulliad a'r Senedd. A dyma ni, ar ddiwedd Ebrill 2008, a'r broses graffu seneddol heb ei chychwyn hyd yn oed, a hynny oherwydd dadleuon mewnol yn y Blaid Lafur. Mae hyn er bod y Prif Weinidog ac eraill wedi dweud wrthym fod hyn wedi'i gytuno gan y Blaid Lafur yn San Steffan a Chymru cyn etholiadau'r Cynulliad.

Leanne Wood: Yr wyf fi, fel chi, yn feirniadol o'r broses Gorchymyn cymhwysedd deddfwriaethol, a dyna pam yr wyf yn cefnogi refferendwm a phleidlais 'ie' i greu senedd i Gymru, fel y gallwn gael ddileu'r broses a mynd ati'n uniongyrchol i lunio ein deddfau ein hunain. A ydych chi hefyd yn cefnogi'r broses honno?

Darren Millar: I think that there should be a referendum as soon as possible, to give the power to the Welsh people to determine whether they want more powers for this institution.

We are aware of what the LCO aims to accomplish: improving local environmental quality, increasing recycling and improving waste management, and strengthening pollution controls. In light of those admirable aims, we have supported it. However, until it moves off someone's desk—namely that someone who is clearly not enamoured of the proposal—none of these goals will ever be achieved. The Assembly Government must now act to ensure that there is no further delay on this LCO that would impede the progress of the strategic objectives laid out in the environmental strategy two years ago. Perhaps, in her response to today's debate, the Minister could tell us how much longer we will have to wait before the Government sorts itself out and comes to some arrangement with its Westminster colleagues. Ultimately, we are talking about caring for the everyday environment in which we live, and that LCO can give the Assembly sufficient powers to deal appropriately with these matters.

The environment in which we all live means the kinds of places that we travel through to go to work, the parks where our children play and feed the ducks, the bus stops that we wait at, and the streets that we walk down when we nip out to the local post office for a stamp—while it is still open—all of which is important to people in our communities. These places mean a lot to people, and we are calling on the Welsh Assembly Government to do more for these places at the heart of our communities. However, more often than not, these places are blighted by the usual suspects.

Keep Wales Tidy undertook a dog-fouling survey a few years ago, in 2005, which indicated that the number of complaints about

Darren Millar: Credaf y dylid cynnal refferendwm cyn gynted â phosibl, er mwyn rhoi'r grym i bobl Cymru ddewis a oes arnynt eisiau mwy o bwerau i'r sefydliad hwn.

Yr ydym yn ymwybodol o'r hyn y mae'r Gorchymyn cymhwysedd deddfwriaethol yn ceisio'i gyflawni: gwella ansawdd yr amgylchedd lleol, cynyddu ailgylchu a gwella rheoli gwastraff, a chryfhau dulliau rheoli llygredd. Ar sail yr amcanion cymeradwy hynny, yr ydym wedi'i gefnogi. Fodd bynnag, nes iddo symud oddi ar ddesg rhywun—sef yr unigolyn hwnnw nad ydyw, yn amlwg, yn or-hoff o'r cynnig—ni fydd yr un o'r amcanion hyn fyth yn cael eu cyflawni. Rhaid i Lywodraeth y Cynulliad weithredu'n awr i sicrhau na fydd dim oedi pellach gyda'r Gorchymyn cymhwysedd deddfwriaethol hwn a fyddai'n atal cynnydd yr amcanion strategol a amlinellwyd yn y strategaeth amgylcheddol ddwy flynedd yn ôl. Yn ei hymateb i'r ddadl heddiw, efallai y gallai'r Gweinidog ddweud wrthym pa mor hir y bydd yn rhaid inni aros eto cyn i'r Llywodraeth ddod i drefn a llunio rhyw drefniant gyda'i chyd-Aelodau yn San Steffan. Yn y pen draw, sôn yr ydym am ofalu am yr amgylchedd cyffredin lle yr ydym yn byw, a gall y Gorchymyn cymhwysedd deddfwriaethol hwnnw roi digon o bwerau i'r Cynulliad i ymdrin yn briodol â'r materion hyn.

Mae'r amgylchedd lle yr ydym i gyd yn byw yn golygu'r math o leoedd y byddwn yn teithio drwyddynt i fynd i'r gwaith, y parciau lle bydd ein plant yn chwarae ac yn bwydo'r hwyaid, yr arosfannau lle byddwn yn aros am y bws, a'r strydoedd lle cerddwn wrth bicio allan i'r swyddfa bost leol i brynu stamp—cyhyd ag y bydd honno'n dal ar agor—ac mae hyn i gyd yn bwysig i bobl yn ein cymunedau. Mae'r lleoedd hyn yn golygu cryn dipyn i bobl, a galwn ar Lywodraeth Cynulliad Cymru i wneud mwy dros y lleoedd hyn sy'n hanfodol i'n cymunedau. Fodd bynnag, yn amlach na pheidio mae'r lleoedd hyn yn cael eu plagio gan yr un hen broblemau.

Cynhaliodd Cadwch Gymru'n Daclus arolwg o gŵn yn baeddu ychydig flynyddoedd yn ôl, yn 2005, a ddangosodd fod nifer y cwynion

dog fouling had increased steadily per authority in recent years.

2.30 p.m.

To combat the problem, most local authorities have adopted a fixed penalty scheme, and while the survey indicated that dog fouling was widespread and apparently treated most seriously, or at least taken seriously, by Welsh councils, local authorities were not making full use of their powers. In fact, figures obtained from the Members' research service indicate that the Labour-Plaid Government should be doing more to promote the use of existing tools to tackle such issues. For example, since 2004, some urban local authorities in Wales have issued as few as six fixed penalty notices for dog fouling, while others have issued as many as 531. Such inconsistency is clearly unacceptable, and, as part of caring for our local environment, the Assembly Government should be using its powers to force local authorities to do all that they can to ensure that our parks and pavements remain free of this nuisance, which not only smells and is unpleasant to tread in, but can pose a significant health risk. We need more doggy bins in our parks. Local authorities should be encouraged to create separate areas for dog owners to exercise their dogs, on recreational fields for example, away from children's playgrounds, and, more than anything, we need tough enforcement to deal with the small number of irresponsible dog owners who allow their animals to foul public spaces. The people of Wales do not want a toxic Government allowing the streets to be made toxic by dog mess.

Ann Jones: I have listened to your contribution and I am wondering when you were going to come on to what we could be doing as an Assembly Government. All you have said, as Leanne pointed out, is that everything is down to local government. What do you say to your colleagues in Denbighshire County Council who are propping up a failing administration—the Tories are propping up a failing

am gŵn yn baeddu wedi codi'n gyson fesul awdurdod yn y blynyddoedd diwethaf.

I atal y broblem, mae'r rhan fwyaf o awdurdodau lleol wedi mabwysiadu cynllun cosb benodedig, ac er i'r arolwg ddangos bod cŵn yn baeddu yn broblem eang, ac yn ôl pob tebyg yn cael ei thrin gyda'r difrifoldeb mwyaf, neu o leiaf yn cael ei chymryd o ddifrif, gan gynghorau Cymru, nid oedd awdurdodau lleol yn defnyddio'u pwerau'n llawn. Mewn gwirionedd, mae ffigurau a gafwyd gan wasanaeth ymchwil yr Aelodau yn dangos y dylai'r Llywodraeth Lafur-Plaid fod yn gwneud mwy i hybu defnyddio'r dulliau sydd ar gael eisoes i fynd i'r afael â materion o'r fath. Er enghraifft, er 2004, mae rhai awdurdodau lleol trefol yng Nghymru wedi gosod cyn lleied â chwe hysbysiad cosb benodedig oherwydd cŵn yn baeddu, ac mae eraill wedi rhoi cynifer â 531. Yn amlwg, mae anghysondeb o'r fath yn annerbyniol, ac fel rhan o ofalu am ein hamgylchedd lleol dylai Llywodraeth y Cynulliad fod yn defnyddio'i phwerau i orfodi awdurdodau lleol i wneud popeth a allant i sicrhau bod ein parciau a'n palmentydd yn rhydd o'r niwsans hwn, sydd nid yn unig yn achosi arogl drwg ac sy'n annymunol i gamu arno, ond sydd hefyd yn gallu bod yn risg ddifrifol i iechyd. Mae arnom angen rhagor o finiau cŵn yn ein parciau. Dylid annog awdurdodau lleol i greu mannau ar wahân i berchenogion cŵn allu ymarfer eu ŵn, ar gaeau hamdden er enghraifft, yn ddigon pell o feysydd chwarae plant; ac anad dim mae angen arnom gorfodaeth lem i ddelio â'r grŵp bach anghyfrifol o berchenogion cŵn sy'n gadael i'w hanifeiliaid faeddu lleoedd cyhoeddus. Nid yw pobl Cymru eisiau i Lywodraeth wenwynig adael i'r strydoedd gael eu gwenwyno gan law cŵn.

Ann Jones: Yr wyf wedi gwrandao ar eich cyfraniad ac yr wyf yn dyfalu tybed pryd y byddwch yn ymdrin â'r hyn y gallem ei wneud fel Llywodraeth y Cynulliad. Y cyfan yr ydych wedi'i ddweud, fel y dangosodd Leanne, yw mai cyfrifoldeb llywodraeth leol yw popeth. Beth a ddywedwch wrth eich Cyd-Aelodau yng Nghyngor Sir Ddinbych sy'n cynnal gweinyddiaeth sy'n methu—mae'r Toriaid yn cynnal gweinyddiaeth sy'n

administration in Denbighshire—when they say ‘no’ to every proposal?

Darren Millar: The fact is that local authorities have had their purse strings tied by the Assembly Government. A great deal can be done by the Assembly Government to ensure that there is delivery on these issues. I have just mentioned things such as litter bins, more doggy bins and more recreational spaces in our parks to exercise dogs away from children’s play areas. These are things on which the Assembly Government could issue guidance, but we are not seeing any action on them.

Ann Jones: Will you give way?

The Deputy Presiding Officer: Order. He is not taking another invention.

Darren Millar: Litter is another big bugbear of local communities and it is getting worse, with an increase in fly-tipping in Wales as a result of fortnightly waste collections. In my own constituency, Clwyd West, litter-related issues are quite high on the list of people’s priorities. Last week, I received three separate complaints, about litter along the A55, a trunk road for which the Assembly is responsible, the lack of public litter bins and the frequency with which they are emptied, and the amount of litter at local bus stops. Since the smoking ban came into force, smoking-related litter offences have soared, with an estimated 88 per cent of streets in Wales suffering from smoking-related litter. We should have thought about that before introducing the smoking ban, which, incidentally, I support.

I have yet to mention the problems that are caused as a result of the grime that can lead to crime. As we know, specific pieces of legislation are in place to deal with littering, but, as it is in relation to dog mess, local authorities’ use of the tools to hand is pretty patchy and sporadic. Since 2004, a number of local authorities have not issued a single fixed penalty for littering, while others have issued over 1,500. That difference cannot be

methu yn Sir Ddinbych—pan ddywedant ‘na’ i bob cynnig?

Darren Millar: Y ffaith yw bod awdurdodau lleol wedi gweld Llywodraeth y Cynulliad yn clymu llinynnau eu pwrs. Mae llawer iawn y gall Llywodraeth y Cynulliad ei wneud i sicrhau bod cyflawni’n digwydd ar y materion hyn. Yr wyf newydd grybwyll pethau megis biniau sbwriel, rhagor o finiau cŵn a rhagor o fannau hamdden yn ein parciau i allu ymarfer cŵn yn ddigon pell o fannau chwarae i blant. Mae’r rhain yn bethau y gallai Llywodraeth y Cynulliad gyhoeddi canllawiau arnynt, ond nid ydym yn gweld dim gweithredu yn eu cylch.

Ann Jones: A wnewch chi ildio?

Y Dirprwy Lywydd: Trefn. Nid yw’n derbyn ymyriad arall.

Darren Millar: Mae sbwriel yn destun cwyno arall mewn cymunedau lleol ac mae’n gwaethygu, gyda chynnydd mewn taflu sbwriel yng Nghymru oherwydd casglu gwastraff bob pythefnos. Yn fy etholaeth fy hun, Gorllewin Clwyd, mae materion sy’n gysylltiedig â sbwriel yn eithaf uchel ar restr blaenoriaethau pobl. Yr wythnos diwethaf, cefais dair cwyn ar wahân ynghylch sbwriel ar hyd yr A55, cefnffordd y mae’r Cynulliad yn gyfrifol amdani, prinder biniau sbwriel i’r cyhoedd ac amllder eu gwagio, a sbwriel mewn arosfannau bysiau lleol. Ers i’r gwaharddiad ar ysmegu ddod i rym, mae troseddau sbwriel sy’n gysylltiedig ag ysmegu wedi cynyddu’n ddirfawr, ac 88 y cant o strydoedd yng Nghymru, fe amcangyfrifir, yn dioddef oherwydd sbwriel yn gysylltiedig ag ysmegu. Dylem fod wedi meddwl am hynny cyn cyflwyno’r gwaharddiad ar ysmegu sydd, gyda llaw, yn waharddiad yr wyf yn ei gefnogi.

Nid yw’f eto wedi crybwyll y problemau a achosir oherwydd y baw a all arwain at droseddau. Fel y gwyddom, mae darnau penodol o ddeddfwriaeth ar waith i ddelio â sbwriel, ond fel yn achos baw cŵn mae’r defnydd a wna awdurdodau lleol o’r dulliau sydd ar gael yn anghyson ac ysbeidiol. Er 2004, mae nifer o awdurdodau lleol heb osod yr un gosb benodedig am daflu sbwriel, ac mae eraill wedi gosod dros 1,500. Ni ellir

justified. You cannot tell me that, in those areas where no fixed penalties have been issued for littering, there is no litter on the streets. There seems to be little evidence of a unified strategy from the Labour-Plaid Government to take a lead on this issue and deal with the problem. These public nuisance offences should be a matter of priority for Government, in the same way as they are a priority for those who must endure them. We all want cleaner streets and parks. The Minister says that she is the green conscience of the Cabinet, so let her demonstrate that and use the tools at her disposal to ensure that local authorities deliver. It is all very well seeking further legislative powers to tackle these matters, Minister, but what confidence can the people of Wales have in the Assembly Government if existing powers and instruments are not being used?

As the first point of our motion suggests, we remain concerned at not only the condition of our urban environments, but the lack of green community spaces in our towns and cities. In May 2008, the Countryside Council for Wales launched its green space toolkit, which made recommendations such as that there should be 2 ha of natural green space per 1,000 population, and that no person should live more than 300m walking distance from an area of natural green space. The toolkit can be, and is being, used by some local authorities to map and make accurate records of their green spaces. However, the general perception is that the use of the toolkit by local authorities is, again, very patchy. It is also important that the designated green areas that we have are truly protected from future developments and that green corridors are safeguarded for wildlife, recreational use, and sustainable travel.

The Labour-Plaid Government may breathe a sigh of relief as it may believe that we are pointing the finger of blame at local authorities. However, that is not the case, because the buck stops here. It is the Welsh Assembly Government's responsibility to engage closely with local government and to ensure delivery on these issues, not to starve

cyfiawnhau'r gwahaniaeth hwnnw. Ni allwch ddweud wrthyf nad oes dim sbwriel ar y strydoedd yn y mannau hynny lle na osodwyd cosbau penodedig o gwbl. Prin yw'r dystiolaeth fod gan y Llywodraeth Lafur-Plaid strategaeth unedig i roi arweiniad ar y mater hwn ac i ddelio â'r broblem. Dylai'r troseddau hyn sy'n niwsans i'r cyhoedd fod yn fater o faenoriaeth i'r Llywodraeth, fel y maent yn flaenoriaeth i'r rheini sy'n gorfod eu dioddef. Yr ydym i gyd am weld strydoedd a pharciau glanach. Dywed y Gweinidog mai hi yw cydwybod werdd y Cabinet, felly, gadewch iddi ddangos hynny a defnyddio'r dulliau sydd ar gael iddi i sicrhau bod awdurdodau lleol yn cyflawni. Purion, Weinidog, yw ceisio pwerau deddfwriaethol pellach i fynd i'r afael â'r materion hyn, ond sut y gall pobl Cymru gael hyder yn Llywodraeth y Cynulliad os nad yw'r pwerau a'r offerynnau sydd ar gael eisoes yn cael eu defnyddio?

Fel yr awgryma pwynt cyntaf ein cynnig, yr ydym yn dal i bryderu nid yn unig ynghylch cyflwr ein hamgylcheddau trefol, ond hefyd ynghylch y prinder lleoedd cymunedol gwyrdd yn ein trefi a'n dinasoedd. Ym mis Mai 2008, lansiodd Cyngor Cefn Gwlad Cymru ei gynllun mannau gwyrdd, a gyflwynodd argymhellion fel cael 2 hectar o fan gwyrdd naturiol am bob 1,000 o bobl, ac na ddylai neb fyw mwy na 300m ar droed o fan gwyrdd naturiol. Gellir defnyddio'r cynllun i fapio a gwneud cofnodion cywir o fannau gwyrdd, ac mae rhai awdurdodau lleol yn ei ddefnyddio i'r diben hwnnw. Fodd bynnag, y canfyddiad cyffredinol yw mai mewn modd anghyson iawn, eto, y mae awdurdodau lleol yn defnyddio'r cynllun. Mae'n bwysig hefyd i'r mannau gwyrdd dynodedig sydd gennym gael eu diogelu'n wirioneddol rhag datblygiadau yn y dyfodol, a bod coridorau gwyrdd yn cael eu diogelu ar gyfer bywyd gwylt, hamdden, a theithio cynaliadwy.

Gall y Llywodraeth Lafur-Plaid anadlu ochenaid o ryddhad oherwydd gall gredu ein bod yn bwrw bai ar awdurdodau lleol. Fodd bynnag, nid yw hynny'n wir, oherwydd yma mae'r cyfrifoldeb. Cyfrifoldeb Llywodraeth Cynulliad Cymru yw ymwneud yn agos â llywodraeth leol a sicrhau bod cyflawni yn digwydd ar y materion hyn, nid eu

them of cash so that the Minister's own pet projects can be pursued. Success here requires a new strategy of dialogue and partnership working. The people of Wales are concerned about the environment, and it is time that this Government caught up with them. We need a good, common-sense strategy that includes both urban and green spaces. Part of this strategy should include the review of two technical advice notes. TAN 16, which relates to sports and recreation, should be extended so that it covers green spaces and not just recreational areas. TAN 12 should also be considered for review, because improved urban design can be significant in reducing public nuisances. It is common-sense ideas such as these that the people of Wales want to see and hear. We need to deliver cleaner and greener communities, and we believe that we can do that if you support our motion today.

The Minister for Environment, Sustainability and Housing (Jane Davidson): I propose the following amendments in the name of Carwyn Jones. Amendment 1: in point 1 insert 'some' after 'condition of'.

Amendment 2: in point 1 replace 'our' with 'some'.

Amendment 3: in point 2 replace 'deplores the lack of prioritisation' with 'calls for greater priority to be'.

Amendment 4: in point 2 replace 'calls on the Assembly Government to use its' with 'welcomes the Assembly Government's intention to use its new'.

Amendment 5: in point 2 delete 'to promote the use of existing tools'.

Amendment 6: in point 3 after 'Government' insert 'to continue'.

Amendment 7: In point 3 delete 'more' and replace with 'increasingly'.

Mark Isherwood: The Welsh Conservatives recognise the importance of improving the environment and protecting green spaces in

hamddifadu o arian er mwyn dilyn hoff brosiectau'r Gweinidog. I lwyddo yma, mae angen strategaeth newydd o drafod a chydweithio. Mae pobl Cymru'n pryderu am yr amgylchedd, ac mae'n bryd i'r Llywodraeth hon ddal i fyny â hwy. Mae arnom angen strategaeth dda gyda synnwyr cyffredin sy'n cynnwys mannau trefol a mannau gwyrdd. Dylai rhan o'r strategaeth hon gynnwys adolygiad o ddau nodyn cyngor technegol. Dylai TAN 16, sy'n ymwneud â chwaraeon a hamdden, gael ei ehangu i fod yn berthnasol i fannau gwyrdd ac nid i fannau hamdden yn unig. Dylid ystyried TAN 12 hefyd ar gyfer adolygiad, oherwydd gall gwell cynllunio trefol gyfrannu'n sylweddol at leihau niwsans cyhoeddus. Syniadau synnwyr cyffredin fel y rhain y mae pobl Cymru am eu gweld a'u clywed. Mae angen inni sicrhau cymunedau glanach a gwyrddach, a chredwn y gallwn wneud hynny os cefnogwch ein cynnig heddiw.

Y Gweinidog dros yr Amgylchedd, Cynaliadwyedd a Thai (Jane Davidson): Cynigiau y gwelliannau canlynol yn enw Carwyn Jones. Gwelliant 1: ym mhwynt 1, rhoi 'rhai' ar ôl 'am gyflwr'.

Gwelliant 2: ym mhwynt 1, yn lle 'ein' rhoi 'rhai o'n'.

Gwelliant 3: ym mhwynt 2, yn lle 'yn gresynu wrth y diffyg blaenoriaeth a roddir' rhoi 'yn galw am roi mwy o flaenoriaeth'.

Gwelliant 4: ym mhwynt 2, yn lle 'yn galw ar Lywodraeth y Cynulliad i ddefnyddio' i phwerau' rhoi 'yn croesawu bwriad Llywodraeth y Cynulliad i ddefnyddio' i phwerau newydd'.

Gwelliant 5: ym mhwynt 2, dileu 'i hybu defnyddio'r arfau sydd eisoes ar gael'.

Gwelliant 6: ym mhwynt 3, ar ôl 'leol' rhoi 'i barhau'.

Gwelliant 7: ym mhwynt 3, ar ôl 'weithio'n' rhoi 'gynyddol'.

Mark Isherwood: Mae'r Ceidwadwyr Cymreig yn cydnabod pwysigrwydd gwella'r amgylchedd ac amddiffyn mannau gwyrdd

our towns and villages. We want to see a country where people have more opportunities and power over their lives; a country where families are stronger and society is more responsible; a Wales that is safer and greener. The Assembly Government's play policy is laudable, but it has few teeth and little is being implemented.

The same problems exist in rural and semi-rural areas as in urban areas. When planning our residential areas and commercial developments, we must consider the impact on our open green spaces where children can play. When we are determining community facilities, we should consider children as part of these plans. We need to create better and wider understanding of the importance of children's play within the whole community context, and accept that children need a variety of play opportunities. Some 2,500 playing fields have disappeared in 10 years of Labour misrule. According to the Children's Play Council, there is one acre of play space for children for every 80 acres of golf course. Playing fields have been lost at the rate of one per day across the UK over the last eight years. A national school grounds survey of 700 schools that have improved their grounds in the last four years found an improved attitude to learning, improved academic achievement, improved behaviour, and a reduction in the level of bullying.

I note with concern the political and electoral opportunism of Labour councillors in Wrexham concerning the old Grove Park School and playing field. The council is working on a resolution that would allow it to develop school playing fields at the old girls' grammar school building. However, this resolution was passed when Labour had the leadership and five seats in the cabinet. Labour councillors have supported this stance since it was passed in June 2004 and as recently as January 2008. It only started making noises a month ago as a result of letters in the press. However, its resolution still asked the council to free up adjoining school playing fields for development.

yn ein trefi a'n phentrefi. Mae arnom eisiau gweld gwlad lle mae gan bobl fwy o gyfleoedd a phŵer dros eu bywydau; gwlad lle mae teuluoedd yn gryfach a chymdeithas yn fwy cyfrifol; Cymru sy'n fwy diogel ac yn wyrddach. Mae polisi chwarae Llywodraeth y Cynulliad yn ganmoladwy, ond ychydig ddannedd sydd ganddo ac ychydig sy'n cael ei roi ar waith.

Mae'r un problemau'n bodoli mewn ardaloedd gwledig a lled wledig ag mewn ardaloedd trefol. Wrth gynllunio ein mannau preswyl a datblygiadau masnachol, rhaid inni ystyried yr effaith ar ein mannau gwyrdd agored lle gall plant chwarae. Pan benderfynwn pa gyfleusterau cymunedol i'w cyflwyno, dylem ystyried plant fel rhan o'r cynlluniau hyn. Mae angen inni greu dealltwriaeth well ac ehangach o bwysigrwydd chwarae plant yng nghydeustun y gymuned gyfan, a derbyn bod angen i blant gael amrywiaeth o gyfleoedd chwarae. Mae tua 2,500 o gaeau chwarae wedi diflannu mewn 10 mlynedd o gamreoli gan Lafur. Yn ôl y Cyngor Chwarae Plant, mae yna un erw o le chwarae i blant am bob 80 erw o gyrisiau golff. Mae caeau chwarae wedi eu colli ar raddfa o un y dydd ar draws y DU dros yr wyth mlynedd diwethaf. Dangosodd arolwg cenedlaethol o dir ysgolion, a oedd yn ystyried 700 o ysgolion sydd wedi gwella'u tir yn ystod y pedair blynedd diwethaf, fod ynddynt agwedd well at ddysgu, cyflawni academiaidd gwell, ymddygiad gwell, a llai o fwlio.

Sylwaf gyda phryder ar oportiwnistiaeth wleidyddol ac etholiadol cynghorwyr Llafur yn Wrecsam ynghylch hen Ysgol Grove Park a'r cae chwarae. Mae'r cyngor yn gweithio ar benderfyniad a fyddai'n caniatáu iddo ddatblygu caeau chwarae ysgol ger adeilad hen ysgol ramadeg y merched. Fodd bynnag, cafodd y penderfyniad hwn ei wneud pan oedd Llafur yn arwain gyda phum sedd yn y cabinet. Mae cynghorwyr Llafur wedi cefnogi'r safiad hwn ers iddo gael ei basio ym mis Mehefin 2008 ac mor ddiweddar â mis Ionawr 2008. Mis yn unig sydd ers y dechreuodd gadw stŵr o ganlyniad i lythyrau yn y wasg. Fodd bynnag, yr oedd ei benderfyniad yn dal i ofyn i'r cyngor ryddhau caeau chwarae cyfagos ar gyfer datblygu.

This motion does not solely apply to school playing fields. I have previously raised concern over the threat by Flintshire's Labour council to the Willow Park playing field in Hope. There is widespread concern over the potential sale of a significant part of a children's playing space, which is owned by the council, to the local health board for the construction of a health clinic. The local health board is acting according to an inflexible template, dictated by Assembly Government policy. The North Wales Play Association says that, while it has sympathy with the local health board in its efforts to identify a suitable location for the clinic, it feels strongly that children's play needs should not be compromised. The developer is prepared to offer improvements to the existing play area and soccer pitch, which may prove economically attractive to the council in satisfying short-term need. However, if that is followed through to its logical conclusion, in a few years' time, when those revitalised areas have once again been subject to neglect, the sale of more land could be encouraged on the basis of further offers of remedial work to the facilities.

2.40 p.m.

We need more green space, not less. Therefore, we need to review section 106 agreements, so that planning permission cannot be bought at the expense of play space. When the Assembly Government was written to about Willow Park, it replied that it was a local matter and not one in which it should become involved; Jane Davidson's department is therefore not speaking to local authority planning departments. A duty needs to be placed on local authorities to protect play space for current and future generations.

Public parks provide green space and recreation for people of all ages who may find it difficult to access open countryside. They are especially important in areas in which mobility and financial considerations prove challenging. Access to sports pitches and informal games areas is a major benefit as sport can contribute to the resolution of conflicts in a controlled manner. Children and young people have no choice but to rely on the decisions of adults; if we do not

Nid i gaeau chwarae yn unig y mae'r cynnig hwn yn berthnasol. Yr wyf wedi mynegi pryder o'r blaen am fygythiad gan gyngor Llafur sir y Fflint i gae chwarae Willow Park yn yr Hob. Mae pryder helaeth am bosibilrwydd gwerthu rhan sylweddol o le chwarae, sy'n eiddo i'r cyngor, i'r bwrdd iechyd lleol er mwyn adeiladu clinig iechyd. Mae'r bwrdd iechyd lleol yn dilyn patrwm anhyblyg sy'n cael ei bennu gan bolisi Llywodraeth y Cynulliad. Mae Cymdeithas Chwarae Gogledd Cymru yn dweud, er ei bod yn cydymdeimlo â'r bwrdd iechyd lleol a'i ymdrechion i ddod o hyd i leoliad addas ar gyfer y clinig, ei bod yn teimlo'n gryf na ddylid tanseilio anghenion chwarae plant. Mae'r datblygwr yn fodlon cynnig gwelliannau yn y man chwarae presennol ynghyd â chae pêl-droed, a gallai hynny fod yn atyniadol i'r cyngor o safbwynt economaidd er mwyn diwallu angen tymor byr. Fodd bynnag, os dilynir hynny i'w gasgliad rhesymegol, ymhen ychydig flynyddoedd, pan fydd y mannau hyn sydd wedi'u hadfywio wedi eu hesgeuluso unwaith eto, gallai hynny arwain at werthu mwy o dir, ar sail cynigion eraill i wneud gwaith i adfer y cyfleusterau.

Mae arnom angen mwy o fannau gwyrdd, nid llai. Felly, mae angen inni adolygu cytundebau adran 106, fel na ellir prynu caniatâd cynllunio ar draul man chwarae. Pan ysgrifennwyd at Lywodraeth y Cynulliad ynghylch Willow Park, atebodd mai mater lleol ydoedd, nid mater y dylai ymwneud ag ef; nid yw adran Jane Davidson, felly, yn siarad ag adrannau cynllunio awdurdodau lleol. Dylai fod yn ddyletswydd ar awdurdodau lleol i amddiffyn mannau chwarae ar gyfer cenedlaethau'r presennol a'r dyfodol.

Mae parciau cyhoeddus yn darparu mannau gwyrdd a mannau hamdden i bobl o bob oed sydd, efallai, yn cael anhawster i fynd i gefn gwlad agored. Maent yn arbennig o bwysig mewn mannau lle mae teithio ac ystyriaethau ariannol yn sialens. Mae cael defnyddio meysydd chwarae a mannau chwarae anffurfiol yn fantais fawr, gan fod chwaraeon yn gallu cyfrannu at ddatrys gwrthdaro mewn dull rheoledig. Dibynnu ar benderfyniadau oedolion yw'r unig ddewis sydd gan blant a

provide areas for the outlet of natural, instinctive play impulses, which enable children to develop and enjoy their childhood, children find their own outlets, and that behaviour is sometimes classed as anti-social. Funding formulas therefore need to include play deprivation. Play space currently is allocated from land that has been left over in the planning process; it must instead become integral from the beginning of the planning process.

Christine Chapman: I will confine my remarks to the issue of green community spaces, because I think that they are vital if we are to regenerate many of our communities in Wales. We should acknowledge that there are some very good examples the length and breadth of Wales. In my constituency, some really good local environmental projects are flourishing and having a great effect on the communities. For example, Cwmaman Communities First partnership is currently benefiting from funding of £37,000 for a project to tackle degradation of the environment and anti-social behaviour. The funding will, among other things, support the improvement of pathways, the clearance of litter and the refurbishment of public conveniences. The local authority has also set aside £50,000 to support a range of educational awareness events for schoolchildren and to encourage environmental audits of schools in Rhondda Cynon Taf.

I would, however, like to raise the issue of how we can make better use of some of our other public spaces. We sometimes underestimate the importance of public green spaces. If we get it right, quality public space can help to address social cohesion, can encourage far better community engagement, and can encourage people to lead healthier lives. If we are innovative, we can begin to create public confidence and transform public spaces into areas for everyone to enjoy. I believe that every park, common, square, street and playground should contribute positively to the local environment. That could have an impact on people's fear of crime and concerns about safety because if we create public confidence in the local

phobl ifanc; os na ddarparwn fannau lle gellir rhoi mynegiant i ysgogiadau chwarae naturiol ac sy'n caniatáu i blant ddatblygu a mwynhau eu plentyndod, bydd plant yn darganfod eu dull mynegiant eu hunain, a chaiff yr ymddygiad hwnnw ei gyfrif weithiau'n ymddygiad gwrthgymdeithasol. Felly, mae angen i fformiwlâu cyllido gynnwys amddifadedd chwarae. Caiff lleoedd chwarae eu dyrannu ar hyn o bryd o dir sydd dros ben yn y broses gynllunio; rhaid iddynt yn hytrach ddod yn rhan gyfannol o ddechrau'r broses gynllunio.

Christine Chapman: Cyfyngaf fy sylwadau i fater manau cymunedol gwyrdd, oherwydd credaf eu bod yn hanfodol os ydym am adfywio nifer o'n cymunedau yng Nghymru. Dylem gydnabod bod rhai enghreifftiau da iawn ar hyd a lled Cymru. Yn fy etholaeth i, mae rhai prosiectau amgylcheddol lleol gwirioneddol dda yn ffynnu ac yn cael effaith wych ar y cymunedau. Er enghraifft, mae partneriaeth Cymunedau yn Gyntaf Cwmaman yn elwa ar hyn o bryd o £37,000 sy'n cyllido prosiect i fynd i'r afael â diraddio'r amgylchedd ac ymddygiad gwrthgymdeithasol. Bydd y cyllido, ymhlith pethau eraill, yn gymorth i wella llwybrau, clirio sbwriel ac ailwampio cyfleusterau cyhoeddus. Mae'r awdurdod lleol hefyd wedi neilltuo £50,000 i gefnogi ystod o ddigwyddiadau ar ymwybyddiaeth addysgol i blant ysgol, ac i annog archwiliadau amgylcheddol o ysgolion yn Rhondda Cynon Taf.

Fodd bynnag, hoffwn godi mater sut y gallwn ddefnyddio rhai o'n manau cyhoeddus eraill yn well. Byddwn weithiau'n tanbriso pwysigrwydd manau cyhoeddus gwyrdd. Os llwyddwn, gall manau cyhoeddus o safon fod o gymorth i ddelio â chydlyniant cymdeithasol, gall annog ymwneud yn well â'r gymuned, a gall annog pobl i fyw bywydau mwy iach. Os byddwn yn arloesol, gallwn ddechrau creu hyder cyhoeddus a thrawsnewid manau cyhoeddus yn fannau i bawb eu mwynhau. Credaf y dylai pob parc, comin, sgwâr, stryd a man chwarae gyfrannu'n gadarnhaol at yr amgylchedd lleol. Gallai hynny effeithio ar ofnau pobl ynghylch troseddu a phryderon am ddiogelwch, oherwydd os crewn hyder

environment, we can get people out of their homes, allow children to play in our parks, and, above all, diminish people's fear of crime. Despite what we read in the newspapers or see on the news, many of our areas have a fairly low crime rate, but people's perception is they are surrounded by crime. That is sometimes to do with how we use public space.

I am pleased by the number of new developments that we have seen under Objective 1. A number of cycle trails have been developed with Objective 1 funding, for example. However, we must encourage people to use them, and we must encourage a mix of people to use them: they are not only for young people, but older people as well. We need to have a mix of people using these public spaces. I think that children and young people are at the heart of the case for the better use of public space, however, as I have said, it is also for older people to use public spaces because if they are there, they can help to monitor younger people and mix with them.

I urge vigilance because, when new estates and regeneration projects are planned, we must ensure that public space is at the heart of such developments, not an afterthought. Over many years, I have seen too much of that going on, with public space being added on at the end. That is the worst-case scenario. It must not be an afterthought; it must be at the heart of it. The right design can help to discourage crime and anti-social behaviour, but it requires thinking and discussion. Again, quite a lot has been written on this subject, and we need to think carefully about it.

I am pleased that the Countryside Council for Wales has launched its green space toolkit. That is a good example. I found it interesting to read that, in London, new standards have recently been introduced by Ken Livingstone requiring all new residential developments to include at least 10 sq m of high quality and accessible play and recreation spaces for

cyhoeddus yn yr amgylchedd lleol gallwn gael pobl allan o'u cartrefi, caniatáu i blant chwarae yn ein parciau, ac yn anad dim leihau ofnau pobl ynghylch troseddu. Er gwaethaf yr hyn a ddarllenwn yn y papurau newydd neu'r hyn a welwn yn y newyddion, mae gan nifer o'n hardaloedd raddfa droseddu weddol isel, ond canfyddiad pobl yw eu bod wedi'u hamgylchynu gan droseddu. Mae hynny'n gysylltiedig weithiau â'r modd y defnyddiwn fannau cyhoeddus.

Yr wyf yn falch gweld nifer y datblygiadau newydd a welsom dan Amcan 1. Mae nifer o lwybrau seiclo wedi'u datblygu ag arian Amcan 1, er enghraifft. Fodd bynnag, rhaid inni annog pobl i'w defnyddio, a rhaid inni annog cymysgedd o bobl i'w defnyddio: nid ar gyfer pobl ifanc yn unig y maent, ond pobl hŷn yn ogystal. Mae angen inni gael cymysgedd o bobl i ddefnyddio'r mannau cyhoeddus hyn. Credaf fod plant a phobl ifanc wrth galon yr achos dros ddefnyddio mannau cyhoeddus yn well. Er hynny, fel y dywedais, dylai pobl hŷn hefyd ddefnyddio mannau cyhoeddus oherwydd, os ydynt yno, gallant helpu monitro pobl ifanc a chymysgu gyda hwy.

Yr wyf yn annog bod yn wyladwrus, oherwydd pan gynllunnir ystadau newydd a phrosiectau adfywio, rhaid inni sicrhau bod mannau cyhoeddus wrth galon datblygiadau o'r fath, nid yn ôl-ystyriaeth. Dros nifer o flynyddoedd, gwelais ormod o hynny'n digwydd, a mannau cyhoeddus yn cael eu hychwanegu ar y diwedd. Dyna'r sefyllfa waethaf. Rhaid iddo beidio â bod yn ôl-ystyriaeth; rhaid iddo fod wrth galon y peth. Gall y cynllun cywir helpu annog pobl i beidio â throseddu ac i ymddwyn mewn modd gwrthgymdeithasol, ond mae angen ystyried a thrafod y mater. Unwaith eto, mae cryn dipyn wedi ei ysgrifennu ar y pwnc hwn, ac mae angen inni feddwl yn ofalus amdano.

Yr wyf yn falch fod Cyngor Cefn Gwlad Cymru wedi lansio'i becyn cymorth ar fannau gwyrdd. Mae hynny'n esiampl dda. Yr oedd yn ddiddorol darllen bod safonau newydd wedi eu cyflwyno yn Llundain yn ddiweddar, gan Ken Livingstone, a bod disgwyl i bob datblygiad preswyl newydd gynnwys o leiaf 10 metr sgwâr o fannau

every child who will live there. I know that the Minister is keen to look at best practice from around the UK and beyond, but what other plans does she have on the use of public space?

Public space is vital. We have done an awful lot, but we need to do an awful lot more to get this right if we are going to use our public space as a means of regeneration.

Paul Davies: I agree with Christine Chapman; green community spaces are a valuable resource in our urban environments. Sadly, there is a distinct lack of green spaces in our towns and cities, and where they do exist in our urban areas, they are often of a substandard condition.

It is concerning that many of these facilities are in a state of disrepair. At a time when obesity rates are soaring, we cannot expect people to take part in healthier outdoor activities if the condition of green spaces is below par.

I recently took part in the debate on Dai Lloyd's proposed Measure to introduce impact assessments for the selling off of playing fields—a Measure that I support. Playing fields make up a significant number of green spaces, and they are a vital asset, not only to our health and wellbeing, but also as a means of social inclusion. It is essential that the proposed Measure is progressed as soon as possible, to ensure that more of our green spaces are protected.

Urban areas, particularly in the more industrialised towns and cities, are falling short in providing quality green spaces. The combination of poor quality local environments, poorly maintained buildings and public spaces, and a lack of parks and green spaces is an issue that crosses governmental boundaries, as these aspects can detrimentally affect our health, our wellbeing and our general quality of life. It is simply not good enough to continue in this manner. Improving our urban community

chwarae a hamdden, o safon uchel ac o fewn cyrraedd rhwydd, ar gyfer pob plentyn a fydd yn byw yno. Gwn fod y Gweinidog yn awyddus i edrych ar arferion da mewn rhannau eraill o'r DU a thramor, ond pa gynlluniau eraill sydd ganddi ar gyfer defnyddio mannau cyhoeddus?

Mae mannau cyhoeddus yn hanfodol. Mae llawer o waith wedi'i wneud eisoes, ond mae angen inni wneud llawer iawn mwy er mwyn cael hyn yn iawn os ydym am ddefnyddio ein mannau agored i adfywio ardaloedd.

Paul Davies: Yr wyf yn anghytuno â Christine Chapman; mae mannau cymunedol gwyrdd yn adnodd gwerthfawr yn ein hamgylchedd trefol. Yn anffodus, nid oes hanner digon o fannau gwyrdd yn ein trefi a'n dinasoedd, ac yn aml iawn lle mae rhai i'w cael yn ein hardaloedd trefol mae eu cyflwr yn wael.

Mae'r ffaith fod nifer o'r cyfleusterau hyn mewn cyflwr truenus yn peri pryder. Ar adeg pan yw cyfraddau gordewdra'n codi, ni allwn ddisgwyl i bobl gymryd rhan mewn gweithgareddau awyr agored iachach os yw mannau gwyrdd mewn cyflwr gwael.

Cymerais ran yn ddiweddar yn y ddatl ar y Mesur a gynigiwyd gan Dai Lloyd i gyflwyno asesiadau o effaith gwerthu meysydd chwarae—Mesur yr wyf yn ei gefnogi. Mae nifer sylweddol o'r mannau gwyrdd yn feysydd chwarae, ac maent yn ased pwysig iawn, nid yn unig o ran ein hiechyd a'n lles, ond hefyd fel ffordd i sicrhau cynhwysiant cymdeithasol. Mae'n hanfodol i'r Mesur arfaethedig fynd yn ei flaen cyn gynted ag y bo modd, er mwyn sicrhau diogelu mwy o'n mannau gwyrdd.

Nid yw'r ardaloedd trefol, yn enwedig yn y trefi a'r dinasoedd mwy diwydiannol, yn darparu digon o fannau gwyrdd o safon. Mae'r cyfuniad o amgylchedd lleol o safon isel, adeiladau a mannau cyhoeddus nad ydynt yn cael eu cynnal a'u cadw'n dda, a phrinder parciau a mannau gwyrdd yn fater sy'n croesi ffiniau llywodraethol, gan fod yr agweddau hyn yn gallu cael effaith niweidiol ar ein hiechyd, ein lles ac ansawdd cyffredinol ein bywydau. Nid yw parhau'r sefyllfa hon yn ddigon da. Rhaid i wella'r

environments must be a matter of urgency. Such improvement will also make our communities greener. Improvements to sustainable transport networks, such as footpaths and cycle tracks, will not only benefit the environment, but public health as well.

In addition, improving the design of our urban areas will give us the opportunity to maintain our green spaces more effectively, not only to enhance their aesthetic qualities, but also to increase urban biodiversity.

Two thirds of the population reside in urban communities, meaning that urban spaces are becoming more important for social interaction and mental and physical health. Indeed, the quality of urban spaces has a profound effect on the community. Effective improvement of our urban areas will allow authorities, at the local and national levels, to introduce more effective action schemes to combat the vandalism, the graffiti and the low-level crime and anti-social behaviour that blight our local communities.

Much has been said about the link between how areas function and the connections between people and places and aesthetic appearance. Pleasant areas have a positive effect on the communities that reside there. A sense of ownership and pride can be generated, along with greater community cohesion and inclusion. Similarly, stronger community relations and co-operation between residents and authorities such as the police represent another positive outcome of pride in local facilities and one's surroundings.

I turn briefly now to the third part of the Welsh Conservatives' motion and the issue of green corridors. Green corridors have a dual purpose; not only do they provide habitat in areas of intensive land use, they also provide access routes for people. Some local authority areas are fortunate to already have a good network of green corridors. However, by and large, green corridors are few and far between. At a time when we are searching for environmentally sustainable modes of transport, such as walking and cycling,

amgylchedd yn ein cymunedau trefol fod yn fater o frys. Bydd gwelliant o'r fath hefyd yn gwneud ein cymunedau'n wyrddach. Bydd gwella rhwydweithiau cludiant cynaliadwy, megis llwybrau troed a llwyrbau beiciau, o fudd i'r amgylchedd a hefyd i iechyd y cyhoedd.

Yn ychwanegol at hyn, bydd gwella dyluniad ein hardaloedd trefol yn rhoi cyfle inni gynnal ein mannau gwyrdd yn fwy effeithiol, gan wella'u rhinweddau esthetig ac i gynyddu bioamrywiaeth drefol hefyd.

Mae dwy ran o dair o'r boblogaeth yn byw mewn cymunedau trefol, ac mae hynny'n golygu bod mannau trefol yn dod yn bwysicach ar gyfer rhyngweithio cymdeithasol ac ar gyfer iechyd meddyliol a chorfforol. Yn wir, mae ansawdd mannau trefol yn cael cryn effaith ar y gymuned. Drwy wella ein hardaloedd trefol, gall awdurdodau lleol a chenedlaethol gyflwyno cynlluniau gweithredu mwy effeithiol i fynd i'r afael â'r fandaliaeth, y graffiti a'r troseddau a'r ymddygiad gwrthgymdeithasol lefel isel sy'n difetha ein cymunedau lleol.

Mae llawer o sôn wedi bod am y cysylltiad rhwng y ffordd y mae ardaloedd yn gweithredu a'r cysylltiadau rhwng pobl a lleoedd ac ymddangosiad esthetig. Mae ardaloedd dymunol yn cael effaith gadarnhaol ar y bobl sy'n byw yno. Gellir ennyn ymdeimlad o berchenogaeth a balchder, ynghyd â mwy o gydlyniant a chynhwysiant cymunedol. Yn yr un modd, mae cysylltiadau cymunedol cryfach a chydweithio rhwng trigolion ac awdurdodau fel yr heddlu yn ganlyniad cadarnhaol arall i falchder mewn cyfleusterau lleol a'r hyn sydd o'n cwmpas.

Trof yn awr, yn fyr, at drydedd ran y cynnig gan Geidwadwyr Cymru a mater coridorau gwyrdd. Mae dau bwrpas i goridau gwyrdd; maent yn darparu cynefin mewn ardaloedd lle defnyddir tir yn ddwys, ac maent hefyd yn llwybrau mynediad i bobl. Mae rhai ardaloedd awdurdod lleol yn ddigon ffodus i gael rhwydwaith da o goridau gwyrdd eisoes. Fodd bynnag, ar y cyfan, mae coridorau gwyrdd yn brin. Ar adeg pan ydym yn chwilio am cludiant mwy cynaliadwy o safbwynt yr amgylchedd, fel cerdded a

greater investment in the creation and promotion of green corridors is vital.

2.50 p.m.

However, it is important to remember that increased human access to green corridors also increases disturbance and disruption to wildlife in the area. Therefore, it is crucial that the wildlife benefits are maximised, and, as such, the function and design of any green corridor must be carefully considered.

I will conclude by reiterating the significance of improving the condition of urban environments and green spaces. High quality urban areas and green spaces will have community-wide benefits, not only as a tool for greater social inclusion, but for improving health, wellbeing and people's general quality of life. I urge members to support the Welsh Conservative motion.

Jenny Randerson: Climate change and, along with it, the whole issue of environmental degradation dominate the agenda across much of the world. However, action to tackle it starts at home. We all have a responsibility in our daily lives in our local communities to stop environmental degradation, and not just for the sake of the environment, but for the sake of our social communities. A good quality environment, that is protected by the people who live in the neighbourhood, is often a sign of a strong community, and a degraded environment is very often a sign of a community that is under stress and strain, and, sometimes, falling apart at the seams.

Green spaces are a focal point for our communities in many situations. Those things that degrade our environment—the Conservative motion mentions dog fouling and litter, but there are many other aspects, such as abandoned cars and graffiti—are the things that eat away at people's quality of life and their perception of their quality of life.

I will mention briefly a few ideas that the Liberal Democrats put forward in our last

beicio, mae'n hanfodol inni fuddsoddi mwy o arian i greu a hybu coridorau gwyrdd.

Fodd bynnag, mae'n bwysig cofio bod mwy o ddefnydd o goridorau gwyrdd gan bobl hefyd yn golygu mwy o darfu ac aflonyddu ar fywyd gwyllt yn yr ardal. Felly, mae'n bwysig iawn innibod yn sicrhau cymaint o fanteision ag sy'n bosibl i fywyd gwyllt, ac, o ganlyniad, rhaid ystyried swyddogaeth a dyluniad unrhyw goridor gwyrdd yn ofalus.

Hoffwn gloi drwy ddweud eto mor bwysig yw gwella cyflwr yr amgylchedd a mannau gwyrdd mewn ardaloedd trefol. Bydd ardaloedd trefol a mannau gwyrdd o safon uchel yn cynnig manteision i'r gymuned gyfan, nid yn unig fel ffordd i sicrhau mwy o gynhwysiant cymdeithasol, ond hefyd er mwyn gwella iechyd a lles pobl ac ansawdd eu bywydau'n gyffredinol. Anogaf aelodau i gefnogi cynnig Ceidwadwyr Cymru.

Jenny Randerson: Mae newid yn yr hinsawdd, a'r dirywiad amgylcheddol yn ei gyfanrwydd, yn uchel iawn ar yr agenda yn y rhan fwyaf o wledydd y byd. Fodd bynnag, er mwyn mynd i'r afael â'r broblem mae angen dechrau wrth ein traed. Mae'n ddyletswydd ar bob un ohonom yn ein bywyd bob dydd yn ein cymunedau lleol i atal dirywiad amgylcheddol, er lles yr amgylchedd, ac er lles ein cymunedau cymdeithasol hefyd. Mae amgylchedd o safon uchel, sy'n cael ei ddiogelu gan y bobl sy'n byw yn yr ardal, yn aml yn arwydd o gymuned gref, ac mae amgylchedd sydd wedi dirywio, yn aml iawn, yn arwydd o gymuned sydd dan bwysau, sy'n teimlo'r straen, ac sydd weithiau'n ymddatod.

Mae mannau gwyrdd yn ganolbwynt i'n cymunedau mewn nifer o sefyllfaoedd. Y pethau hynny sy'n gwneud i'n hamgylchedd ddirywio—mae cynnig y Ceidwadwyr yn cyfeirio at faw cŵn a sbwriel, ond mae llawer o agweddau eraill, megis ceir sy'n cael eu gadael a graffiti—yw'r pethau sy'n tanseilio ansawdd bywyd pobl a'u barn am ansawdd eu bywydau.

Yr wyf am gyfeirio'n fyr at rai o'r syniadau a gyflwynwyd gan y Democratiaid

manifesto that we believe should be taken up. The first is an increasing use of biodiversity indicators to assess the performance of local authorities. The second is the establishment, in areas under threat, of environmental action zones where a focus is put on tackling fly-tipping, abandoned cars, graffiti, and so on. A Cardiff University academic gave a very interesting talk in the Assembly yesterday about a police and council project in Cardiff in which they are looking at the issues that people perceive to be a threat to them in their neighbourhood. They are looking at the problems that people put at the top of their lists, and they have brought this right down to a neighbourhood level. Things such as litter and graffiti featured very high on the list of things that affect people. We need to take account of that.

I have always felt that graffiti does not steal anything from you, involve any violence to you as a person or to anyone else, but, as a crime, it has a tremendous impact, because, once it is there, you see it every time you walk out of your house. It is not like a broken car window that can be mended and that, over time, you will forget about; graffiti is there to remind you every day of environmental problems. Our councils should be taking that very seriously indeed.

I talked about some ideas that the Liberal Democrats had at the time of the last election, but I also want to talk about how we put them into practice across Wales, via the Streetscene initiative in Wrexham, the establishment of a 24/7 noise nuisance team in Cardiff and, now, a fly poster removal and graffiti-busting squad in Cardiff to tackle the real outbreak of graffiti that we have had across our capital city over the last few years. In Conwy, our executive member has introduced the idea of a rapid response team in order to deal very rapidly with graffiti, fly-tipping and abandoned cars.

These are the day to day issues. Once it is established that you can go to a particular area to abandon your car, drop your litter and

Rhyddfrydol yn ein maniffesto diwethaf ac y credwn y dylid eu rhoi ar waith. Y cyntaf yw defnyddio mwy o ddangosyddion bioamrywiaeth er mwyn asesu perfformiad awdurdodau lleol. Yr ail yw sefydlu parthau gweithredu amgylcheddol, mewn ardaloedd sydd dan fygythiad, lle canolbwyntir ar fynd i'r afael â thipio anghyfreithlon, ceir sy'n cael eu gadael, graffiti, ac yn y blaen. Cafwyd sgwrs ddiddorol iawn yn y Cynulliad ddoe gan academydd o Brifysgol Caerdydd am brosiect gan yr heddlu a'r cyngor yng Nghaerdydd sy'n edrych ar y materion y mae pobl yn eu hystyried yn fygythiad iddynt yn eu cymdogaeth. Maent yn edrych ar y problemau y bydd pobl yn eu rhoi ar frig eu rhestrau, ac maent wedi dod â hyn i gyd i lawr i lefel cymdogaethau. Yr oedd pethau fel sbwriel a graffiti yn uchel iawn ar y rhestr o bethau sy'n effeithio ar bobl. Mae angen inni ystyried hynny.

Yr wyf bob amser wedi teimlo nad yw graffiti yn dwyn dim oddi arnoch, nac yn cyflawni unrhyw drais yn eich erbyn chi fel unigolyn na neb arall, ond fel trosedd mae'n cael effaith aruthrol, oherwydd pan fydd yno byddwch yn ei weld bob tro wrth gerdded o'ch tŷ. Nid yw'n broblem fel ffenestr car wedi torri, oherwydd gallwch drwsio'r ffenestr, a byddwch yn anghofio amdani ymhen amser; mae graffiti yno i'ch atgoffa bob dydd o broblemau amgylcheddol. Dylai ein cynghorau fod yn ystyried hynny'n ddifrifol iawn.

Soniais am rai o'r syniadau a oedd gan y Democratiaid Rhyddfrydol adeg yr etholiad diwethaf, ond hoffwn gyfeirio hefyd at y ffordd yr ydym yn eu rhoi ar waith ledled Cymru, drwy'r cynllun Strydlun yn Wrecsam, sefydlu tîm niwsans sŵn 24/7 yng Nghaerdydd, ac yn awr sgwad tynnu posteri a chwalu graffiti yng Nghaerdydd i fynd i'r afael â'r achosion niferus o graffiti yr ydym wedi eu gweld yn ein prifddinas yn y blynyddoedd diwethaf. Yng Nghonwy, mae ein haelod gweithredol wedi cyflwyno'r syniad o dîm ymateb cyflym er mwyn delio'n gyflym iawn â graffiti, tipio anghyfreithlon a cheir sy'n cael eu gadael.

Dyma'r materion sy'n codi o ddydd i ddydd. Cyn gynted ag y caiff pobl yr argraff y gallwch fynd i ardal arbennig i adael eich car,

add to the graffiti with no-one noticing, the situation deteriorates. Dealing with it quickly is the key issue. It is that kind of local action that we have to rely on our councils to put forward. This motion draws attention to the role not just of the National Assembly but of councils in the day to day quality of life of people in Wales.

Leanne Wood: Over the past few weeks I have knocked on doors for Plaid Cymru council candidates across South Wales Central. It is fair to say that people in all communities are concerned about the state of their local environment. On that point, at least, I agree with Darren Millar.

There are plenty of laws in place to prosecute people for fly-tipping, allowing dog fouling or dropping litter, but these laws are notoriously difficult to enforce, because it is not easy to catch people committing those offences. The Welsh Local Government Association has called for councils to have more powers in this area and I would be interested to know whether the Tories support those calls.

Darren Millar: Perhaps you can explain why Gwynedd Council is one of the worst local authorities in Wales in dealing with littering offences. It has not issued a single fixed penalty notice in the past four years for littering—one of the few councils in Wales not to do so.

Leanne Wood: You cannot measure success on the amount of penalty notices that you issue. Rather than increase targets for prosecutions, which is presumably what your motion is calling for, why do you not talk about preventative work, work with children in schools, such as the work that Keep Wales Tidy is carrying out, educating young people and changing attitudes? That is the kind of work that we need to see because it pays dividends.

Darren Millar: Given your comments, I am surprised that you have not tried to amend our motion. I am sure that we would have

gollwng eich sbwriel ac ychwanegu at y graffiti heb i neb sylwi, mae'r sefyllfa'n dirywio. Mae'n bwysig mynd i'r afael â'r broblem yn gyflym. Dyma'r math o weithredu lleol y mae'n rhaid inni ddibynnu ar ein cynghorau i'w gyflwyno. Mae'r cynnig hwn yn tynnu sylw at rôl y Cynulliad Cenedlaethol, a hefyd at rôl cynghorau, yn ansawdd bywyd pobl Cymru o ddydd i ddydd.

Leanne Wood: Yn ystod yr wythnosau diwethaf bûm yn curo ar ddrysau ar ran ymgeiswyr cyngor Plaid Cymru yn ardal Canol De Cymru. Mae'n deg dweud bod pobl ym mhob cymuned yn poeni am gyflwr eu hamgylchedd lleol. Cytunaf â Darren Millar ar y pwynt hwnnw o leiaf.

Mae digonedd o ddeddfau er mwyn erlyn pobl am dipio anghyfreithlon, gadael i gŵn faeddu tir neu ollwng sbwriel, ond mae'r deddfau hyn yn anodd iawn eu gorfodi, oherwydd nid yw'n hawdd dal pobl yn cyflawni'r troseddau hynny. Mae Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru wedi galw am fwy o bwerau i gynghorau yn y maes hwn, a byddai'n ddiddorol gwybod a yw'r Torïaid yn cefnogi hynny.

Darren Millar: Efallai y gallwch egluro pam y mae Cyngor Gwynedd yn un o'r awdurdodau gwaethaf yng Nghymru am ddelio â throseddau sbwriel. Nid yw wedi gosod yr un hysbysiad cosb benodol am ollwng sbwriel yn y pedair blynedd diwethaf—un o'r ychydig gynghorau yng Nghymru i beidio â gwneud hynny.

Leanne Wood: Ni allwch fesur llwyddiant ar sail nifer yr hysbysiadau cosb yr ydych yn eu cyflwyno. Yn hytrach na chynyddu targedau ar gyfer erlyniadau, sef yr hyn y mae eich cynnig chi'n galw amdano, mae'n debyg, pam nad ydych yn siarad am waith ataliol, gwaith gyda phlant mewn ysgolion, fel y gwaith y mae Cadwch Gymru'n Daclus yn ei wneud, yn addysgu pobl ifanc ac yn newid agweddau? Dyna'r math o waith y mae angen inni ei weld oherwydd mae'n talu ar ei ganfed.

Darren Millar: O ystyried eich sylwadau, yr wyf yn synnu nad ydych wedi ceisio gwella ein cynnig. Yr wyf yn siŵr y byddem wedi

happily accepted such an amendment.

bod yn fwy na bodlon derbyn gwelliant o'r fath.

Leanne Wood: There you are then. [Laughter.]

Leanne Wood: Dyna chi felly. [Chwerthin.]

If we can get everyone in our local communities to take an interest in keeping our areas clean and tidy, we have a chance in the longer term of getting people to think about the bigger environmental picture, which is vital if we are to address the threat of the climate crisis. Local environment matters mostly fall within the remit of local authorities, which is why Plaid Cymru has prioritised local environmental issues in this local council campaign. We want to see allotments for all, support for people to develop green roofs and community gardens, and we want to see environmental teams in our local authorities going out to deal with these environmental problems. We have been campaigning on these issues on the doorstep.

Os gallwn gael pawb yn ein cymunedau lleol i gymryd diddordeb mewn cadw'n hardaloedd yn lân ac yn daclus, mae siawns yn yr hirdymor y gallwn gael pobl i feddwl am y darlun amgylcheddol mwy, sy'n hanfodol os ydym am roi sylw i fygythiad argyfwng yr hinsawdd. Mae materion lleol sy'n ymwneud â'r amgylchedd, gan mwyaf, yn rhan o gylch gwaith awdurdodau lleol, a dyna pam y mae Plaid Cymru wedi rhoi blaenoriaeth i faterion amgylcheddol lleol yn yr ymgyrch hon mewn cynghorau lleol. Hoffem weld rhandiroedd i bawb, a chefnogaeth i bobl sydd am ddatblygu toeau gwyrdd a gerddi cymunedol. Yr ydym hefyd am weld timau amgylcheddol yn ein hawdurdodau lleol yn mynd allan i ddelio â'r problemau amgylcheddol hyn. Yr ydym wedi bod yn ymgyrchu ar y materion hyn wrth ddrysau tai.

However, I cannot contribute to a debate on the environment without mentioning the plight of allotment-holders and users of the riding school for the disabled at Haigside in Treherbert. It makes no sense, at a time when we are all increasing our understanding of the importance of green spaces to combat climate change and our knowledge about growing food and food preparation due to the threat of peak oil, to allow the loss of precious allotment land. Plaid would like to see local authorities doing all that they can to protect and expand our allotments and other green spaces. I am sure that the election results next Thursday will show that the voters agree with us.

Fodd bynnag, ni allaf gyfrannu at ddadl ar yr amgylchedd heb gyfeirio at sefyllfa deiliaid rhandiroedd a phobl sy'n defnyddio'r ysgol farchogaeth i bobl anabl yn Haigside yn Nhreherbert. Nid yw'n gwneud synnwyr, ar adeg pan ydym i gyd yn cynyddu'n dealltwriaeth o bwysigrwydd manau gwyrdd er mwyn mynd i'r afael â newid yn yr hinsawdd, ac yn cynyddu'n gwybodaeth am dyfu bwyd a pharatoi bwyd oherwydd y bygythiad y bydd y cyflenwad olew'n cyrraedd penllanw, ein bod yn fodlon colli rhandir gwerthfawr. Byddai Plaid yn hoffi gweld awdurdodau lleol yn gwneud popeth posibl i ddiogelu ac ehangu ein rhandiroedd a'n manau gwyrdd eraill. Yr wyf yn siŵr y bydd canlyniadau'r etholiad ddydd Iau nesaf yn dangos bod y pleidleiswyr yn cytuno â ni.

Peter Black: When I read this motion, my first thought was that it was obvious that the Conservatives had been knocking on people's doors in the local election campaign, and were stuck for something to table so decided to talk about local government issues and issues for which local government are responsible. It is clear that that is what happened here.

Peter Black: Pan ddarllenais y cynnig hwn, y peth cyntaf a ddaeth i'm meddwl oedd bod y Ceidwadwyr yn amlwg wedi bod yn curo ar ddrysau pobl wrth ymgyrchu ar gyfer yr etholiadau lleol, a chan eu bod yn methu â meddwl am rywbeth i'w gyflwyno eu bod wedi penderfynu siarad am faterion llywodraeth leol a materion y mae llywodraeth leol yn gyfrifol amdanynt. Mae'n

As Nick Bourne pointed out in the previous debate, the Conservatives are fighting in every corner of Wales, but, having heard some of their contributions today, I wonder why that is the case. Judging by what they say, they want the National Assembly for Wales to run local councils. They want the National Assembly for Wales and the Welsh Assembly Government to tell local councillors how they are to run their affairs, what targets to set, and what actions to take to deliver them, irrespective of local circumstances. Therefore, I wonder why the Conservatives have put so many candidates up for election, given that that seems to be their attitude towards local government.

3.00 p.m.

There are many examples of good urban environments around Wales, and many good examples of investment by local councils in transforming previously derelict areas—or areas with a bad reputation for litter, or for looking unsightly—into very nice areas indeed. Swansea is the area that I know best, and you can see one such example if you drive into Swansea from Fabian way, ignoring the traffic jams and the roadworks, and pass the *South Wales Evening Post* building, which is of course an urban blight in itself. Just in front of those offices, where there was previously a derelict building, the local council is creating a green space for local people to enjoy.

I was about to say something nice about the Welsh Assembly Government, but I see that Andrew Davies is enjoying this rather too much. However, I will mention that, further back on Fabian way, as you drive past SA1, there are some good examples of landscaping that are largely down to the work of the Welsh Assembly Government, and that should be acknowledged.

The Welsh Assembly Government and Swansea council have been working in partnership in that area to try to transform the urban environment and create green spaces that everyone can enjoy. There are other

amlwg mai hynny sydd wedi digwydd yma.

Fel y dywedodd Nick Bourne yn y ddadl flaenorol, mae'r Ceidwadwyr yn ymladd ym mhob cwr o Gymru, ond o glywed rhai o'u cyfraniadau heddiw tybed pam y maent yn gwneud hynny? A barnu yn ôl yr hyn a ddywedant, maent am weld Cynulliad Cenedlaethol Cymru yn rhedeg cynghorau lleol. Maent am weld Cynulliad Cenedlaethol Cymru a Llywodraeth Cynulliad Cymru yn dweud wrth gynghorwyr lleol sut y dylent wneud eu gwaith, pa dargedau i'w gosod, a pha gamau i'w cymryd i'w cyrraedd, beth bynnag yw'r amgylchiadau lleol. Felly, tybed pam y mae'r Ceidwadwyr wedi cyflwyno cynifer o ymgeiswyr ar gyfer etholiadau, o gofio mai dyna'u hagwedd, yn ôl pob tebyg, at lywodraeth leol?

Mae llawer o enghreifftiau o amgylcheddau trefol da o gwmpas Cymru, a llawer o enghreifftiau da o fuddsoddi gan gynghorau lleol i drawsnewid ardaloedd a oedd gynt yn ddiffaith—neu ardaloedd ag enw drwg oherwydd sbwriel, neu am eu bod yn ddiolwg—yn ardaloedd braf iawn. Abertawe yw'r ardal yr wyf yn ei hadnabod orau, a gallwch weld un enghraifft o'r fath os gyrrwch i mewn i Abertawe o ffordd Fabian, gan anwybyddu'r tagfeydd traffig a'r gwaith ffordd, a mynd heibio i adeilad y *South Wales Evening Post*, sy'n enghraifft o falltod trefol ei hun, wrth gwrs. Yn union o flaen y swyddfeydd hynny, lle'r oedd adeilad adfeiliedig gynt, mae'r cyngor lleol yn creu man gwyrdd i'w fwynhau gan bobl leol.

Yr oeddwn ar fin dweud rhywbeth caredig am Lywodraeth Cynulliad Cymru, ond gwelaf fod Andrew Davies yn mwynhau hyn ormod braidd. Er hynny, dywedaf fod rhai enghreifftiau da o dirweddu, ymhellach yn ôl ar ffordd Fabian, wrth ichi fynd heibio i SA1, sy'n ganlyniad yn bennaf i waith Llywodraeth Cynulliad Cymru, a dylid cydnabod hynny.

Mae Llywodraeth Cynulliad Cymru a chyngor Abertawe wedi bod yn gweithio mewn partneriaeth yn yr ardal honno i geisio trawsnewid yr amgylchedd trefol a chreu mannau gwyrdd y gall pawb eu mwynhau.

examples of good practice, both in the case of the council and the Assembly Government, though of course there are also bad examples. There are areas where we need to do a lot more, and we need resources to do that—I suppose that that is where the Assembly Government comes in, with regard to the amount of money that it makes available for local government.

For all the talk about fly-tipping, litter and dog fouling, local councils are doing a lot of work all around Wales to tackle these blights on our communities. However, at the end of the day, councils lack the necessary resources to deal with these issues properly. They cannot afford to employ the wardens that are needed to tackle dog fouling. In areas around Swansea, the number of dog litter bins has increased exponentially, but it is virtually impossible to catch someone allowing their dog to foul and not clearing up afterwards. You need a witness in order to prosecute the dog owner, and we cannot afford to employ the wardens who might act as witnesses because we do not have the resources. It will therefore remain an issue.

The same goes for litter. Darren has mentioned the number of fixed penalty notices that have been issued. I do not know the figures for individual councils in my region, but I know that you need people to enforce those fixed penalty notices, and that means that councils need to have more resources. This year, in particular, the local government settlement for councils in Wales has been pretty poor, and as a result, although councils do not necessarily have to cut back, they are certainly unable to expand services to deal with these issues as they would like.

Resources for councils are therefore central to this agenda, to deal with fly-tippers, for example. Swansea has a particularly good record on that, having set up neighbourhood environment action teams—or NEAT teams—to clean up the city, removing fly-tipping and litter from derelict land that may be in private ownership. That is another good example that other councils may want to look

Mae yna enghreifftiau eraill o ymarfer da, yn achos y cyngor ac yn achos Llywodraeth y Cynulliad, er bod enghreifftiau gwael hefyd, wrth gwrs. Mae yna ardaloedd lle y mae angen inni wneud llawer mwy, ac mae arnom angen adnoddau i wneud hynny—mae'n debyg gennyf fi mai dyna'r rhan y mae Llywodraeth y Cynulliad yn ei chwarae, o ran faint o arian y mae'n ei ddarparu i lywodraeth leol.

Er yr holl sôn am dipio anghyfreithlon, sbwriel a baeddu gan gŵn, mae cynghorau lleol yn gwneud llawer o waith ledled Cymru i ddelio â malltod o'r fath yn ein cymunedau. Fodd bynnag, ar ôl ystyried pob dim, nid oes gan gynghorau yr adnoddau angenrheidiol i ddelio â'r materion hyn yn briodol. Ni allant fforddio cyflogi'r wardeiniaid y mae eu hangen i ddelio â baeddu gan gŵn. Mewn ardaloedd o gwmpas Abertawe, mae nifer y biniau sbwriel cŵn wedi codi'n aruthrol, ond mae bron yn amhosibl dal rhywun yn gadael i'w gi faeddu ac yn peidio â glanhau wedyn. Mae angen tyst er mwyn erlyn perchennog y ci, ac ni allwn fforddio cyflogi'r wardeiniaid a allai fod yn dystion am nad oes gennym ddigon o adnoddau. Oherwydd hynny, bydd y broblem yn parhau.

Mae'r un peth yn wir am sbwriel. Cyfeiriodd Darren at nifer yr hysbysiadau cosb benodedig sydd wedi'u gosod. Nid wyf yn gwybod beth yw'r ffigurau ar gyfer y gwahanol gynghorau yn fy rhanbarth i, ond gwn fod angen pobl i orfodi'r hysbysiadau cosb benodedig hynny, ac mae hynny'n golygu bod angen i gynghorau gael mwy o adnoddau. Eleni, yn benodol, mae'r setliad llywodraeth leol i gynghorau yng Nghymru wedi bod yn eithaf gwael, ac oherwydd hynny, er nad oes rhaid i gynghorau dorri'n ôl o reidrwydd, mae'n sicr nad ydynt yn gallu ehangu gwasanaethau i ddelio â'r materion hyn fel y dymunent.

Oherwydd hynny, mae adnoddau ar gyfer cynghorau yn rhan hanfodol o'r agenda hon, er mwyn delio â phobl sy'n tipio'n anghyfreithlon, er enghraifft. Mae gan Abertawe hanes arbennig o dda yn y cyswllt hwnnw ac mae wedi sefydlu timau gweithredu dros amgylchedd cymdogaeth—neu dimau NEAT fel y'u gelwir—i lanhau'r ddinas, gan symud sbwriel a phethau sydd

at and copy if they feel that it is appropriate for their area.

There are good initiatives out there, but resources are the issue. Councils need money from the local government settlement and they will need additional resources if any new laws come in that councils have to enforce. The Assembly Government must ensure that councils have the money to enforce those new laws when they are faced with having to put them into effect.

The Minister for the Environment, Sustainability and Housing (Jane Davidson): It is clear from the contributions to this debate that everyone believes that the quality of the local environment contributes hugely to social cohesion. In that context, I particularly note the contributions from Paul Davies, Jenny Randerson, Christine Chapman and Leanne Wood. All the contributors mentioned the value of local projects, and I saw an interesting example recently when I visited the Pembrokeshire Local Action Network for Enterprise and Development, or PLANED. The whole of PLANED's people and places agenda, which the Assembly Government supports, looks at using the issue of local environment quality to bring people together. It does so in a voluntary way, getting people interested in looking after their local environment. Therefore, one of the critical elements of this is the partnership between the voluntary and statutory sectors and between communities, local government and the Assembly Government in driving this agenda forward. We all have different roles in that.

In the context of the voluntary sector, I am disappointed that, in the opening contribution, there was no mention of Keep Wales Tidy, the British Trust of Conservation Volunteers, GroundWork, environment groups of Communities First schools, Eco-Schools, pensioners' groups, the Women's Institute and others, who are the army supporting our local environments out there, day in, day out. However, the responsibility, as Leanne said in her opening remarks, lies

wedi'u tipio'n anghyfreithlon oddi ar dir diffaith a all fod mewn perchnogaeth breifat. Dyna enghraifft dda arall y gallai cynghorau eraill ddymuno'i hystyried a'i hefelychu os teimlant ei bod yn briodol i'w hardal.

Mae cynlluniau da i'w gweld, ond adnoddau yw'r broblem. Mae ar gynghorau angen arian o'r setliad llywodraeth leol, a bydd arnynt angen adnoddau ychwanegol os daw unrhyw ddeddfau newydd i rym y bydd yn rhaid i gynghorau eu gorfodi. Rhaid i Lywodraeth y Cynulliad sicrhau bod digon o arian gan gynghorau i orfodi'r deddfau newydd hynny pan fydd yn rhaid iddynt eu gweithredu.

Y Gweinidog dros yr Amgylchedd, Cynaliadwyedd a Thai (Jane Davidson): Mae'n amlwg o'r cyfraniadau i'r ddadl hon fod pawb yn credu bod ansawdd yr amgylchedd lleol yn cyfrannu'n helaeth iawn at gydlyniant cymdeithasol. Yn y cyd-destun hwnnw, cyfeiriaf yn benodol at y cyfraniadau gan Paul Davies, Jenny Randerson, Christine Chapman a Leanne Wood. Cyfeiriodd pawb a gyfrannodd at werth prosiectau lleol, a gwelais enghraifft ddiddorol yn ddiweddar pan ymwelais â Rhwydwaith Gweithredu Lleol Sir Benfro er Menter a Datblygu, neu PLANED. Mae agenda PLANED ar bobl a lleoedd, a gefnogir gan Lywodraeth y Cynulliad, yn ymwneud yn gyfan gwbl â defnyddio pwnc ansawdd yr amgylchedd lleol i ddod â phobl at ei gilydd. Mae'n gwneud hynny drwy ddull gwirfoddol, gan beri i bobl ymddiddori mewn gofalu am eu hamgylchedd lleol. Felly, un o'r agweddau hanfodol ar hyn yw'r bartneriaeth rhwng y sector gwirfoddol a'r sector statudol a rhwng cymunedau, llywodraeth leol a Llywodraeth y Cynulliad o ran hyrwyddo'r agenda hon. Mae gan bob un ohonom wahanol rannau i'w chwarae yn hynny.

Gyda golwg ar y sector gwirfoddol, yr wyf yn siomedig nad oedd sôn yn y cyfraniad agoriadol am Cadwch Gymru'n Daclus, Ymddiriedolaeth Gwirfoddolwyr Cadwraeth Prydain, GroundWork, grwpiau amgylchedd ysgolion yn ardaloedd Cymunedau yn Gyntaf, Eco-Sgolion, grwpiau pensiynwyr, Sefydliad y Merched ac eraill, sef y fyddin sy'n cynnal ein hamgylcheddau lleol ar lawr gwlad o ddydd i ddydd. Er hynny, ar lywodraeth leol y mae'r cyfrifoldeb, fel y

with local government, and I am convinced that all of the parties in the Assembly apart from the Tories want local government to retain their responsibilities. We are not looking to take responsibilities away from local government. What we are looking to do, as an Assembly Government, is to ensure that the legislation is in place to enable local authorities to exercise their powers effectively. It is important to remind all of you who would suggest that local authorities should slide away from their responsibilities and blame the Assembly Government for the lack of funding, that local government has a duty, under the local government legislation of 2000, to produce a community strategy that promotes and improves the environmental wellbeing of its areas.

The Clean Neighbourhoods and Environment Act 2005 was the most significant change in local environmental quality legislation for several years. It was strongly supported in the Assembly, and provides a more coherent means of improving local environmental quality. You ask us to use existing powers, but you do not even mention the legislation. We are seeking new powers because we want to ensure that we have the panoply of powers at our disposal.

On the majority of the issues that you raise in your contribution in your motion today—

Darren Millar: Will you take an intervention?

Jane Davidson: You can respond to me in due course.

Powers are already in place and we would want local authorities to exercise them appropriately.

In deciding on those relative priorities for using these powers, local authorities need to look at the relevant objectives in their community strategies and other long-term plans, at the outcome of citizen surveys and feedback on local environmental quality, and at evidence provided by relevant performance

dywedodd Leanne yn ei sylwadau agoriadol, ac yr wyf wedi fy argyhoeddi bod pob plaid yn y Cynulliad heblaw'r Toriaid yn dymuno i lywodraeth leol gadw'i chyfrifoldebau. Nid ydym yn ceisio cymryd cyfrifoldebau oddi ar lywodraeth leol. Yr hyn yr ydym yn ceisio'i wneud, fel Llywodraeth y Cynulliad, yw sicrhau bod y ddeddfwriaeth angenrheidiol yn bod i alluogi awdurdodau lleol i arfer eu pwerau'n effeithiol. Mae'n bwysig atgoffa pob un ohonoch a fyddai'n awgrymu y dylai awdurdodau lleol osgoi eu cyfrifoldebau a rhoi'r bai ar Lywodraeth y Cynulliad am ddiffyg cyllid, ei bod yn ddyletswydd ar lywodraeth leol, dan ddeddfwriaeth llywodraeth leol a wnaethpwyd yn 2000, i lunio strategaeth gymunedol sy'n hyrwyddo ac yn gwella lles amgylcheddol ei hardaloedd.

Deddf Cymdogaethau Glân a'r Amgylchedd 2005 oedd y newid pwysicaf mewn deddfwriaeth ar ansawdd yr amgylchedd lleol ers rhai blynyddoedd. Yr oedd y Cynulliad yn gefnogol iawn iddi, ac mae'n cynnig dull mwy cydlynol o wella ansawdd yr amgylchedd lleol. Yr ydych yn gofyn inni ddefnyddio pwerau sydd ar gael eisoes, ond nid ydych hyd yn oed yn sôn am y ddeddfwriaeth. Yr ydym yn ceisio pwerau newydd am ein bod yn dymuno sicrhau y bydd yr holl bwerau angenrheidiol ar gael i ni.

O ran y rhan fwyaf o'r materion yr ydych yn eu codi yn eich cyfraniad yn eich cynnig heddiw—

Darren Millar: A wnewch chi dderbyn ymyriad?

Jane Davidson: Gallwch ymateb i mi maes o law.

Mae pwerau ar gael eisoes, a byddem yn dymuno i awdurdodau lleol eu harfer yn briodol.

Wrth benderfynu'r blaenoriaethau cymharol hynny ar gyfer defnyddio'r pwerau hyn, mae angen i awdurdodau lleol ystyried yr amcanion perthnasol yn eu strategaethau gymunedol a chynlluniau hirdymor eraill, canlyniad arolygon o ddinasyddion ac ymateb am ansawdd yr amgylchedd lleol, a

indicators, and then decide how they wish to use those powers.

We have also provided significant additional funding in the last two years. There is over £2.3 million of funding supporting local environment projects. Members will be aware of the new Tidy Town initiative that I launched at the beginning of April. That is a 'One Wales' commitment and is a new, £4 million package of funding to support local authorities and voluntary action to improve the quality of local environments and to tackle anti-social behaviour such as littering, fly-tipping, graffiti and fly-posting. Tidy Towns is a two-part initiative, with £1 million per year for Keep Wales Tidy, which has led to new officers in every local authority area in Wales. Local authorities will receive £3 million a year to support partnership working between local authorities and voluntary groups.

I am already working closely with local government, not only in this area but also on biodiversity, and I am grateful to Paul for raising that important issue. Following the local government elections, I want to see local authority biodiversity champions at local authority cabinet level, and I am working with the Welsh Local Government Association on a series of biodiversity duty workshops, which will assist members of local authorities in carrying out their obligations. We in Wales are leading the way in the UK in helping local authorities to make an objective assessment of how much green space of the required standard is available in the right places for citizens. I am glad that some Members have mentioned the Greenspace toolkit, which is produced by the Countryside Council for Wales for every planning department, and also the offer of grant aid to local authorities to undertake the green space assessment using the toolkit. We already have protection for international and nationally important wildlife sites in place and, whereas the principle of green corridors is a good one, it must not be seen as the only solution, because there are also opportunities

thystiolaeth a gafwyd o ddangosyddion perfformiad perthnasol, a phenderfynu wedyn sut y maent yn dymuno defnyddio'r pwerau hynny.

Yr ydym hefyd wedi darparu cyllid ychwanegol sylweddol yn y ddwy flynedd diwethaf. Mae dros £2.3 miliwn o gyllid yn hybu prosiectau amgylcheddol lleol. Bydd Aelodau'n ymwybodol o'r cynllun Trefi Taclus newydd a lansiais ddechrau Ebrill. Ymrwymiad yn 'Cymru'n Un' yw hwnnw ac mae'n becyn cyllid newydd o £4 miliwn i helpu awdurdodau lleol a hybu gweithredu gwirfoddol er mwyn gwella ansawdd amgylcheddau lleol a mynd i'r afael ag ymddygiad gwrthgymdeithasol, fel taflu sbwriel, tipio anghyfreithlon, graffiti a gosod posteri. Mae Trefi Taclus yn gynllun dwy ran, gydag £1 filiwn y flwyddyn ar gyfer Cadwch Gymru'n Daclus, sydd wedi arwain at benodi swyddogion newydd ym mhob ardal awdurdod lleol yng Nghymru. Bydd awdurdodau lleol yn cael £3 miliwn y flwyddyn i hybu gwaith mewn partneriaeth rhwng awdurdodau lleol a grwpiau gwirfoddol.

Yr wyf eisoes yn cydweithio'n agos â llywodraeth leol, nid yn unig yn y maes hwn ond hefyd ar fioamrywiaeth, ac yr wyf yn ddiolchgar i Paul am godi'r mater pwysig hwnnw. Ar ôl yr etholiadau llywodraeth leol, dymunaf weld hyrwyddwyr bioamrywiaeth gan awdurdodau lleol ar lefel cabinet mewn awdurdodau lleol, ac yr wyf yn gweithio gyda Chymdeithas Llywodraeth Leol Cymru ar gyfres o weithdai ar y ddyletswydd bioamrywiaeth, a fydd yn helpu aelodau awdurdodau lleol i gyflawni eu rhwymedigaethau. Yr ydym ni yng Nghymru'n arwain y ffordd yn y DU o ran helpu awdurdodau lleol i wneud asesiad gwrthrychol o faint y manau gwyrdd o'r safon ofynnol sydd ar gael yn y lleoedd iawn i ddinasyddion. Yr wyf yn falch bod rhai Aelodau wedi sôn am becyn cymorth Mannau Gwyrdd, sydd wedi'i gynhyrchu gan Gyngor Cefn Gwlad Cymru ar gyfer pob adran gynllunio, a hefyd am y cynnig o gymorth grant i awdurdodau lleol i ymgymryd â'r asesiad o fannau gwyrdd gan ddefnyddio'r pecyn cymorth. Mae safleoedd bywyd gwyllt o bwysigrwydd cenedlaethol a rhyngwladol wedi'u diogelu eisoes, ac er bod

for more isolated stepping stones—small but significant nature spaces, particularly within urban areas. There is increasing evidence that green spaces in urban areas are the parts that make our towns and cities viable, especially in a climate-challenged world.

3.10 p.m.

The five Heads of the Valleys local authorities have done a joint green space assessment and a further four local authorities are working on their assessments at the moment. The Treeregeneration urban forestry project, sponsored by the Forestry Commission, Wrexham County Borough Council, Flintshire County Borough Council and the Countryside Council for Wales is considering how urban forestry can benefit Welsh towns and cities. Several Members have mentioned planning policy. That already provides the framework for the provision and protection of local, important recreational land and wildlife sites. TAN 16, which covers sport, recreation and open space, and TAN 5, which focuses on nature, conservation and planning will be issued in their final forms by the end of the year.

In the context of ensuring that green space is of the right quality for its health-giving purposes, the Welsh Assembly Government is funding the Green Flag and Green Pennant awards. Those are UK awards that set the national standard for green space management and give the public the assurance that any site flying the Green Flag or Green Pennant is safe, welcoming and well managed and is supported strongly by the local community. We have won 17 of the UK's 77 Green Pennant awards for community-managed green spaces, which is far more than any other part of the UK.

Our amendments are accurate. These are important issues. We need to do more, but you need to recognise what has already been done.

egwyddor y coridorau gwyrdd yn un dda, rhaid peidio ag edrych arni fel yr unig ateb, gan fod cyfleoedd hefyd i gael troedleoedd sy'n fwy ar wahân—mannau bach ond pwysig ar gyfer natur, yn enwedig mewn ardaloedd trefol. Mae yna dystiolaeth gynyddol mai manau gwyrdd mewn ardaloedd trefol yw'r rhannau sy'n peri i'n trefi a'n dinasoedd fod yn hyfyw, yn enwedig mewn byd lle mae'r hinsawdd yn newid.

Mae'r pum awdurdod lleol ym Mlaenau'r Cymoedd wedi gwneud asesiad ar y cyd o fannau gwyrdd, ac mae pedwar awdurdod lleol pellach yn gweithio ar eu hasesiadau ar hyn o bryd. Mae'r prosiect coedwigaeth drefol Treeregeneration, sy'n cael ei noddi gan y Comisiwn Coedwigaeth, Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam, Cyngor Sir y Fflint a Chyngor Cefn Gwlad Cymru, yn fodd i ystyried sut y gall trefi a dinasoedd Cymru elwa o goedwigaeth drefol. Mae nifer o Aelodau wedi sôn am bolisi cynllunio. Mae hwnnw eisoes yn darparu'r fframwaith ar gyfer darparu a diogelu tir hamdden a safleoedd bywyd gwyllt lleol sydd o bwys. Bydd TAN 16, sy'n ymdrin â chwaraeon, hamdden a manau agored, a TAN 5, sy'n canolbwyntio ar natur, cadwraeth a chynllunio, yn cael eu cyhoeddi ar eu ffurf derfynol erbyn diwedd y flwyddyn.

O ran sicrhau bod manau gwyrdd o'r safon iawn at ddibenion iachusol, mae Llywodraeth Cynulliad Cymru yn ariannu gwobrau'r Faner Werdd a'r Penwn Gwyrdd. Gwobrau ar gyfer y DU yw'r rheini sy'n pennu'r safon genedlaethol ar gyfer rheoli manau gwyrdd ac yn sicrhau'r cyhoedd fod unrhyw safle sy'n dangos y Faner Werdd neu'r Penwn Gwyrdd yn ddiogel, yn groesawus ac yn cael ei reoli'n dda, a bod y gymuned leol yn ei gefnogi'n gadarn. Yr ydym wedi ennill 17 o'r 77 o wobrau'r Penwn Gwyrdd yn y DU ar gyfer manau gwyrdd sy'n cael eu rheoli gan y gymuned, ac mae hynny'n fwy o lawer na'r un rhan arall o'r DU.

Mae ein gwelliannau'n gywir. Mae'r rhain yn faterion pwysig. Mae angen inni wneud rhagor, ond mae angen ichi gydnabod yr hyn sydd eisoes wedi'i wneud.

Andrew R.T. Davies: I thank all of the contributors to this debate this afternoon and, in particular, our spokesman, Darren Millar, for bringing it to the Chamber. It is lamentable that the Minister did not give way to Darren, but chose to read the notes that a civil servant had put in front of her. That is a growing tendency as exemplified in the debate on the foundation phase last week by her colleague on the Labour frontbench. Their contributions seem to be increasingly word for word rather than adding substance to the debates in the Assembly.

It is a crucial part of the Assembly Government's remit to work with local authorities. We would not look to take any power away from local authorities. In your closing speech, Minister, you highlighted the importance of technical advice notes that this institution issues to local authorities. That is a classic case of the Welsh Assembly Government working with local authorities to provide sustainable development in the communities that they administer. Behind you sits the transport Minister. We await the initiative on sustainable transport towns that was promised last autumn, but we have not yet seen it. Therefore, the Welsh Assembly Government has a crucial role to play.

Darren Millar offered you the opportunity to comment on the legislative competence Order currently going through Westminster. You chose not to talk about that. That LCO would give you valuable tools to enforce the measures that we have put forward in this debate and to help local authorities and communities address these issues.

Jenny Randerson highlighted how the visual impact of graffiti and litter is a relevant issue today. As an AM who represents the region of South Wales Central, I am sure that you, Minister, as the AM for Pontypridd, would agree that, in urban areas in particular, graffiti and litter blight many communities. They do not physically harm people, but they damage them psychologically and lead them to have less of a sense of pride in their area.

Andrew R.T. Davies: Diolchaf i bawb sydd wedi cyfrannu at y ddadl hon y prynhawn yma, ac yn enwedig i'n llefarydd, Darren Millar, am ei chyflwyno yn y Siambr. Mae'n resynus nad ildiodd y Gweinidog i Darren, ond yn hytrach ddewis darllen y nodiadau yr oedd gwas sifil wedi'u rhoi o'i blaen. Mae honno'n duedd sydd ar gynnydd ac y cafwyd enghraifft ohoni yn y ddadl ar y cyfnod sylfaen yr wythnos diwethaf gan ei chyd-Aelod ar fainc flaen Llafur. Mae'n ymddangos bod eu cyfraniadau'n gynyddol yn rhai gair am air, yn hytrach na'u bod yn ychwanegu sylwedd at y dadleuon yn y Cynulliad.

Rhan hanfodol o gylch gwaith Llywodraeth y Cynulliad yw gweithio gydag awdurdodau lleol. Ni fyddem yn ceisio cymryd unrhyw bŵer oddi ar awdurdodau lleol. Yn eich araith gloi, Weinidog, yr oeddech yn tynnu sylw at bwysigrwydd y nodiadau cyngor technegol y mae'r sefydliad hwn yn eu rhoi i awdurdodau lleol. Mae honno'n enghraifft ddelfrydol o'r modd y mae Llywodraeth Cynulliad Cymru yn gweithio gydag awdurdodau lleol i ddarparu datblygu cynaliadwy yn y cymunedau y maent yn eu gweinyddu. Y tu ôl i chi y mae'r Gweinidog dros drafnidiaeth. Yr ydym yn disgwyl am y cynllun ar gyfer trefi cludiant cynaliadwy a addawyd yr hydref diwethaf, ond nid ydym wedi'i weld eto. Felly, mae gan Lywodraeth Cynulliad Cymru ran hanfodol yn hyn.

Cynigiodd Darren Millar gyfle ichi wneud sylw am y Gorchymyn cymhwysedd deddfwriaethol sy'n mynd drwy San Steffan ar hyn o bryd. Dewis peidio â sôn am hwnnw wnaethoch chi. Byddai'r Gorchymyn hwnnw'n rhoi modd gwerthfawr ichi orfodi'r mesurau yr ydym wedi'u rhoi gerbron yn y ddadl hon ac yn helpu awdurdodau lleol a chymunedau i ddelio â'r materion hyn.

Dangosodd Jenny Randerson fod effaith weledol graffiti a sbwriel yn fater perthnasol heddiw. Fel AC sy'n cynrychioli rhanbarth Canol De Cymru, yr wyf yn siŵr y byddech chi, Weinidog, fel yr AC dros Bontypridd, yn derbyn bod graffiti a sbwriel yn falltod ar lawer cymuned, yn enwedig mewn ardaloedd trefol. Nid ydynt yn niweidio pobl yn gorfforol, ond maent yn eu niweidio'n seicolegol ac yn peri iddynt ymfalchio lai yn

eu hardal.

However, there are also many examples of good practice in urban areas. Your only retort to us, Minister, is that we seek to take powers away from local government, but that does not address the environment issues that we are hearing about from people on their doorsteps.

We heard contributions from all sectors of the political field in the Chamber today. I welcome Christine Chapman's comments about initiatives in her constituency of Cynon valley. Dare valley country park is a classic example of a wonderful public asset that enhances and enriches the local community. I was a little worried when Leanne Wood said that she agreed with Darren Millar. It went downhill rapidly when everyone tried to intervene. I thought that we have an entente cordiale breaking out. However, Leanne's points on the allotments in Treherbert were good. I was also heartened to hear that Labour is likely to lose control of Rhondda Cynon Taf County Borough Council a week Thursday, so I wish you well in your endeavours.

Leighton Andrews: I do not think that Rhondda Cynon Taf County Borough Council will fall from Labour control next week, not least because there is only one Conservative candidate for that council, so it will not fall to you. Other parties do not appear to be fielding full slates.

Andrew R.T. Davies: We are confident we will be holding the balance of power. [*Laughter.*]

However, I do not wish to detract from the seriousness of today's debate, which is about how people feel in their communities, and about accessibility. Paul raised a relevant point, namely that if we are seeking to create green corridors, which we all aspire to, we must also be mindful of wildlife disturbance, because we want the environment that we live, work and play in to be sustainable. Those aspirations are supposedly becoming realised.

Er hynny, mae llawer o enghreifftiau o arfer da mewn ardaloedd trefol hefyd. Yr unig ateb parod a roesoch i ni, Weinidog, oedd dweud ein bod yn ceisio cymryd pwerau oddi ar lywodraeth leol, ond nid yw hynny'n delio â'r materion amgylcheddol y clywn amdanynt gan bobl ar garreg eu drws.

Clywsom gyfraniadau gan rai o bob tuedd wleidyddol yn y Siambr heddiw. Croesawaf sylwadau Christine Chapman am gynlluniau yn ei hetholaeth, sef cwm Cynon. Mae parc gwledig cwm Dâr yn enghraifft wych o ased cyhoeddus rhyfeddol sy'n gwella ac yn cyfoethogi'r gymuned leol. Yr oeddwn braidd yn bryderus pan ddywedodd Leanne Wood ei bod yn cytuno â Darren Millar. Dirywiodd pethau'n gyflym pan geisiodd pawb ymyrryd. Credwn fod cydddealltwriaeth yn datblygu. Fodd bynnag, yr oedd y pwyntiau a wnaeth Leanne am y rhandiroedd yn Nhreherbert yn rhai da. Cefais fy nghalonogi hefyd o glywed bod Llafur yn debygol o golli rheolaeth ar Gyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf wythnos i ddydd Iau, felly, dymunoaf yn dda i chi yn eich ymdrechion.

Leighton Andrews: Nid wyf fi'n credu y bydd Llafur yn colli rheolaeth ar Gyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf yr wythnos nesaf, yn anad dim am nad oes ond un ymgeisydd Ceidwadol ar gyfer y cyngor hwnnw, felly, ni fydd yn mynd i'ch dwylo chi. Mae'n ymddangos nad yw pleidiau eraill yn enwebu ymgeiswyr ar bob rhestr.

Andrew R.T. Davies: Yr ydym yn ffyddiog y byddwn yn dal y cydbwysedd grym. [*Chwerthin.*]

Fodd bynnag, nid oes arnaf eisiau tynnu oddi ar ddifrifoldeb y ddadl heddiw, sef sut y mae pobl yn teimlo yn eu cymunedau, ac ynglŷn â hygyrchedd. Cododd Paul bwynt perthnasol, sef os ydym yn ceisio creu coridorau gwyrdd, rhywbeth sy'n nod gan bawb ohonom, rhaid inni ochel hefyd rhag tarfu ar fyd natur, oherwydd mae arnom eisiau i'r amgylchedd lle'r ydym yn byw, yn gweithio ac yn chwarae fod yn gynaliadwy. Mae'r dyheadau hynny i fod yn cael eu gwireddu.

On the subject of his intervention, I am not sure how much copy Peter Black will get in the *South Wales Evening Post* after his comments about its building in Swansea. Let us hope that it does not take offence at that, Peter. He was lamenting Conservative-run councils and Conservative policies, but when his colleague, Elgan Morgan, a Liberal Democrat cabinet member in Cardiff council, tried to sort out transport policy, he had to resign over the complete mess he made of it. Therefore, we will take no lectures from the Lib Dems on how to implement and deliver policy.

I am disappointed that there are so many amendments to the motion, because we sought to table a motion that aimed to realise people's aspirations about improving the environment in which they live every day. That will be borne out on 1 May.

The Deputy Presiding Officer: The proposal is to agree amendment 1. Does any Member object? I see that there is an objection. We will therefore defer the vote until voting time.

Gohiriwyd y pleidleisiau tan yr amser pleidleisio
Votes deferred until voting time.

Dadl Democratiaid Rhyddfrydol Cymru **Welsh Liberal Democrats Debate**

Economi Cymru **The Welsh Economy**

The Deputy Presiding Officer: I have selected amendments 1, 2 and 4 in the name of Carwyn Jones, and amendments 3 and 5 in the name of William Graham.

Peter Black: I propose that

the National Assembly for Wales:

1. notes with concern the effects of:

a) doubling the 10p income tax rate;

b) spiralling consumer debt;

c) the credit crunch; and

Ar destun ei ymyriad, nid wyf yn siŵr faint o sylw a gaiff Peter Black yn y *South Wales Evening Post* ar ôl ei sylwadau am adeilad y papur yn Abertawe. Boed inni obeithio na fydd yn gweld y chwith am hynny, Peter. Gresynu ydoedd at gynghorau Ceidwadol a pholisïau'r Ceidwadwyr, ond pan geisiodd ei gyfaill Elgan Morgan, sy'n aelod cabinet dros y Democratiaid Rhyddfrydol yng nghyngor Caerdydd, osod trefn ar bolisi cludiant, bu'n rhaid iddo ymddiswyddo yn sgil y traed moch llwyr a wnaeth o'r peth. Felly, ni wnawn dderbyn unrhyw ddarlithoedd gan y Democratiaid Rhyddfrydol sut i weithredu a chyflwyno polisi.

Yr wyf yn siomedig bod cynifer o welliannau i'r cynnig, oherwydd ceisïem gyflwyno cynnig yn anelu at wireddu dyheadau pobl ynghylch gwella'r amgylchedd lle maent yn byw bob dydd. Caiff hynny ei gadarnhau ar 1 Mai.

Y Dirprwy Lywydd: Y cynnig yw cytuno gwelliant 1. A oes unrhyw Aelod yn gwrthwynebu? Gwelaf fod gwrthwynebiad. Gohiriwn y bleidlais tan yr adeg pleidleisio felly.

Y Dirprwy Llywydd: Yr wyf wedi dethol gwelliannau 1, 2 a 4 yn enw Carwyn Jones, a gwelliannau 3 a 5 yn enw William Graham.

Peter Black: Cynigïaf fod

Cynulliad Cenedlaethol Cymru:

1. yn nodi â phryder effaith:

a) dyblu'r gyfradd dreth incwm 10c;

b) dyledion cynyddol defnyddwyr;

c) y wasgfa gredyd; ac

2. *believes these will have an adverse impact on the people of Wales and the Welsh economy.* (NDM3917)

I will start by referring to the amendments. We will not be supporting any of the Government's amendments, but we will support the two Conservative amendments, and I will explain why in a minute.

On amendment 5 from the Conservatives, it is worth explaining that, although the economic downturn will impact particularly severely on the economically inactive, they will not be the only people hit by it. Other people who are economically active will also be hit by that, and so I think that we need to add that caveat to the amendment.

*Daeth William Graham i'r Gadair am 3.17 p.m.
William Graham took the Chair at 3.17 p.m.*

One reason why we will not support the Government's amendments—apart from their being petty and nit-picking—is illustrated by the first amendment. Our motion suggests that the Assembly notes with concern the effects of 'doubling' the 10p income tax rate, but the Government suggests in amendment 1 that the Assembly should note instead the effects of 'abolishing' the 10p income tax rate. It is all very well to play semantics like that, but we need to bear in mind that 195,000 people in Wales—13 per cent of all taxpayers in Wales—pay only the 10p income tax rate, and 3.1 million people are in the same boat in England, namely 11.8 per cent of all taxpayers in England.

Therefore, not only do we have a higher proportion of people in Wales paying the 10p income tax rate, but the effect of abolishing or doubling that rate, whatever you want to call it, is that they will now pay a 20p tax on every £1 their income, as opposed to 10p. For those people, it is not a question of abolishing the rate, but of doubling it, so let us be clear about that. Labour is playing with words in this amendment, and it is trying to hide the impact that this tax change will have on some of the poorest people in our society, who are earning a very low wage and are paying the 10p tax rate on their earnings only. That is important.

2. *yn credu y bydd y rhain yn cael effaith andwyol ar bobl Cymru ac ar economi Cymru.* (NDM3917)

Dechreuaf drwy gyfeirio at y gwelliannau. Ni fyddwn yn cefnogi'r un o welliannau'r Llywodraeth, ond byddwn yn cefnogi dau welliant y Ceidwadwyr, ac fe esboniaf pam yn y munud.

Ynglŷn â gwelliant 5 gan y Ceidwadwyr, er y bydd y dirywiad economaidd yn effeithio'n arbennig o ddifrifol ar yr economaidd anweithgar, mae'n werth esbonio nad hwy fydd yr unig bobl a gaiff eu bwrw ganddo. Caiff pobl eraill sydd yn economaidd weithredol eu bwrw gan hynny hefyd, ac felly credaf fod angen inni ychwanegu'r cafeaf hwnnw at y gwelliant.

Mae un rheswm pam na fyddwn yn cefnogi gwelliannau'r Llywodraeth—ar wahân i'r ffaith eu bod yn bitw ac yn pigo beiau—i'w weld yn y gwelliant cyntaf. Mae ein cynnig ni'n awgrymu bod y Cynulliad yn nodi gyda phryder effeithiau 'dyblu' y gyfradd dreth incwm 10c, ond awgryma'r Llywodraeth yng ngwelliant 1 y dylai'r Cynulliad yn hytrach nodi effeithiau 'diddymu' y gyfradd dreth incwm 10c. Digon hawdd chwarae â geiriau fel yna, ond mae angen inni gofio bod 195,000 o bobl yng Nghymru—13 y cant o holl drethdalwyr Cymru—yn talu dim ond y gyfradd dreth incwm 10c, ac mae 3.1 miliwn o bobl yn yr un cwch yn Lloegr, sef 11.8 y cant o holl drethdalwyr Lloegr.

Felly, nid yn unig y mae gennym gyfran uwch o bobl yng Nghymru sy'n talu'r gyfradd dreth incwm 10c, ond effaith diddymu neu ddyblu'r gyfradd honno, beth bynnag y dymunwch ei alw, yw y byddant bellach yn talu treth o 20c ar bob £1 o'u hincwm, yn hytrach na 10c. I'r bobl hynny, nid cwestiwn o ddiddymu'r gyfradd ydyw, ond o'i dyblu, felly, gadewch inni fod yn glir ynglŷn â hynny. Mae Llafur yn chwarae â geiriau yn y gwelliant hwn, ac mae'n ceisio cuddio'r effaith a gaiff y newid hwn yn y dreth ar rai o bobl dlotaf ein cymdeithas, sy'n ennill cyflog isel iawn ac sy'n talu'r gyfradd dreth 10c ar eu henillion yn unig. Mae

hynny'n bwysig.

We also need to point out that more than half the population of Wales earns £18,000 or less per year, and so this change in the budget will have an impact on them in some way or another, and a negative impact at that. Sixty per cent of those people earning less than £18,000 per year are women, and so not only are the Chancellor's proposals hitting the people of Wales disproportionately, they are also affecting women disproportionately.

We have heard in the past 24 hours that the Chancellor of the Exchequer no longer has to face the rebel amendment tabled by Frank Field, who has withdrawn it following the package of measures put together by the Chancellor. The Labour backbenchers say that they are now satisfied, but we must question whether this package of measures will have the impact that some of those Labour backbenchers expect it to.

The fact remains that 5.3 million people are already worse off as a result of the cynical decision to punish the poor to grab the easy headlines, which the former Chancellor—who is now the Prime Minister—sought more than a year ago. People who have just seen their tax rates doubled are unlikely to be comforted by the Government's assurance that it will instead tinker with an overly complex and failing tax credit system, to which people under the age of 25 years are not even entitled.

3.20 p.m.

Let us look at the package that the Chancellor is proposing. If he is to ensure that all people are fully compensated for the abolition of the 10p rate, the Exchequer will have to spend an additional £1.23 billion. Alistair Darling has said that he will see whether 60 to 64-year-olds who have lost out can be compensated through the winter fuel allowance. To ensure that all 600,000 people receive full compensation, the winter fuel allowance will have to be almost doubled from £250 to £482, at a cost of £121 million to the Treasury.

Mae angen nodi hefyd fod dros hanner poblogaeth Cymru yn ennill £18,000 neu lai y flwyddyn, ac felly bydd y newid hwn yn y gyllideb yn effeithio arnynt mewn rhyw ffordd neu'i gilydd, a hynny'n effaith negyddol. Menywod yw 60 y cant o'r bobl hynny sy'n ennill llai na £18,000 y flwyddyn, ac felly nid yn unig y mae cynigion y Canghellor yn ergyd anghymesur i bobl Cymru, cânt effaith anghymesur ar fenywod hefyd.

Clywsom yn y 24 awr ddiwethaf nad yw Canghellor y Trysorlys mwyach yn gorfod wynebu'r gwelliant gwrthryfela a gyflwynwyd gan Frank Field, sydd wedi'i dynnu yn ôl oherwydd y pecyn o fesurau a luniwyd gan y Canghellor. Dywed aelodau meinciau cefn Llafur eu bod yn fodlon bellach, ond rhaid inni gwestiynu a gaiff y pecyn mesurau hwn yr effaith y mae rhai o'r aelodau meinciau cefn Llafur hynny'n disgwyl iddo'i chael.

Mae'n ffaith o hyd fod 5.3 miliwn o bobl eisoes yn waeth eu byd oherwydd y penderfyniad sinigaidd i gosbi'r tlodion er mwyn cipio'r penawdau hawdd, rhywbeth y ceisiodd y cyn Ganghellor—sef y Prif Weinidog bellach—ei wneud dros flwyddyn yn ôl. Mae pobl sydd newydd weld dyblu eu cyfraddau treth yn annhebygol o gael eu cysuro gan sicrwydd y Llywodraeth y bydd yn gwneud rhyw fân addasiadau i system gredydau treth orgymhleth a methiannus, nad oes gan bobl dan 25 mlwydd oed hawl iddi hyd yn oed.

Gadewch inni edrych ar y pecyn y mae'r Canghellor yn ei gynnig. Os yw am sicrhau y caiff pawb eu digolledu'n llawn am ddiddymu'r gyfradd 10c, bydd yn rhaid i'r Trysorlys wario £1.23 biliwn yn ychwanegol. Mae Alistair Darling wedi dweud y bydd yn edrych a ellir digolledu pobl 60 i 64 oed sydd ar eu colled drwy'r lwfans tanwydd gaeaf. I sicrhau y caiff pob un o'r 600,000 o bobl eu digolledu'n llawn, bydd yn rhaid dyblu'r lwfans tanwydd gaeaf bron, o £250 i £482, gan gostio £121 miliwn i'r Trysorlys.

He announced that he would investigate changes to tax credits to compensate people. However, people under the age of 25 are not entitled to tax credits. Furthermore, the take-up of tax credits by eligible people without children—one of the key groups to lose out from the doubling of the 10p rate—is just 22 per cent. The Chancellor has said that, for people currently outside the tax credit system, he will consult the Low Pay Commission on possible changes to the minimum wage. To ensure that all people on the minimum wage would no longer lose out from the abolition of the 10p rate, it would have to be increased for all people to £18,500 per year, or £9.49 per hour. If the Chancellor can find the money to do that, that is fine. However, it seems that he has taken a fairly simple mechanism, of the 10p tax rate, and overcomplicated it so that it is almost impossible to understand, so that people are no longer able to benefit from the many compensatory packages in place—and the difficulties of applying for tax credits because of the bureaucracy is a good example of that—and so that a large number of people in this country will lose out. Frank Field has been premature in withdrawing his amendment to the budget. Those Labour MPs will regret withdrawing their opposition to the Chancellor, and the people of England and Wales will severely punish Labour for that on 1 May, a week Thursday.

Gordon Brown likes to boast about how he oversaw one of the UK's longest periods of sustained economic growth, as Chancellor of the Exchequer. This is only partly true. While economic growth has been strong for the past decade or so, much of that it has been predicated on strong consumer spending on the back of a massive expansion in personal debt. In anything but the lowest of interest rate environments, this is not sustainable. The banks are worried about their margins, as the cost of borrowing remains high. Bank of England rate cuts may not translate into cuts by high street banks, and we have already seen that with the desperate pleadings of the Chancellor to the mortgage lenders in meetings held at Nos. 11 and 10 Downing Street.

Cyhoeddodd y byddai'n ystyried newid credydau treth er mwyn digolledu pobl. Fodd bynnag, nid oes gan bobl dan 25 oed hawl i gael credydau treth. At hynny, dim ond 22 y cant o bobl gymwys heb blant—un o'r grwpiau allweddol a fydd ar eu colled yn sgil dyblu'r gyfradd 10c—sy'n cymryd credydau treth. I bobl sydd ar hyn o bryd y tu allan i'r system credydau treth, mae'r Canghellor wedi dweud y bydd yn ymgynghori â'r Comisiwn Cyflogau Isel ynghylch newidiadau posibl yn yr isafswm cyflog. Er mwyn sicrhau na fyddai neb sydd ar yr isafswm cyflog mwyach ar eu colled o ddiddymu'r gyfradd 10c, byddai'n rhaid ei gynyddu i bawb i £18,500 y flwyddyn, neu £9.49 yr awr. Os gall y Canghellor ddod o hyd i'r arian i wneud hynny, popeth yn iawn. Fodd bynnag, mae'n ymddangos ei fod wedi cymryd mecanwaith eithaf syml, sef y gyfradd dreth 10c, ac wedi'i orgymhlethu nes ei bod bron yn amhosibl ei ddeall, nes na fydd pobl yn gallu elwa mwyach ar y lluo o becynnau digolledu sydd ar gael—ac mae'r anawsterau wrth ymgeisio am greydau treth oherwydd y fiwrocratiaeth yn enghraifft dda o hynny—a nes bydd nifer fawr o bobl yn y wlad hon ar eu colled. Mae Frank Field wedi bod yn rhy gyflym yn tynnu ei welliant i'r gyllideb yn ôl. Bydd yr ASau Llafur hynny'n edifar iddynt dynnu'n ôl eu gwrthwynebiad i'r Canghellor, a bydd pobl Cymru a Lloegr yn cosbi Llafur yn llym am hynny ar 1 Mai, wythnos i ddydd Iau.

Mae Gordon Brown yn hoffi brolio am y modd y bu iddo oruchwylio un o gyfnodau twf economaidd parhaus hiraf y Deyrnas Unedig, pan oedd yn Canghellor y Trysorlys. Nid yw hynny ond yn rhannol wir. Tra mae twf economaidd wedi bod yn gryf ers rhyw ddegawd bellach, mae llawer o hynny wedi'i briodoli i wariant mawr gan ddefnyddwyr ar gefn cynnydd aruthrol mewn dyled bersonol. Mewn unrhyw amgylchedd heblaw'r un isaf ei gyfraddau llog, nid yw hyn yn gynaliadwy. Mae'r banciau'n poeni am eu helw, gan fod cost benthyca'n parhau'n uchel. Efallai na fydd toriadau yng nghyfraddau Banc Lloegr yn arwain at doriadau gan fanciau'r stryd fawr, ac yr ydym eisoes wedi gweld hynny gyda phledio gorffwyll y Canghellor i'r benthycwyr morgeisi mewn cyfarfodydd a gynhaliwyd yn Rhifau 11 a 10 Stryd

Downing.

Personal debt in the United Kingdom has exceeded £1.3 trillion. Over the past year, it has increased by 10.2 per cent. The scale of these figures is phenomenal, and, for most people, it is difficult to grasp exactly what they mean. However, the fact that personal debt has now exceeded our gross domestic product, meaning that our debt is now bigger than the entire economy, should set alarms bells ringing. It will have an impact on the people of Wales, as well as on the Assembly Government's programmes to tackle child poverty, fuel poverty and the other mainstream issues that it says are a priority for it.

We are now seeing some of the effects. Banks are becoming more cautious about lending money to each other, which is one of the most important elements of ensuring a buoyant economy. As a result, banks are experiencing their own troubles; as an increasing number of people fail to meet their mortgage obligations, banks are repossessing more and more homes. That will have an impact on the Assembly Government's housing policy and the so-far invisible affordable housing strategy that the Assembly Government trumpeted in 'One Wales', but of which we have yet to see any evidence in the form of results or a projected programme to deliver those results in the next three years.

We are beginning to see a downturn in the housing market, which is likely to result in a further depression in Wales and the UK. The average house price in Wales fell by £5,000 in one month alone between January and February, and the International Monetary Fund believes that house prices in the UK are 25 to 30 per cent overvalued. Regardless of whether you see this drop in value as the start of a property market crash or as the start of a market 'correction'—which is the euphemistic term used by economists, very much like the euphemistic terms used in the Government's amendments—the net effect will be the same. We are likely to see a return to the conditions of the early 1990s, when homeowners up and down the country were forced into negative equity, and those who did not own a house were unable to get on the

Mae dyled bersonol yn y Deyrnas Unedig wedi mynd yn uwch nag £1.3 triliwn. Dros y flwyddyn ddiwethaf mae wedi cynyddu 10.2 y cant. Mae'r ffigurau hyn yn aruthrol, ac i'r rhan fwyaf o bobl mae'n anodd dirnad yn union beth y maent yn ei olygu. Fodd bynnag, dylai'r ffaith fod dyled bersonol bellach yn fwy na'n cynnyrch mewnwladol crynswth, sy'n golygu bod ein dyled bellach yn fwy na'r economi gyfan, ganu clychau larwm. Bydd yn effeithio ar bobl Cymru, yn ogystal ag ar raglenni Llywodraeth y Cynulliad i fynd i'r afael â thlodi plant, tlodi tanwydd a'r materion prif ffrwd eraill sydd, meddai, yn flaenoriaeth ganddi.

Erbyn hyn yr ydym yn gweld rhai o'r effeithiau. Mae banciau'n mynd yn fwy gochelgar ynghylch rhoi benthyg arian i'w gilydd, sydd yn un o'r elfennau pwysicaf wrth sicrhau economi fywiog. O ganlyniad, mae banciau'n cael blas o'u trafferthion eu hunain; wrth i nifer cynyddol o bobl fethu bodloni amodau eu morgeisi, mae banciau'n adfeddiannu mwy a mwy o gartrefi. Caiff hynny effaith ar bolisi tai Llywodraeth y Cynulliad a'r strategaeth tai fforddiadwy sy'n anweledig hyd yma. Cyhoeddwyd hi gan Lywodraeth y Cynulliad yn 'Cymru'n Un', ond nid ydym eto wedi gweld dim tystiolaeth ohoni ar ffurf canlyniadau na rhaglen ragamcan ar gyfer sicrhau'r canlyniadau hynny yn y tair blynedd nesaf.

Yr ydym yn dechrau gweld dirywiad yn y farchnad tai, sy'n debygol o arwain at ddirwasgiad pellach yng Nghymru a'r Deyrnas Unedig. Cwmpodd pris tŷ ar gyfartaledd yng Nghymru £5,000 mewn un mis yn unig rhwng Ionawr a Chwefror, ac mae'r Gronfa Ariannol Ryngwladol yn credu bod prisiau tai yn y Deyrnas Unedig wedi'u gorbrisio o 25 i 30 y cant. Nid oes gwahaniaeth a ydych yn gweld y cwmp hwn mewn gwerth fel dechrau chwalfa yn y farchnad eiddo ynteu fel dechrau 'cywiriad' yn y farchnad—sef y gair teg a ddefnyddir gan economegwyr, yn debyg iawn i'r geiriau teg a ddefnyddir yng ngwelliannau'r Llywodraeth—bydd yr effaith net yr un fath. Yr ydym yn debygol o weld dychwelyd at amodau'r 1990au cynnar, pan gafodd perchnogion tai ar hyd a lled y wlad eu

property ladder.

I hope that the Assembly, in supporting this motion, even if the Government insists on amending it, as it will, can express its concern to the UK Government, the Chancellor of the Exchequer and the Prime Minister that even this package that has been cobbled together at the last moment will not help those who will be severely affected by last year's budget. That is particularly true of those who are on low incomes, and some of the poorest in our society.

William Graham: The Deputy Presiding Officer has selected five amendments to the motion. I call on the Deputy First Minister and Minister for the Economy and Transport to formally move amendments 1, 2 and 4, tabled in the name of Carwyn Jones.

The Deputy First Minister and Minister for the Economy and Transport (Ieuan Wyn Jones): I propose the following amendments in the name of Carwyn Jones. Amendment 1: in point 1(a) replace 'doubling' with 'abolishing'.

Amendment 2: in point 1(b) delete 'spiralling'.

Amendment 4: in point 2 replace 'these will have an' with 'that action will be required to address any'.

David Melding: I propose the following amendments in the name of William Graham. Amendment 3: add a new sub-point at the end of point 1:

the declaration by the international monetary fund that, judged by the size of the UK economy, our banking system is the most exposed to low quality sub-prime lending in the world.

Amendment 5: add as a new point at the end of the motion:

notes with concern that any economic downturn will impact particularly severely on the economically inactive.

gwthio i mewn i ecwiti negyddol, a phan na allai pobl nad oeddent yn berchen ar dŷ gael troed ar yr ysgol eiddo.

Gobeithio y gall y Cynulliad, wrth gefnogi'r cynnig hwn, hyd yn oed os yw'r Llywodraeth yn mynnu ei ddiwygio, fel y gwnaiff, fynegi ei bryder wrth Lywodraeth y Deyrnas Unedig, Canghellor y Trysorlys a'r Prif Weinidog na fydd hyd yn oed y pecyn hwn, sydd wedi'i daflu at ei gilydd ar y funud olaf, yn helpu'r rhai y bydd cyllideb y llynedd yn effeithio'n ddifrifol arnynt. Mae hynny'n arbennig o wir am bobl sydd ar incwm isel, a rhai o'r bobl dlotaf yn ein cymdeithas.

William Graham: Mae'r Dirprwy Lywydd wedi dewis pum gwelliant i'r cynnig. Galwaf ar y Dirprwy Brif Weinidog a'r Gweinidog dros yr Economi a Thrafnidiaeth i gynnig yn ffurfiol welliannau 1, 2 a 4, a gyflwynwyd yn enw Carwyn Jones.

Y Dirprwy Brif Weinidog a'r Gweinidog dros yr Economi a Thrafnidiaeth (Ieuan Wyn Jones): Cynigaf y gwelliannau canlynol yn enw Carwyn Jones. Gwelliant 1: ym mhwynt 1(a), yn lle 'dyblu'r' rhoi 'diddymu'r'.

Gwelliant 2: ym mhwynt 1(b), dileu 'cynyddol'.

Gwelliant 4: ym mhwynt 2, yn lle 'bydd y rhain yn cael' rhoi 'bydd angen cymryd camau i fynd i'r afael â'r'.

David Melding: Cynigaf y gwelliannau canlynol yn enw William Graham. Gwelliant 3: ychwanegu is-bwynt newydd ar ddiwedd pwynt 1:

y datganiad gan y gronfa ariannol ryngwladol mai ein system bancio ni, o'i barnu yn ôl maint economi'r DU, yw'r system fwyaf agored yn y byd i fenthyg ar gyfradd sy'n uwch na'r brif gyfradd.

Gwelliant 5: ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:

yn nodi â phryder y bydd unrhyw ddirywiad economaidd yn effeithio'n arbennig o ddifrifol ar bobl economaidd anweithgar.

The Liberal Democrats are right to propose this topic for debate, even though it looks at the wider picture, much of which cannot be determined here in the Assembly. However, I wish to put my remarks in the context of what we can do in the Assembly, and how we see the Welsh economy becoming a stronger economy.

I will first get in my criticisms of the Labour Party's approach to economic matters. It was always hubristic of Labour to say that it had ended the boom-bust cycle of, presumably, the previous Conservative administration, as though the trade cycle had suddenly been abolished because a Labour Government was in office, and we would not be subjected to world recessions periodically. These wider forces do impinge on the British and the Welsh economies, and we are now seeing this remarkable situation in which forces pretty much in the United States are having such a significant albeit lesser effect on Britain, Europe, and the emerging economies of India and China—and we should celebrate the fact that those economies are getting stronger—and are impacting on commodity prices, for instance.

I think that the abolishment of the 10p income tax rate was motivated by the Chancellor's desire last year—Gordon Brown's swansong budget—to cut the basic rate of tax from 22 to 20 per cent, and therefore the introductory 10 per cent rate had to be abolished. That looked good at the time. People thought of the rate as going down by 2p in the pound. However, it completely overlooked that portion of—and let us not euphemise—poor people, who earn enough to pay tax, but will now, instead of paying tax at a rate of 10p per pound, as Peter Black correctly says, will pay it at a rate of 20p. Therefore, their tax burden will double.

If a Government has money to spare, and can therefore afford to make tax cuts, it should look at the personal allowance. Everyone who pays tax gets a personal allowance, and it means an awful lot to the poor. In a time of economic downturn, shifting some of the spending to people on relatively low incomes makes economic sense, because they spend in the economy and do not have much propensity to save, which can give a boost to

Mae'r Democratiaid Rhyddfrydol yn iawn i gynnig y pwnc hwn i'w drafod, er ei fod yn edrych ar y darlun ehangach ac er na ellir penderfynu llawer ohono yma yn y Cynulliad. Fodd bynnag, hoffwn osod fy sylwadau yng nghyd-destun yr hyn y gallwn ei wneud yn y Cynulliad, a sut y gwelwn economi Cymru'n tyfu'n economi gryfach.

Yn gyntaf, manteisiaf ar y cyfle i feirniadu agwedd y Blaid Lafur at faterion economaidd. O'r cychwyn cyntaf, rhyfygus oedd i Lafur ddweud ei bod wedi rhoi terfyn ar gylch ffyniant a methiant y weinyddiaeth Geidwadol flaenorol, mae'n debyg, fel petai'r cylch masnach yn sydyn wedi'i ddiddymu oherwydd bod Llywodraeth Lafur mewn grym, ac na fyddem yn dioddef dirwasgiad byd-eang o bryd i bryd. Y mae'r grymoedd ehangach hyn yn taro ar economïau Prydain a Chymru, ac yn awr gwelwn y sefyllfa hynod hon lle mae grymoedd yn yr Unol Daleithiau ar y cyfan yn cael effaith mor sylweddol, er yn llai, ar Brydain, Ewrop ac economïau datblygol India a Tsieina—a dylem ddathlu'r ffaith fod yr economïau hynny'n tyfu'n gryfach—ac yn effeithio ar brisiau nwyddau, er enghraifft.

Credaf fod diddymu'r gyfradd dreth incwm 10c swedi ei ysgogi gan awydd y Canghellor y llynedd—cyllideb ffarfél Gordon Brown—i gwtogi cyfradd sylfaenol treth incwm o 22 i 20 y cant, ac felly ei bod yn rhaid diddymu'r gyfradd 10 y cant gyflwyniadol. Edrychai hynny'n dda ar y pryd. Ym meddyliau pobl, byddai'r gyfradd yn gostwng 2c yn y bunt. Fodd bynnag, yr oedd yn diystyru'n llwyr y gyfran honno o bobl dlawd—a pheidiwn â defnyddio geiriau teg—sy'n ennill digon i dalu treth ond a fydd bellach, yn lle talu treth ar gyfradd o 10c yn y bunt, fel y dywed Peter Black yn gwbl gywir, yn ei thalu ar gyfradd o 20c. Felly, bydd eu baich treth yn dyblu.

Os oes gan Lywodraeth arian dros ben, ac os yw felly'n gallu fforddio cwtogi trethi, dylai edrych ar y lwfans personol. Mae pawb sy'n talu treth yn cael lwfans personol, ac mae'n golygu peth wmbredd i'r tlodion. Mewn adeg o ddirywiad economaidd, mae symud rhywfaint o'r gwariant i bobl ar incwm cymharol isel yn gwneud synnwyr economaidd, oherwydd maent yn gwario yn yr economi ac nid ydynt yn dueddol iawn o

the economic cycle.

However, be that as it may, our economic indicators are mixed. They are not all bad, but some are a real cause for concern: economic activity rates were down 1.1 per cent last year; our exports fell by more than 4 per cent last year; our gross value added is still the lowest in the UK; and our VAT registrations run at about three quarters the rate of the English average. These all indicate that we are a relatively poor economy compared with the rest of the UK, and not just England.

However, it is also necessary to look to the future. To return to my earlier point, we should celebrate the fact that Asian economies are booming, particularly China, and that we are seeing robust economic growth in India. Let us hope that more of that is transferred to Africa.

3.30 p.m.

We are seeing the Brazilian economy increase very productively at the moment. This should create a world economy that is stronger and contains more opportunities for Wales in the future. We should not be too backward-looking, but there are some things that we need to do if we are to be able to prosper in the world economy as it will be. The world economy will look very different in the twenty-first century from what it was even 10 years or so ago. First, we need a larger private sector. At the moment, we rely far too much on the public sector to drive our national wealth. I do not want to be disparaging about that, as I want a healthy, innovative public sector, but we must see the private sector grow, particularly small and medium-sized enterprises, if we are to take advantages of the new opportunities presented in the world economy.

I will say a little about manufacturing. There has been a very severe decline in manufacturing. There was also a decline for a time in the 1980s, but the decline that we have seen in the past 10 years equals that—in fact, it is a bit greater. It is time to talk up the manufacturing sector. High-value

gynilo, a gall hynny roi hwb i'r cylch economaidd.

Fodd bynnag, boed hynny fel y bo, mae ein dangosyddion economaidd yn gymysg. Nid ydynt yn ddrwg i gyd, ond mae rhai yn achosi pryder go iawn: yr oedd cyfraddau gweithgarwch economaidd i lawr 1.1 y cant y llynedd; gostyngodd ein hallforion dros 4 y cant y llynedd; mae ein gwerth ychwanegol crynswth yn dal yr isaf yn y Deyrnas Unedig; ac mae ein cofrestriadau TAW oddeutu tri chwarter cyfartaledd Lloegr. Mae'r rhain i gyd yn arwyddion bod ein heconomi yn lled dlawd o'i chymharu â gweddill y DU, ac nid Lloegr yn unig.

Fodd bynnag, mae angen edrych i'r dyfodol hefyd. I ddychwelyd at fy mhwynt cynharach, dylem ddathlu'r ffaith fod economïau Asia yn ffynnu, yn enwedig Tsieina, a'n bod yn gweld twf economaidd cadarn yn India. Gadewch inni obeithio y caiff rhagor o hynny ei drosglwyddo i Affrica.

Yr ydym yn gweld economi Brasil yn cynyddu'n gynhyrchiol iawn ar hyn o bryd. Dylai hyn greu economi byd sy'n gryfach ac sy'n cynnwys mwy o gyfleoedd i Gymru yn y dyfodol. Ni ddylem edrych i'r gorffennol yn ormodol, ond mae rhai pethau y mae angen inni eu gwneud er mwyn gallu ffynnu yn economi'r byd fel y bydd. Bydd golwg wahanol iawn ar economi'r byd yn yr unfed ganrif ar hugain i'r hyn ydoedd hyd yn oed ryw 10 mlynedd yn ôl. Yn gyntaf, mae arnom angen sector preifat mwy. Ar hyn o bryd yr ydym yn dibynnu gormod o lawer ar y sector cyhoeddus i sbarduno'n cyfoeth cenedlaethol. Nid wyf am ddiffrïo hynny, gan fy mod am gael sector cyhoeddus iach, arloesol, ond rhaid inni weld y sector preifat yn tyfu, yn enwedig mentrau bychain a chanolig eu maint, er mwyn manteisio ar y cyfleoedd newydd a gynigir yn economi'r byd.

Dywedaf ychydig am weithgynhyrchu. Mae gweithgynhyrchu wedi dirywio'n ddifrifol iawn. Gwelwyd dirywiad hefyd am gyfnod yn yr 1980au, ond mae'r dirywiad yr ydym wedi'i weld yn y 10 mlynedd diwethaf gynddrwg â hynny—a dweud y gwir, mae fymryn yn waeth. Mae'n bryd sôn yn

manufacturing still has to be part of a broad, healthy economy, and I would like to see the Government spend a bit more time on that. I am getting the look from the acting Deputy Presiding Officer now, which means that my time is up, and I will not be able to cover the other points. However, if the Government is looking at these new opportunities and not denying the world economy as it is now emerging, but learning lessons, where it is constructive, it will get our support.

Jenny Randerson: It is important that we remember that the 10p tax rate abolition is a result of what was initially written to be a populist budget. It was, as David Melding has just said, Gordon Brown's swansong, and, for all of 24 hours, he basked in the glory. That was until Vince Cable stood up in the House of Commons and pointed out that abolishing the 10p tax rate would not be compensated for by the 2p reduction in the income tax rate that the rest of us have benefited from, and that it would be the very poorest people who would suffer—those people who are in work, but who are on very low wages. Out of this attempt to buy a little short-term popularity comes all this grief. It is important to remember that virtually every Labour MP voted for that last year, including the people who have, belatedly, been standing up to the Prime Minister and the Chancellor of the Exchequer in the last few days. It is another example of how Labour has increased our taxes by stealth. However, this one is slightly different because it really is Robin Hood in reverse. It is Labour stealing from the poor to give to the rich on this occasion; to be fair to Labour, previous initiatives, although sometimes not very elegant or effective, have not been designed to do that. My colleague, Peter Black, outlined in considerable detail the ways in which the Chancellor of the Exchequer has now said he will try to plug the gap and deal with the problems that the abolition of the 10p tax rate has caused by making changes to the winter fuel allowance, the working tax credit system and to the minimum wage. However, none of those will cover all the people who are affected, particularly those aged over 25 and those who are above the minimum wage. Remember, if you earn the maximum level of minimum wage, if I can put it that way, you

gadarnhaol am y sector gweithgynhyrchu. Rhaid i weithgynhyrchu uchel ei werth fod yn rhan o hyd o economi eang, iach, a hoffwn weld y Llywodraeth yn treulio ychydig mwy o amser ar hynny. Mae'r Dirprwy Lywydd yn gwgu arnaf yn awr, sy'n golygu bod fy amser ar ben ac na fyddaf yn gallu sôn am y pwyntiau eraill. Fodd bynnag, os yw'r Llywodraeth yn edrych ar y cyfleoedd newydd hyn, nid yn gwadu economi'r byd fel y mae'n egino yn awr, ond yn dysgu gwersi, os yw'n adeiladol, fe'i cefnogwn.

Jenny Randerson: Mae'n bwysig inni gofio bod dileu'r gyfradd dreth 10c yn ganlyniad i'r hyn a ysgrifennwyd yn wreiddiol i fod yn gyllideb i'r bobl. Fel y mae David Melding newydd ei ddweud, cân ffarwel Gordon Brown oedd hi, ac am 24 awr gyfan bu'n ymhyfrydu yn y clod. Daeth hynny i ben pan safodd Vince Cable ar ei draed yn Nhŷ'r Cyffredin a thynnu sylw at y ffaith na fyddai gostwng y gyfradd dreth incwm 2c, gostyngiad y mae'r gweddill ohonom wedi elwa ohono, yn gwneud iawn am ddileu'r gyfradd dreth 10c. ac mai'r bobl dlotaf a fyddai'n dioddef—y bobl hynny sy'n gweithio ond sy'n ennill cyflogau isel iawn. Yr ymgais hon i brynu mymryn o boblogrwydd tymor byr oedd gwraidd yr holl drafferth hon. Mae'n bwysig cofio bod bron pob AS Llafur wedi pleidleisio dros hynny y llynedd, gan gynnwys y bobl sydd, yn rhy hwyr, wedi bod yn herio'r Prif Weinidog a Changhellor y Trysorlys yn ystod yr ychydig ddiwrnodau diwethaf. Dyna enghraifft arall o'r ffordd y mae Llafur wedi cynyddu ein trethi'n llechwraidd. Fodd bynnag, mae hon fymryn yn wahanol oherwydd mewn gwirionedd dyma ichi Twm Siôn Cati i'r gwrthwyneb. Dyma Llafur yn dwyn oddi ar y tlawd i'w roi i'r cyfoethog y tro hwn; a bod yn deg â Llafur, nid bwriad eu cynlluniau blaenorol oedd gwneud hynny, er nad oeddent bob amser yn gain nac yn effeithiol iawn. Soniodd fy nghyd-Aelod, Peter Black, yn fanwl iawn am y dulliau y mae Canghellor y Trysorlys wedi dweud yn awr y bydd yn eu defnyddio i geisio llenwi'r bwlch ac ymdrin â'r problemau y mae dileu'r gyfradd dreth 10c wedi'u hachosi, drwy newid y lwfans tanwydd gaeaf, y system credydau treth gwaith, a'r lleiafswm cyflog. Fodd bynnag, ni fydd yr un o'r rhain yn cynnwys yr holl bobl yr effeithir arnynt, yn enwedig y rheini dros

earn under £11,000 a year. Therefore, a lot of people are still caught in the middle and a complex maze of actions are now coming out of something that was designed to simplify.

The First Minister last week attempted to justify his free-for-all policies by saying that they were designed to make work pay and help those people who were just coming out of the benefit system and were on the lowest wage levels. He said that he had listened and heard. Well, First Minister—I hope that you are listening somewhere, as you are not here—with friends like Gordon, who needs enemies?

The Prime Minister, in his final budget as Chancellor of the Exchequer, undermined entirely the idea of trying to encourage people to get off welfare and back into work. In a last-gasp attempt to appease its own backbenchers, the Government has cobbled together its half-promises. Even those will not be introduced for the next six months. Although they will be backdated, we have no idea as to the detail of how these will affect people. The Prime Minister is desperately shifting in the wind to try to avert political meltdown next week and in the months to come. I have a message for him, having canvassed on doorsteps across Wales quite a lot: it will not impress those who are affected, because they are just the people who desperately need the money now, not the promise of money tomorrow or in six months' time. The Government is fatally flawed below the waterline. I have a vision of Alistair Darling desperately paddling around beneath the surface trying to plug the hole with a few corks from his store of No. 11 wine bottles. The promises of the Prime Minister and the Chancellor will be just as effective as that image suggests.

Alun Ffred Jones: I am still trying to deal with that image of Alistair Darling paddling beneath the water.

I cannot disagree with the tenor of this

25 oed a'r rheini sy'n ennill mwy na'r lleiafswm cyflog. Cofiwch, os ydych yn ennill lefel uchaf bosibl y lleiafswm cyflog, os caf ei fynegi felly, yr ydych yn ennill llai na £11,000 y flwyddyn. Felly, mae llawer o bobl wedi'u dal yn y canol o hyd, ac yn lle'r hyn a oedd i fod i symleiddio pethau, mae gennym bellach ddrysfa gymhleth o gamau.

Yr wythnos diwethaf ceisiodd Prif Weinidog Cymru gyfiawnhau anhrefn ei bolisiâu drwy ddweud mai eu bwriad oedd sicrhau bod gwaith yn talu ac i gynorthwyo'r bobl hynny a oedd wrthi'n ymadael â'r system budd-daliadau ac yn ennill y cyflogau isaf. Dywedodd ei fod wedi gwrando ac wedi clywed. Wel, Brif Weinidog Cymru—gobeithio eich bod yn gwrando rywle, gan nad ydych yma—gyda ffrindiau fel Gordon, go brin fod angen gelynyion arnoch.

Yn ei gyllideb olaf fel Canghellor y Trysorlys, yr oedd y Prif Weinidog yn tanseilio'n llwyr y syniad o geisio annog pobl i roi'r gorau i'w budd-daliadau lles a mynd yn ôl i'r gwaith. Mewn ymdrech funud olaf i dawelu ei meincwyr cefn ei hun, mae'r Llywodraeth wedi creu clytwaith o'i hanner addewidion. Ni fydd y rheini'n cael eu cyflwyno hyd yn oed am y chwe mis nesaf. Er y cânt eu hôl-ddyddio, nid oes gennym ddim manylion sut y bydd y rhain yn effeithio ar bobl. Mae'r Prif Weinidog yn troi a throsi'n wyllt yn y gwynt er mwyn ceisio osgoi chwalfa wleidyddol yr wythnos nesaf ac yn y misoedd i ddod. Mae gennyf neges iddo, ar ôl canfasio gryn dipyn wrthm ddrysau tai ledled Cymru: ni fydd yn gwneud argraff ar y bobl yr effeithir arnynt, oherwydd dyma'r union bobl y mae arnynt angen dybryd am yr arian yn awr, nid addewid o arian yfory neu ymhen chwe mis. Mae gwendid mawr ar y Llywodraeth dan linell y dŵr. Mae gennyf ddarlun o Alistair Darling yn padlo'n wyllt o dan yr wyneb yn ceisio stwffio ambell gorcyn o storfa poteli gwin Rhif 11 i'r twll. Bydd addewidion y Prif Weinidog a'r Canghellor mor effeithiol ag y mae'r ddelwedd honno'n ei awgrymu.

Alun Ffred Jones: Yr wyf yn dal i geisio ymdopi â'r ddelwedd honno o Alistair Darling yn padlo dan y dŵr.

Ni allaf anghytuno â sylwedd y cynnig hwn,

motion, although there is something of the tales of the bleeding obvious about it. However, let us take the three points in order.

The abolition of the 10p income tax rate is pretty astounding. I am surprised that Gordon Brown got himself into this unholy mess, because I think that he is genuinely committed to helping poorer people in society. Therefore, how he managed to do this in his last budget beats me. I am delighted that he has finally made a u-turn and now seems prepared to help those who were abandoned when this was introduced last year. However, this desperate retreat surprises me as he said that he would not back down and that the budget could not be rewritten. Something has changed, and it is obvious what has changed in the last few days. The rebels also confuse me in that this happened a year ago, and nothing has changed since then, except that I presume they met real people on the doorstep who have told them that this is simply unacceptable. Therefore, on the face of it, this change today is welcome, and it is to be welcomed on behalf of those who were severely affected. However, the changes are happening now; the people who are suffering as a result of this change are suffering now. It seems that, as Jenny Randerson quite rightly said, it will be some time before some of the schemes that have been alluded to will come into operation. It is incumbent upon the Government to address this issue as soon as possible. People on low incomes are feeling the pinch from this tax change at this very moment. It seems to be a case of too little, too late. However, that remains to be seen.

3.40 p.m.

The issue of the spiralling consumer debt is a well-known fact. A great weakness of the British economy is that we have depended—over the past 15 years or so—on consumer spending and spiralling house prices. The bubble had to burst, and it is bursting at this very moment. That is a fact of life and I am not sure what can be done about it in the short term. One of the practical things that

er ei fod yn dweud yr hyn sy'n amlwg braidd. Fodd bynnag, gadewch inni gymryd y tri phwynt yn eu trefn.

Mae dileu'r gyfradd dreth incwm 10c yn eithaf syfrdanol. Synnaf fod Gordon Brown wedi ei gael ei hun yn y llanastr ofnadwy hwn, oherwydd credaf fod ganddo wir ymroddiad i gynorthwyo pobl dlotaf cymdeithas. Felly, ni allaf yn fy myw ddeall sut y llwyddodd i wneud hyn yn ei gyllideb olaf. Yr wyf wrth fy modd ei fod o'r diwedd wedi gwneud tro pedol a'i fod bellach, i bob golwg, yn barod i helpu'r rhai a amddifadwyd pan gyflwynwyd hyn y llynedd. Fodd bynnag, mae'r encilio gwyllt hwn yn fy synnu gan ei fod wedi dweud na fyddai'n ildio ac na ellid ailysgrifennu'r gyllideb. Mae rhywbeth wedi newid, ac mae'n amlwg beth sydd wedi newid yn ystod yr ychydig ddiwrnodau diwethaf. Mae'r gwrthryfelwyr yn fy nrysu hefyd gan fod hyn wedi digwydd flwyddyn yn ôl, ac nad oes dim wedi newid ers hynny, ac eithrio fy mod yn tybio'u bod wedi cyfarfod â phobl go iawn wrth y drysau sydd wedi dweud wrthynt fod hyn yn gwbl annerbyniol. Felly, ar y wyneb, mae'r newid hwn heddiw i'w groesawu, ac mae i'w groesawu ar ran y rheini yr effeithiwyd arnynt yn ddifrifol. Fodd bynnag, mae'r newidiadau'n digwydd yn awr; mae'r bobl sy'n dioddef yn sgil y newid hwn yn dioddef yn awr. Mae'n ymddangos, ac yr oedd Jenny Randerson yn llygad ei lle, na fydd rhai o'r cynlluniau y cyfeiriwyd atynt eu yn cael eu rhoi ar waith am gryn amser. Mae'n ddyletswydd ar y Llywodraeth i fynd i'r afael â'r mater hwn cyn gynted ag y bo modd. Mae pobl ar incwm isel yn teimlo'r wasgfa oherwydd y newid hwn yn y dreth ar yr union foment hon. I bob golwg, enghraifft yw hyn o ry ychydig yn rhy hwyr. Fodd bynnag, cawn weld.

Mae'n ffaith hysbys fod dyled defnyddwyr ar gynydd o hyd. Un o wendidau mawr economi Prydain yw ein bod wedi dibynnu—dros y 15 mlynedd diwethaf—ar wariant defnyddwyr a phrisiau tai'n codi. Yr oedd yn rhaid i'r swigen dorri, ac mae'n torri ar yr union foment hon. Mae hynny'n un o ffeithiau bywyd ac nid wyf yn siŵr beth y gellir ei wneud ynglŷn ag ef yn y tymor byr.

could be done to help the poorer people in society—those who are really feeling the pinch—would be to help those agencies that are already working in the field, helping those very people. One such agency is Citizens Advice. Debt is the single biggest issue that citizens advice bureaux deal with day in, day out, and week in, week out. Their staff are experts in this field and have the knowledge and experience to offer practical advice to those caught in serious debt. We know the consequences for families that are caught up in this terrible spiral. The Government—even the Government here, in Cardiff—might be able to strengthen the hand of Citizens Advice. Instead of talking in generalities about the awfulness of the situation, strengthening the hand of Citizens Advice and giving it the opportunity to operate in areas where it is not operating at the moment, especially in the poorer communities of Wales, could be done within a matter of months.

Lastly, there is mention of the credit crunch, but I am not sure whether the credit crunch, as such, will affect the poorer people in society, because they are not the ones who usually go to the banks for money. However, one decision that has already been taken by the One Wales Government was to abolish the internal market in the health service and to do away with private finance initiatives. There is no doubt that, in coming years, PFI schemes will become increasingly expensive and a millstone around the neck of the public. In that sense, at least, I think that the One Wales Government has taken a positive step in the right direction. I will conclude with those remarks. I hope that the Westminster Government will have the good sense to move quickly to try to address the issue of those who have been so badly affected by the doubling of the 10p tax rate.

Eleanor Burnham: The political own goal that has been scored is quite unbelievable. I was lucky enough to hold a short debate on child poverty last week. It was particularly topical, in view of what has happened since. I do not believe that people who have just seen their tax rate doubled are likely to be comforted by the assurance that the Government is going to tinker with what has

Un o'r pethau ymarferol y gellid ei wneud i gynorthwyo pobl dlotaf cymdeithas—y rheini sydd yn wir yn teimlo'r wasgfa—fyddai cynorthwyo'r asiantaethau hynny sydd eisoes yn gweithio yn y maes, yn rhoi cymorth i'r union bobl hynny. Un asiantaeth o'r fath yw Cyngor ar Bopeth. Dyled yw'r un broblem fwyaf y bydd canolfannau cyngor ar bopeth yn ymdrin â hi bob dydd, bob wythnos. Mae eu staff yn arbenigwyr yn y maes hwn ac mae ganddynt y wybodaeth a'r profiad i gynnig cyngor ymarferol i'r rheini sdd wedi eu dal mewn dyled ddifrifol. Gwyddom beth yw'r canlyniadau i deuluoedd sy'n cael eu dal yn y cylch ofnadwy hwn. Gallai'r Llywodraeth—hyd yn oed y Llywodraeth yma, yng Nghaerdydd—gryfhau llaw Cyngor ar Bopeth. Yn hytrach na siarad yn gyffredinol mor ofnadwy yw'r sefyllfa, gellid cryfhau llaw Cyngor ar Bopeth a rhoi'r cyfle iddo weithio mewn ardaloedd lle nad yw'n gweithio ar hyn o bryd, yn enwedig yng nghymunedau tlotaf Cymru, a hynny ymhen ychydig fisoedd.

Yn olaf, sonnir am y wasgfa greddyd, ond nid wyf yn siŵr a fydd y wasgfa greddyd yn effeithio felly ar bobl dlotaf cymdeithas, oherwydd nid hwy gan amlaf sy'n mynd at y banciau am arian. Fodd bynnag, un penderfyniad sydd wedi'i wneud eisoes gan Lywodraeth Cymru'n Un oedd dileu'r farchnad fewnol yn y gwasanaeth iechyd a dileu mentrau cyllid preifat. Nid oes amheuaeth o gwbl, mewn blynyddoedd i ddod, na fydd cynlluniau PFI yn fwyfwy drud ac yn faen melin am wddf y cyhoedd. Yn yr ystyr hwnnw, o leiaf, credaf fod Llywodraeth Cymru'n Un wedi cymryd cam cadarnhaol i'r cyfeiriad iawn. Caeaf ben y mwdwl gyda'r sylwadau hynny. Gobeithio y bydd Llywodraeth San Steffan yn ddigon call i symud yn gyflym i geisio mynd i'r afael â phroblem y rheini sydd wedi dioddef mor wael oherwydd dyblu'r gyfradd dreth 10c.

Eleanor Burnham: Mae'r gôl wleidyddol y maent wedi'i sgorio yn eu rhwyd eu hunain yn hollol anghredadwy. Yr oeddwn yn ddigon ffodus i gynnal dadl fer am dlodi plant yr wythnos diwethaf. Yr oedd yn arbennig o amserol o gofio'r hyn sydd wedi digwydd ers hynny. Ni chredaf fod pobl sydd newydd weld eu cyfradd dreth yn dyblu yn debygol o gael cysur o glywed bod y

already been described as an overly complex and failing tax system. Whenever there is a budget, I am always intrigued by the various attitudes and opinions of august economists and those who work in this field because, most of the time, they do not really understand the system and I think that that, in itself, is a problem. Many people who have been given tax credits have had them clawed back and are now in a worse mess. That is another example of a Labour Government failure and, quite frankly, I am not sure how much worse it can get for people.

When you talk to people on their doorsteps, they are extremely concerned about the spiralling costs of living, spiralling council tax and the spiralling debt that a lot of them have got into for various reasons. It is incredible to think that youngsters who are graduates have an almost-mortgage-sized debt before they apply for a mortgage. I am told that the average debt for a graduate is now £11,000, but I think that that figure is probably low, given my own experience as a parent. I know that my children graduated with around £14,000 or £15,000-worth of debts. With the best will in the world, by the time that they have used their cards to buy necessities, such as books, depending on what courses they are doing, it all adds up. It is an impossible situation.

Basically, I do not understand where the Labour Party has been during the last 10 years. How can Gordon Brown have been so wrong-footed? I just do not understand it. He must have thought that he was getting some easy headlines. I feel quite speechless about the whole thing, other than to say that this is a tragedy—[*Interruption.*] Thank you.

The poor are now paying double the tax rate. We have to be straight about that. Many people already cannot afford to buy a house, but there are also many who cannot even afford a place to live. The cost of living is spiralling out of control, as is the price of food. To take out a mortgage, you have to have a deposit, and then you have to be able to secure a mortgage that can often be six

Llywodraeth yn bwriadu potsian â'r hyn sydd wedi'i ddisgrifio eisoes yn system dreth gorgymhleth sy'n methu. Bob tro pan fydd cyllideb byddaf yn rhyfeddu at amrywiol agweddau a safbwyntiau economegwyr o fri a'r rheini sy'n gweithio yn y maes hwn, oherwydd gan amlaf nid ydynt yn wir yn deall y system, a chredaf fod hynny'n broblem ynddi'i hun. Mae llawer o bobl sydd wedi cael credydau treth wedi'u gweld yn cael eu cymryd yn ôl ac maent yn awr mewn gwaeth llanastr. Dyna enghraifft arall o fethiant Llywodraeth Lafur, ac i fod yn gwbl blaen nid wyf yn siŵr faint y gall pethau waethygu i bobl.

Wrth ichi siarad â phobl wrth eu drysau, maent yn eithriadol o bryderus fod costau byw'n cynyddu o hyd, bod y dreth gyngor yn cynyddu, ac yn poeni am y dyledion cynyddol sy'n wynebu llawer ohonynt am wahanol resymau. Mae'n rhyfeddol meddwl bod pobl ifanc sy'n graddio yn wynebu dyled sydd bron cymaint â morgais, a hynny cyn iddynt wneud cais am forgais. Caf ar ddeall mai'r ddyled ar gyfartaledd sydd gan raddedigion erbyn hyn yw £11,000, ond credaf fod y ffigur hwnnw, mae'n debyg, yn isel o'm profiad i fy hun fel rhiant. Gwn fod fy mhiant wedi graddio gyda dyledion o £14,000 neu £15,000. Gyda'r ewyllys gorau yn y byd, erbyn iddynt ddefnyddio'u cardiau i brynu pethau angenrheidiol, megis llyfrau, yn ôl pa gyrsiau y maent yn eu dilyn, mae'r cyfan yn cronni. Mae'n sefyllfa amhosibl.

Yn y bôn, nid wyf yn deall ymhle y mae'r Blaid Lafur wedi bod yn ystod y 10 mlynedd diwethaf. Sut y gallai Gordon Brown fod wedi cael ei ddal fel hyn? Nid wyf yn ei ddeall o gwbl. Mae'n rhaid ei fod wedi meddwl ei fod yn cael sylw rhwydd yn y penawdau. Yr wyf yn rhyfeddu at yr holl beth, a'r unig beth y gallaf ei ddweud yw bod hyn yn drasiedi—[*Torri ar draws.*] Diolch.

Mae'r tlawd yn awr yn talu dwbl y gyfradd dreth. Rhaid inni fod yn glir ynghylch hynny. Mae nifer o bobl eisoes yn methu fforddio prynu tŷ, ond mae yna lawer hefyd nad ydynt hyd yn oed yn gallu fforddio lle i fyw. Mae costau byw yn cynyddu y tu hwnt i reolaeth, fel y mae pris bwyd. Er mwyn cael morgais, rhaid ichi gael blaendal, ac yna rhaid ichi allu sicrhau morgais sydd yn aml chwe gwaith

times your income. It just goes on and on. It is difficult to understand how the Labour Party has been caught napping on this issue.

I am sure that Alun Ffred is right about the Citizens Advice, but we all know that it is under terrible strain. Many bureaux have been shut or short-changed. In many bureaux, people are working hard to help the poor, but they cannot open when they are needed. Curtailing Citizens Advice is another own goal.

How will the Labour Government get us out of this mess? I worry because domestic debt for the UK is so incomprehensibly huge that I do not understand how people will get out of this situation. I just hope that, in our own little way, we can raise people's awareness of spiralling consumer debt, credit crunch issues, the abolition of the 10p income tax rate, and the concern that we have. I hope that the Labour Party, even though it does not feel that it can do much, can at least bring some pressure to bear on Gordon Brown and Alistair Darling. Quite frankly, on 1 May, people will hopefully understand and vote accordingly.

Mark Isherwood: After 15 years of economic growth, there should be plenty of money left in the coffers to prop up the economy during harder times. However, there is not. The UK has the largest structural budget deficit in Europe, because Gordon Brown borrowed in a boom when he should have saved, and he spent all the money inflating an unsustainable boom. Britain is now poorly prepared for any possible economic downturn, and Wales is least prepared of all. With 60 per cent of our economy in the public sector, Wales is particularly vulnerable as the cuts start to bite. Even banks, as we heard, are finding it difficult to borrow from other banks. The economic environment has allowed consumers to borrow cheaply, remortgage quickly and run up large debts as changed and tougher times lie ahead.

eich incwm. Ac felly ymlaen ac ymlaen. Mae'n anodd deall sut y cafodd y Blaid Lafur ei dal yn hepian ar y mater hwn.

Yr wyf yn siŵr fod Alun Ffred yn iawn ynglŷn â Chyngor Ar Bopeth, ond gwyddom i gyd ei fod dan straen aruthrol. Mae llawer o'r canolfannau wedi eu cau neu mae eu horiau wedi eu cwtogi. Mewn llawer canolfan mae pobl yn gweithio'n galed i helpu'r tlodion, ond ni allant agor pan fydd eu hangen. Mae cwtogi ar Gyngor Ar Bopeth yn bêl arall yn eich rhwyd eich hunain.

Sut y mae'r Llywodraeth Lafur yn mynd i'n cael ni allan o'r llanastr hwn? Yr wyf yn poeni bod dyledion domestig yn y DU mor annealladwy o enfawr fel nad wyf yn deall sut y bydd pobl yn dod allan o'r sefyllfa hon. Ni allaf ond gobeithio y gallwn ni, yn ein ffordd fach ein hunain, gynyddu ymwybyddiaeth pobl o'r cynnydd yn nyledion defnyddwyr, materion yn ymwneud â'r wasgfa greddyd, dileu'r gyfradd treth incwm 10c, a'r pryder sydd gennym ni. Gobeithio y gall y Blaid Lafur, er nad yw'n teimlo y gall wneud llawer, o leiaf ddwyn rhywfaint o bwysau ar Gordon Brown ac Alistair Darling. A bod yn gwbl onest, ar 1 Mai gobeithio y bydd pobl yn deall ac y byddant yn pleidleisio'n unol â hynny.

Mark Isherwood: Ar ôl 15 mlynedd o dwf economaidd, dylai fod digon o arian ar ôl yn y coffrau i gynnal yr economi yn ystod cyfnodau anos. Fodd bynnag, nid oes. Y Deyrnas Unedig sydd â'r diffyg strwythurol mwyaf ar ei chyllideb yn Ewrop, gan i Gordon Brown fenthyca mewn cyfnod o ffyniant pan ddylai fod wedi cynilo, a gwariodd yr arian i gyd i chwyddo ffyniant anghynaliadwy. Nid yw Prydain yn awr yn barod ar gyfer unrhyw ddirywiad economaidd posibl, ac mae Cymru'n llai parod na neb. Gyda 60 y cant o'n heconomi yn y sector cyhoeddus, mae Cymru'n neilltuol o agored i niwed wrth i'r toriadau ddechrau brathu. Mae hyd yn oed y banciau, fel y clywsom, yn ei chael hi'n anodd benthyca oddi wrth fanciau eraill. Mae'r amgylchedd economaidd wedi caniatáu i ddefnyddwyr fenthyca'n rhad, ailforgeisio'n gyflym a chronni dyledion mawr wrth i gyfnod newydd ac anos yn ein hwynebu.

I spent 22 years in the mortgage industry. We refused to weaken our lending criteria under competitive pressure from sub-prime lenders. Their antics, however, led to increasingly tough Government regulation. We had to document the fact that we had assessed our customers' ability to pay before accepting their application and making any recommendations about products. We were regulated by the Financial Services Authority. Thanks to cowboy lenders, the mainstream industry had to jump through hoops. Then, last month, the Financial Services Authority admitted that it failed to act on signals that Northern Rock was acting recklessly. What a cruel farce. Where was this Labour Government throughout this period? Things are now so bad that the International Monetary Fund has declared the UK's banking system to be the most exposed to low quality, sub-prime lending in the world. Most mortgage assets in the UK continue to perform well. However, one top-10 lender has already announced redundancies to a third of its workforce, and other lenders are withdrawing from the UK mortgage market.

Spiralling consumer debt now stands at over £1.4 billion, having increased £1 million every five minutes last year. Mortgage repossession orders in Wales increased by 14.5 per cent over the same period, compared with 4.7 per cent in England. PricewaterhouseCoopers has warned that the number of people going bust could rise this year, with a backlog of individual voluntary arrangements and with people building up credit card debt to try to cope with their debt repayments.

Wales suffers the greatest debt poverty in the United Kingdom. Citizens Advice saw a 10 per cent increase in client issues last year alone. Because our inflation was low, thanks in large part to the importation of deflation from an emerging Asia, anyone who raised concerns about imbalances in other areas was told to stop worrying, that the world had moved on. The massive inflation in asset prices was allowed to go unchecked. An economy built on debt is like living on

Treuliais 22 flynedd yn y diwydiant morgeisi. Gwrthodasom wanhau ein meini prawf benthyca o dan bwysau cystadleuol gan fenthycwyr sy'n benthyg ar gyfradd uwch na'r brif gyfradd. Fodd bynnag, arweiniodd eu campau hwy at reoleiddio cynyddol lymach gan y Llywodraeth. Yr oedd yn rhaid inni gofnodi'r ffaith ein bod wedi asesu gallu ein cwsmeriaid i dalu cyn derbyn eu cais a gwneud unrhyw argymhellion ynglŷn â chynnyrch. Caem ein rheoleiddio gan yr Awdurdod Gwasanaethau Ariannol. Diolch i'r benthycwyr diegwyddor, bu'n rhaid i'r diwydiant prif ffrwd fynd drwy'r felin. Yna, fis diwethaf, cyfaddefodd yr Awdurdod Gwasanaethau Ariannol nad oedd wedi gweithredu ar arwyddion fod Northern Rock yn bod yn fyrbwyll. Dyna ffars greulon. Beth oedd y Llywodraeth Lafur hon yn ei wneud gydol yr amser hwn? Mae pethau cynddrwg yn awr fel bod y Gronfa Arian Ryngwladol wedi dweud mai system fancio'r DU yw'r un fwyaf agored yn y byd i fenthycwyr ar gyfradd sy'n uwch na'r brif gyfradd. Mae'r rhan fwyaf o asedau ar forgais yn y DU yn dal i berfformio'n dda. Fodd bynnag, mae un o'r 10 prif fenthycwyr eisoes wedi cyhoeddi y bydd yn diswyddo traean o'i weithlu, ac mae benthycwyr eraill yn tynnu allan o farchnad forgeisi'r DU.

Erbyn hyn mae dyledion cynyddol defnyddwyr dros £1.4 biliwn, wedi cynyddu £1 miliwn bob pum munud y llynedd. Cynyddodd gorchmynion adfeddiannau morgeisi 14.5 y cant yng Nghymru dros yr un cyfnod, o'u cymharu â 4.7 y cant yn Lloegr. Mae PricewaterhouseCoopers wedi rhybuddio y gallai nifer y bobl sy'n mynd yn fethdalwyr gynyddu eleni, gyda achosion o drefniadau gwirfoddol unigol wedi ôl-gronni a phobl yn cronni dyledion ar gardiau credyd wrth geisio ymdopi â'u had-daliadau dyled.

Cymru syd â'r tlodi mwyaf ar ffurf dyledion yn y Deyrnas Unedig. Gwelodd Cyngor Ar Bopeth gynnydd o 10 y cant ym mhroblemau cleientiaid y llynedd yn unig. Gan fod ein chwyddiant ni'n isel, diolch i raddau helaeth i fewnforio dadchwyddiant o Asia wrth iddi ddatblygu, dywedwyd wrth unrhyw un a oedd yn mynegi pryderon am ddiffyg cydbwysedd mewn meysydd eraill am beidio â phoeni, fod y byd wedi symud ymlaen. Caniatwyd i'r chwyddiant enfawr ym

borrowed time, but warnings that growing consumer debt went hand in hand with asset inflation were ignored.

mhrisiau asedau fynd rhagddo heb ei gyfyngu. Mae economi wedi'i hadeiladu ar ddyled fel byw ar amser benthyg, ond anwybyddwyd rhybuddion fod dyledion defnyddwyr cynyddol yn mynd law yn llaw â chwyddiant asedau.

3.50 p.m.

Last week, the First Minister told us that, while news programmes are dominated by stories of the credit crunch and sub-prime lending, the really important story, as far as the Welsh economy is concerned, has gone largely unreported. Is he stating that the credit crunch will not affect the Welsh economy? Behind his self-congratulatory self-delusion, the reality is that, after 15 years of economic growth, more than 0.5 million working-aged people in Wales are not in work. Employment fell and economic inactivity rose over the past year, combining to make an unemployment total of 514,000 people in a population of less than 3 million. In 18 out of 22 Welsh local authorities, at least one in 10 people is claiming long-term benefits. Cynical policies devised to bury bad unemployment headlines in the language of success are contemptible.

Yr wythnos diwethaf, dywedodd y Prif Weinidog wrthym, tra oedd rhaglenni newyddion yn llawn storïau am y wasgfa gredyd a benthyca ar gyfradd uwch na'r brif gyfradd, nad oedd y stori wirioneddol bwysig, o ran economi Cymru, wedi cael fawr o sylw. A yw'n dweud na fydd y wasgfa gredyd yn effeithio ar economi Cymru? Y tu cefn i'w hunan-dwyll hunanglodforus, y realiti, ar ôl 15 mlynedd o dwf economaidd, yw nad yw 0.5 miliwn o bobl oed gweithio yng Nghymru mewn gwaith. Mae cyflogaeth wedi gostwng ac anweithgarwch economaidd wedi cynyddu dros y flwyddyn diwethaf, gan gyfuno i roi cyfanswm diweithdra o 514,000 o bobl mewn poblogaeth o lai na 3 miliwn. Mewn 18 o'r 22 awdurdod lleol yng Nghymru, mae o leiaf un person o bob 10 yn hawlio budd-daliadau tymor hir. Mae polisïau sinigaid a ddyfeisiwyd i gladdu penawdau newyddion drwg am ddiweithdra yn iaith llwyddiant i'w dirmygu.

Why have continental European countries, such as France, not been as hard hit as the UK by the credit crunch? Unlike the UK under Gordon Brown, France has not been floating economic growth on a sea of debt and turning a blind eye to the feeding frenzy among sub-prime lenders as they compete to build market share at the expense of their own financial stability and their customers' ability to pay.

Pam nad yw gwledydd ar gyfandir Ewrop, megis Ffrainc, wedi cael eu taro mor galed â'r DU gan y wasgfa gredyd? Yn wahanol i'r DU o dan Gordon Brown, nid yw Ffrainc wedi bod yn hwylio twf economaidd ar fôr o ddyled ac yn cau ei llygaid i'r gwanc ymysg benthycwyr sy'n benthyg ar gyfradd uwch na'r brif gyfradd, wrth iddynt gystadlu i adeiladu cyfran o'r farchnad ar draul eu sefydlogrwydd ariannol eu hunain a gallu eu cwsmeriaid i dalu.

Now, Labour has hit the poorest with the abolition of the 10p tax rate. As one constituent told me, 'I am on the minimum wage and I am now far worse off than I was before'. In the face of a backbench revolt, a weak and dithering Gordon Brown has now done a u-turn and conceded, in panic, that compensation will be provided. However, today, he could not even guarantee that all 5.3 million losers will be compensated.

Yn awr, mae Llafur wedi taro'r bobl dlotaf drwy ddileu'r gyfradd dreth 10c. Fel y dywedodd un etholwr wrthyf, 'Yr wyf ar yr isafswm cyflog ac yn llawer gwaeth fy myd yn awr nag oeddwn gynt'. Yn wyneb gwrthryfel meinciau cefn, mae Gordon Brown gwan ac ansicr wedi gwneud tro pedol ac wedi cydsynio, mewn panig, i ddigolledu pobl. Fodd bynnag, heddiw ni allai hyd yn oed warantu y byddai pawb o'r 5.3 miliwn o bobl a fydd ar eu colled yn cael eu digolledu.

In 1997, Labour inherited inward investment second only to that in the US internationally—

William Graham: Mark, your time is up. I call on the Deputy First Minister.

Y Dirprwy Brif Weinidog: Diolch, Lywydd gweithredol. Llongyfarchiadau ar y ffordd yr ydych wedi llywio'r drafodaeth y prynhawn yma.

I must confess that, in listening to the debate today, I felt that I was in a bit of a time warp. I gave up my seat in Westminster as a Member of Parliament in 2001, but today it was as though I had never been away. All of the contributions, apart from those from David Melding and Alun Ffred, concentrated on issues over which the Assembly has absolutely no control. I am surprised at the wording of the motion—I will come to that in a second—but I was extremely surprised at the poor effort Peter made in trying to defend against the Government amendments, which at least tried to give the impression that there was something that could be done about the situation we are facing with regard to the global crisis. Frankly, it seems that the Liberal Democrats have done little other than grandstanding today.

The motion is entirely negative and gives no indication of what anyone can do to solve the crisis in which we now find ourselves. Rather than a seat in the Assembly, Peter Black deserves a place on the Liberal Democrat frontbench in Westminster for that speech.

*Daeth y Dirprwy Lywydd (Rosemary Butler) i'r Gadair am 3.53 p.m.
The Deputy Presiding Officer (Rosemary Butler) took the Chair at 3.53 p.m.*

Peter Black: Are you speaking on behalf of the Welsh Assembly Government or the Westminster Government led by Gordon Brown?

The Deputy First Minister: I think that it is pretty obvious on whose behalf I am speaking. Let me clarify this gently. Point 2 of your motion simply tells us that all these matters—doubling the 10p income tax rate;

Yn 1997, etifeddodd Llafur fewnfuddsoddi a oedd yn ail yn rhyngwladol i'r mewnfuddsoddi i'r UD—

William Graham: Mark, mae eich amser ar ben. Galwaf ar y Dirprwy Brif Weinidog.

The Deputy First Minister: Thank you, acting Presiding Officer. Congratulations on the way in which you have steered the debate today.

Rhaid imi gyfaddef fy mod yn teimlo, wrth wrando ar y ddadl heddiw, fy mod mewn ystumdro amser. Ildiais fy sedd yn San Steffan fel Aelod Seneddol yn 2001, ond heddiw yr oedd fel pe na bawn erioed wedi bod oddi yno. Canolbwyntiodd y cyfraniadau i gyd, ar wahân i'r rhai gan David Melding ac Alun Ffred, ar faterion nad oes gan y Cynulliad unrhyw reolaeth o gwbl drostynt. Yr wyf yn synnu at eiriad y cynnig—dof at hynny mewn eiliad—ond yr oeddwn yn synnu'n fawr iawn at yr ymdrech wael a wnaeth Peter wrth geisio amddiffyn yn erbyn gwelliannau'r Llywodraeth, a oedd o leiaf yn ceisio rhoi'r argraff fod rhywbeth y gellid ei wneud ynglŷn â'r sefyllfa sy'n ein hwynebu yn yr argyfwng byd-eang. A bod yn onest, nid yw'n ymddangos bod y Democratiaid Rhyddfrydol wedi gwneud fawr mwy na bod yn orchestol heddiw.

Mae'r cynnig yn gwbl negyddol ac nid yw'n rhoi awgrym o gwbl o'r hyn y gall unrhyw un ei wneud i ddatrys yr argyfwng yr ydym ynddo'n awr. Yn hytrach na sedd yn y Cynulliad, mae Peter Black yn haeddu lle ar fainc flaen y Democratiaid Rhyddfrydol yn San Steffan am yr araith honno.

Peter Black: A ydych yn siarad ar ran Llywodraeth Cynulliad Cymru ynteu Lywodraeth San Steffan o dan arweiniad Gordon Brown?

Y Dirprwy Brif Weinidog: Credaf ei bod yn ddigon amlwg ar ran pwy yr wyf yn siarad. Gadewch imi egluro hyn yn araf. Nid yw pwynt 2 yn eich gwelliant yn gwneud dim ond dweud wrthym fod yr holl faterion hyn—

spiralling consumer debt and the credit crunch—have an adverse impact on Wales. Who can argue with that? What about some of the answers? What about putting forward some ideas on how we could deal with this? The fact that the Liberal Democrats say that they cannot support amendment 4 tabled by the Government shows that they are grandstanding, because the Government is saying that the Assembly should not merely acknowledge changes but understand how we can tackle them. How can they properly oppose an amendment that asks us to do something about that?

Peter Black: Will you take an intervention?

The Deputy First Minister: No. You have had your chance. Let us get on now.

We all recognise the significant challenges that are posed by the global economic crisis and the impact of the credit crunch. In that sense, we welcome the opportunity to have the debate. However, as David mentioned, there are no easy answers.

Our amendments also draw attention to the errors in the original wording. I think that it is fair to say that the 10p rate is not being doubled; it is being abolished. The Assembly Government has expressed concern at the Chancellor's decision to abolish the 10p rate, which would mean that more than 0.25 million people in Wales, principally representing the lowest paid and pensioners between 60 and 64 years of age, would be worse off. I will shortly mention something about the statement that has been made.

Jenny Randerson: Will you give way?

The Deputy Presiding Officer: The Minister is not taking any more interventions.

The Deputy First Minister: I think that we need to carry on, because time is short.

Although consumer debt is increasing, which we must all acknowledge, and there is legitimate concern about people's ability to manage it, you could only say that it was

dyblu'r gyfradd treth incwm 10c, dyledion cynyddol defnyddwyr a'r wasgfa gredyd—yn cael effaith andwyol ar Gymru. Pwy all ddadlau â hynny? Beth am rai o'r atebion? Beth am gynnig syniadau sut y gallem ddelio â hyn? Mae'r ffaith fod y Democratiaid Rhyddfrydol yn dweud na allant gefnogi gwelliant 4 a gyflwynwyd gan y Llywodraeth yn dangos mai bod yn orchestol y maent, oherwydd mae'r Llywodraeth yn dweud na ddylai'r Cynulliad gydnabod newidiadau yn unig, ond y dylent ddeall sut mae mynd i'r afael â hwy. Sut y gallant yn briodol wrthwynebu gwelliant sy'n gofyn inni wneud rhywbeth ynglŷn â hynny?

Peter Black: A gymerwch chi ymyriad?

Y Dirprwy Brif Weinidog: Na wna. Yr ydych wedi cael eich cyfle. Gadewch inni fwrw ymlaen yn awr.

Yr ydym i gyd yn cydnabod y sialensiau sylweddol a godir gan yr argyfwng economaidd byd-eang ac effaith y wasgfa gredyd. Yn yr ystyr hwnnw, yr ydym yn croesawu'r cyfle i gael y ddadl. Fodd bynnag, fel y soniodd David, nid oes atebion hawdd.

Mae ein gwelliannau hefyd yn tynnu sylw at y camgymeriadau yn y geiriad gwreiddiol. Credaf ei bod yn deg dweud nad yw'r gyfradd 10c yn cael ei dyblu; mae'n cael ei dileu. Mae Llywodraeth y Cynulliad wedi mynegi pryder ynglŷn â phenderfyniad y Canghellor i ddileu'r gyfradd 10c, a fyddai'n golygu y byddai dros 0.25 miliwn o bobl yng Nghymru, sef yn bennaf y rhai ar gyflogau isaf a phensiynwyr rhwng 60 a 64 oed, ar eu colled. Soniaf yn y man am rywbeth am y datganiad sydd wedi cael ei wneud.

Jenny Randerson: A wnewch chi ildio?

Y Dirprwy Lywydd: Nid yw'r Gweinidog yn cymryd rhagor o ymyriadau.

Y Dirprwy Brif Weinidog: Credaf fod angen inni fwrw ymlaen, oherwydd mae'r amser yn brin.

Er bod dyledion defnyddwyr ar gynydd, rhywbeth y mae'n rhaid i bawb ohonom ei gydnabod, a bod pryder dilys ynglŷn â gallu pobl i reoli hynny, gallech ddweud eu bod yn

‘spiralling’ if you looked at one side of the balance sheet. We must all accept that asset values have increased, which means that household wealth has risen sharply—even the Conservatives have recognised that in their local government manifesto. The Assembly will work for the people of Wales, not only to acknowledge the challenges but to understand how we can tackle them. That is why we have tabled our amendment 4, as I mentioned earlier.

If we look at the credit crunch, there are three aspects that we need to acknowledge. First, as many speakers, in fairness, have mentioned, several banks and lending institutions relaxed lending criteria, lending large amounts of money to high-risk households, which obviously led to defaults. Investors took fright at the scale of these defaults and banks started to hold back on the funds that they would lend to each other, creating a shortage of liquidity. That lack of credit led to the credit crunch. Banks such as Northern Rock relied on inter-bank lending. We now have to recognise that the divergence of the London interbank offered rate from the standard Bank of England lending rate can be seen as a failure of monetary policy, which can only truly be remedied by the fiscal authorities. The key point about this crisis of global proportions is that it is hitting banks and lending institutions in many countries. We know that the distress that this has caused to many households comes on top of rising energy costs and fuel prices.

We have to recognise our limitations, as an Assembly Government, in trying to tackle this, but we can take action to mitigate against the worst effects, as I will set out. We have no tax or fiscal measures that we can take. While we welcome the Bank of England’s special liquidity scheme, the banks must also bear some of the pain. Last year, the five big banks made £40 billion in profit; and as the Royal Bank of Scotland has shown the way, with its rights issue, let us hope that other banks follow suit.

cynyddu ar garlam dim ond wrth edrych ar un ochr o’r fantolen. Rhaid inni i gyd dderbyn bod gwerth asedau wedi cynyddu, sy’n golygu bod cyfoeth aelwydydd wedi codi’n ddifrifawr—mae hyd yn oed y Ceidwadwyr wedi cydnabod hynny yn ei maniffesto llywodraeth leol. Bydd y Cynulliad yn gweithio ar ran pobl Cymru, nid i gydnabod y sialensiau’n unig, ond i ddeall sut mae mynd i’r afael â hwy. Dyna pam y cyflwynwyd ein gwelliant rhif 4, fel y soniais yn gynharach.

Os edrychwn ar y wasgfa greddyd, mae tair agwedd y mae angen inni eu cydnabod. Yn gyntaf, fel y mae nifer o siaradwyr, a bod yn deg, wedi crybwyll, yr oedd nifer o fanciau a sefydliadau benthyca wedi llacio’u meini prawf benthyca, gan roi benthyg symiau mawr o arian i aelwydydd risg uchel, a arweiniodd yn amlwg at ddiffygdalu. Cafodd buddsoddwyr fraw fod yna gynifer o broblemau diffygdalu, a dechreuodd banciau ddal yn ôl yr arian y byddent yn ei fenthyca i’w gilydd, gan greu diffyg llif arian. Arweiniodd y diffyg credyd hwnnw at y wasgfa greddyd. Yr oedd banciau fel Northern Rock yn dibynnu ar fenthyca rhwng banciau. Bellach rhaid inni gydnabod bod y gwahaniaeth yn y gyfradd rhwng banciau a gynigid yn Llundain a chyfradd fenthyca Banc Lloegr yn fethiant o safbwynt polisi ariannol, ac mai’r awdurdodau cyllidol yn unig all gywiro hynny mewn gwirionedd. Y pwynt allweddol am yr argyfwng hwn ar raddfa fyd-eang yw ei fod yn taro banciau a sefydliadau benthyca mewn llawer gwlad. Gwyddom fod y loes y mae hyn wedi’i achosi i lawer o aelwydydd yn dod ar ben y cynnydd mewn costau ynni a phrisiau tanwydd.

Rhaid inni gydnabod ein cyfyngiadau, fel Llywodraeth y Cynulliad, wrth geisio mynd i’r afael â hyn, ond gallwn weithredu i liniaru’r effeithiau gwaethaf, fel y byddaf yn ei osod allan. Nid oes dim mesurau treth na chyllid y gallwn eu cymryd. Er ein bod yn croesawu cynllun llif arian arbennig Banc Lloegr, rhaid i’r banciau hefyd ysgwyddo rhywfaint o’r boen. Y llynedd, gwnaeth y pum banc mawr £40 biliwn o elw, ac wrth i Royal Bank of Scotland ddangos y ffordd, gyda’i ddyroddiad hawlddewis, gadewch inni obeithio y bydd banciau eraill yn dilyn ei esiampl.

I will now deal with the issue of the income tax rate. We must all acknowledge, as I have indicated, that the Assembly Government has said that it is concerned about the cutting of that income tax rate, because it did impact on those on low wages, with no children, many of whom were young people, and pensioners between 60 and 64 years of age. They were in particular difficulties. We were obviously concerned about that, but welcome the Chancellor's statement, insofar as it goes. We now need to ensure that we look at the detail over the coming months, particularly when further announcements are made, and we would like those statements to be sustainable over the longer period. It shows, after all, the value of fighting on the principles of social justice, by making it clear that it is the lower paid in society who need to be protected.

Turning to what we think we can do, looking at the issue of consumer debt, I agree with the point made by Alun Ffred Jones. That is why we will shortly be consulting on our financial inclusion strategy. We need to take action to bolster financial literacy in schools, support credit unions, improve access to debt advisers and challenge illegal money lending. On the housing front, we announced last week that we are considering proposals for helping those with mortgage difficulties, allowing registered social landlords to purchase and rent back properties.

4.00 p.m.

On the issue of economic inactivity, I very much agree with the comments that Peter Black made, although, for some reason, he is accepting the Conservative amendment. I acknowledge the point about the economically inactive but, in fact, it is the low-paid who are affected worst by the economic crisis, and that is why we will not support that amendment. Another reason is because the International Monetary Fund document is just one of a series of relevant analyses, and we should look at a much wider picture.

Ymdriniaf yn awr â mater y gyfradd treth incwm. Rhaid i bawb ohonom gydnabod, fel yr wyf wedi nodi, fod Llywodraeth y Cynulliad wedi dweud ei bod yn pryderu am dorri'r gyfradd treth incwm honno, gan ei bod yn effeithio ar bobl ar gyflogau isel, heb blant, nifer ohonynt yn bobl ifanc, a phensiynwyr rhwng 60 a 64 oed. Yr oedd ganddynt hwy anawsterau neilltuol. Yr oeddem yn amlwg yn pryderu am hynny, ond yr ydym yn croesawu datganiad y Canghellor, cyn belled ag y mae'n mynd. Mae angen yn awr inni sicrhau ein bod yn edrych ar y manylion dros y misoedd i ddod, yn enwedig pan wneir cyhoeddiadau pellach, a hoffem i'r datganiadau hynny fod yn gynaliadwy dros y cyfnod hwy. Mae'n dangos, wedi'r cyfan, werth ymladd ar egwyddorion cyfiawnder cymdeithasol, drwy ei gwneud yn glir mai'r bobl ar y cyflogau isaf mewn cymdeithas y mae angen eu gwarchod.

I droi at yr hyn y credwn y gallwn ni ei wneud, ac edrych ar fater dyledion defnyddwyr, cytunaf â'r pwynt a wnaed gan Alun Ffred Jones. Dyna pam y byddwn yn ymgynghori'n fuan ynghylch ein strategaeth cynhwysiant cymdeithasol. Mae angen inni weithredu i hybu llythrennedd ariannol yn yr ysgolion, cefnogi undebau credyd, hwyluso defnyddio cynghorwyr dyled a herio benthyca arian anghyfreithlon. O safbwynt tai, cyhoeddasom yr wythnos diwethaf ein bod yn ystyried cynigion ar gyfer helpu'r rheini sydd ag anawsterau morgais, gan ganiatáu i landlordiaid cymdeithasol cofrestredig brynu eiddo a'i rentu'n ôl.

O ran anweithgarwch economaidd, cytunaf yn llwyr â'r sylwadau a wnaed gan Peter Black, er ei fod, am ryw reswm, yn derbyn gwelliant y Ceidwadwyr. Yr wyf yn cydnabod y pwynt ynglŷn â phobl economaidd anweithgar, ond mewn gwirionedd pobl ar gyflogau isel sy'n dioddef waethaf gan yr argyfwng economaidd, a dyma pam na fyddwn yn cefnogi'r gwelliant hwnnw. Rheswm arall yw bod dogfen y Gronfa Ariannol Ryngwladol yn un o gyfres o ddadansoddiadau perthnasol, a dylem edrych ar ddarlun llawer ehangach.

We are looking to help the economically inactive with basic skills, working with the UK Government on a range of programmes such as Pathways to Work, Want2Work, and JobMatch.

I am grateful for the opportunity to contribute to this debate, and to give real answers about what this Government intends to do about these issues.

Michael German: That was a stirring defence of Labour's economic record in London. I welcome the support that Ieuan Wyn Jones has given to the Labour party, and I hope that Labour is pleased by it. There is no doubt that the three elements of this motion will have a distinct effect upon matters that affect us, and the way that we can handle them. I was looking forward to hearing some answers to those issues, but I did not hear any, so I will now go through the position that the Labour defence mechanism over there has taken, and compare it with the kind of answers that we should hear from this Government.

All three of those elements affect Wales disproportionately in comparison with the rest of the United Kingdom—they hurt us more. Just look at the issue of the 10p rate of income tax, for example. The idea that this is an abolition of the 10p rate is an economic nonsense, and I will explain why. The number of people in Wales who pay tax only at the 10p rate is one in seven of all taxpayers. They are now being asked to pay 20p, which is double the previous rate. That means that, from 1 April, those 195,000 taxpayers in Wales are paying 20p in the pound. If you were really to abolish the 10p rate, that would be wonderful—it would mean that those 195,000 people would not pay any tax at all. It would not mean that they would pay 20p, as they do at the moment. That is the nonsense of amendment 1: it is ambiguous, in that you could read it as meaning that the 10p rate of tax is being abolished so that 195,000 people in Wales will be taken out of paying income tax altogether. You cannot abolish the 10p rate.

Yr ydym yn awyddus i helpu pobl economaidd anweithgar i gael sgiliau sylfaenol, gan weithio gyda Llywodraeth y DU ar nifer o wahanol raglenni megis Llwybrau at Waith, Yn Awyddus i Weithio, a JobMatch.

Yr wyf yn ddiolchgar am y cyfle i gyfrannu at y ddatl hon ac i roi atebion gwirioneddol i'r cwestiwn am yr hyn y mae'r Llywodraeth hon yn bwriadu ei wneud ynglŷn â'r materion hyn.

Michael German: Yr oedd hynny'n amddiffyniad brwd o record economaidd Llafur yn Llundain. Yr wyf yn croesawu cefnogaeth Ieuan Wyn Jones rhoi i'r blaid Llafur, a gobeithio bod Llafur yn falch ohoni. Bydd tair elfen y cynnig hwn, heb os nac oni bai, yn cael effaith bendant ar faterion sy'n effeithio arnom ni, ac ar y ffordd y gallwn ymdrin â hwy. Yr oeddwn yn edrych ymlaen at glywed ambell ateb i'r problemau hynny, ond ni chlywais yr un, felly, yr wyf yn awr am fynd drwy'r safiad y mae peirianwaith amddiffyn Llafur draw acw wedi'i fabwysiadu, a'i gymharu â'r math o atebion y dylem eu clywed gan y Llywodraeth hon.

Mae pob un o'r elfennau hynny'n cael effaith anghyfartal ar Gymru o'i chymharu â gweddill y Deyrnas Unedig—maent yn ein brifo ni'n fwy. Edrychwch ar fater y gyfradd dreth incwm o 10c, er enghraifft. Mae'r syniad bod y gyfradd 10c yn cael ei dileu yn nonsens economaidd, ac egluraf pam. Mae un o bob saith trethdalwr yng Nghymru yn talu treth ar y gyfradd 10c. Gofynnir yn awr iddynt dalu 20c, sydd ddwywaith y gyfradd flaenorol. Mae hynny'n golygu y bydd y trethdalwyr hynny y mae 195,000 ohonynt yng Nghymru yn talu 20c yn y bunt o 1 Ebrill ymlaen. Petaech o ddifrif yn dileu'r gyfradd 10c, byddai hynny'n wych—byddai'n golygu na fyddai'r 195,000 hyn yn talu treth o gwbl. Ni fyddai'n golygu y byddent yn talu 20c, fel y maent ar hyn o bryd. Dyna'r nonsens sydd yng ngwelliant 1: mae'n amwys, oherwydd gallech gymryd ei fod yn golygu bod y gyfradd dreth o 10c yn cael ei dileu fel na fydd 195,000 o bobl yng Nghymru yn gorfod talu treth incwm o gwbl. Ni allwch ddileu'r gyfradd 10c.

The Deputy First Minister: I ask this because you have been so Westminster-focused today: how will your party's Members of Parliament vote on a motion to abolish the 10p rate of income tax?

Michael German: I do not believe that there will be such a motion, and if there were, the Chancellor would put even more pressure on this Government.

If the Chancellor were to abolish the 10p rate, it would cost £1.25 billion from this year's budget, and who would be affected by that? Where would the money come from? Undoubtedly, it would come from elsewhere in the Government's programme and would be clawed back in years to come, or tax would go up. Therefore we are not talking about abolishing the 10p rate of tax; it is a question of what the Government proposes to replace the 10p rate of tax for those 195,000 taxpayers in Wales. I would like to think that the Government here had some answers on that, and would make the case against Wales losing money—which we would undoubtedly feel—due to the UK Government pulling that £1.25 billion that the UK Government would try to pull back into the Exchequer to pay for a promise that would happen halfway through this year.

My second point about disproportionality is regarding the difference in our housing markets. Everyone knows that we have lower average incomes in Wales than the United Kingdom has as a whole. The consequence for our housing market is tricky indeed, because people will no longer be able to get those first-time buyer mortgages that they were looking for in the past year. In Wales, in order to get a mortgage, the average first-time buyer, or family or partnership, would have to earn about £31,000, based on last year's figures from the Council of Mortgage Lenders. It does not take a wizard to work out what the prices of houses are around Wales, and how many multiples of your income your mortgage has to be to buy a house. We know from the housing crisis and credit crunch that the sorts of mortgages that give you five or six times your income, and so forth, will not be available. If they are not going to be available, what are people going to do for

Y Dirprwy Brif Weinidog: Yr wyf yn gofyn hyn oherwydd i chi fod yn canolbwyntio cymaint ar San Steffan heddiw: sut y bydd Aelodau Seneddol eich plaid yn pleidleisio ar gynnig i ddileu'r gyfradd dreth incwm o 10c?

Michael German: Ni chredaf y bydd cynnig o'r fath yn cael ei wneud, a phe bae, byddai'r Canghellor yn rhoi mwy fyth o bwysau ar y Llywodraeth hon.

Petai'r Canghellor yn dileu'r gyfradd 10c, byddai'r gost yn £1.25 biliwn o gyllideb eleni, ac ar bwy y byddai hynny'n effeithio? O ble y byddai'r arian yn dod? Heb ddim amheuaeth, byddai'n dod o rywle arall yn rhaglen y Llywodraeth ac yn cael ei hawlio'n ôl ymhen ychydig flynyddoedd, neu byddai'r dreth yn codi. Felly, nid ydym yn siarad am ddileu'r gyfradd dreth o 10c; y cwestiwn yw beth y mae'r Llywodraeth yn ei gynnig yn lle'r gyfradd dreth o 10c i'r 195,000 hynny o drethdalwyr yng Nghymru. Hoffwn feddwl bod gan y Llywodraeth yma rai atebion i'r cwestiwn hwnnw, ac y byddai'n dadlau i sicrhau na fydd Cymru'n colli arian—y byddem yn sicr o'i deimlo—oherwydd y byddai Llywodraeth y DU yn tynnu'r £1.25 biliwn y byddai Llywodraeth y DU yn ceisio'i dynnu'n ôl i'r Trysorlys i dalu am addewid a fyddai'n digwydd hanner y ffordd drwy'r flwyddyn hon.

Mae fy ail bwynt ynglŷn ag anghyfartaledd yn ymwneud â'r gwahaniaeth yn ein marchnadoedd tai. Mae pawb yn gwybod bod cyfartaledd incwm yn is yng Nghymru nag yn y Deyrnas Unedig yn ei chyfanrwydd. Mae goblygiadau hyn i'n marchnad dai yn ddyrys iawn, oherwydd ni fydd pobl mwyach yn gallu cael y morgeisi hynny i brynu tŷ am y tro cyntaf yr oeddent yn chwilio amdanynt yn ystod y flwyddyn ddiwethaf. Yng Nghymru, er mwyn cael morgais byddai'n rhaid i'r prynuwr, neu'r teulu neu'r bartneriaeth sy'n prynu tŷ am y tro cyntaf, ennill tua £31,000 ar gyfartaledd, ar sail ffigurau'r llynedd gan y Cyngor Benthycwyr Morgeisi. Nid oes angen athrylith i weld beth yw pris tai mewn gwahanol rannau o Gymru, a sawl gwaith cymaint â'ch incwm y mae'n rhaid i'ch morgais fod er mwyn prynu tŷ. Gwyddom o'r wasgfa tai a chredyd na fydd y mathau o forgeisi sy'n rhoi pum neu chwe gwaith cymaint â'ch incwm ichi, ac yn y

housing? There is already a move to see whether the private housing sector can pick up the necessary rented accommodation, but what we need is a way to deal with affordable housing. We need to be able to increase the amount of affordable housing, hence my question to the First Minister last week. I asked him what will happen if there is a credit crunch, which will mean difficulties for housebuilders being magnified because people will be unable to afford homes, and how we will increase the number of affordable social homes. The answer came back that it is going to be a good time for registered social landlords and for those building affordable homes, namely those in the private sector, because the usual private sector homes will not be able to be built. Everyone has to borrow. Governments have to borrow against the potential new housing stock and registered social landlords have to borrow. Private housebuilders have to borrow, and given that affordable houses cost more to build than the private sector builds them for, they will have to borrow even more money to be able to do it. Where is that money going to come from?

The question remains open: where is the answer to the housing crisis that the Government is going to face in Wales, where young people and first-time buyers will not be able to afford a home, where affordable housing will be less available because of the pressure upon the rented sector, and the private rented sector may have to pick up the problem? We all know that the private rented sector does not necessarily have the best record in ensuring that people have the right accommodation, particularly when it is put under pressure. I want to ensure that that is addressed, and I do not think that the Government has that in mind.

Finally, on the Welsh economy, a big problem is that companies will not be able to borrow on the open market to the same extent as before. I would have hoped to have heard from the Deputy First Minister about what he intends to do about the liquidity problem for companies that would normally borrow at advantageous rates across the piece, given the Assembly's position of being the lender of last resort and that it will lend only at a

blaen, ar gael. Os na fyddant ar gael, sut y bydd pobl yn gallu cael tai? Cynigiwyd yn barod y dylid gweld a all y sector tai preifat ddarparu'r tai rhent angenrheidiol, ond yr hyn y mae arnom ei angen yw ffordd i fynd i'r afael â phroblem tai fforddiadwy. Mae angen inni allu cynyddu nifer y tai fforddiadwy, a dyna pam y gofynnais fy nghwestiwn i'r Prif Weinidog yr wythnos diwethaf. Gofynnais iddo beth fydd yn digwydd os bydd argyfwng credyd, a fydd yn golygu mwy o anawsterau i adeiladwyr tai gan na fydd pobl yn gallu fforddio tai, a sut y byddwn yn cynyddu nifer y tai cymdeithasol fforddiadwy. Yr ateb a gefais oedd y byddai'n gyfnod da i landlordiaid cymdeithasol cofrestredig ac i'r rheini sy'n adeiladu cartrefi fforddiadwy, sef y sector preifat, gan na fydd modd codi cartrefi arferol y sector preifat. Rhaid i bawb fenthyca. Rhaid i lywodraethau fenthyca yn erbyn y stoc arfaethedig o dai newydd, a rhaid i landlordiaid cymdeithasol cofrestredig fenthyca. Rhaid i adeiladwyr tai preifat fenthyca, a chan ei bod yn costio mwy iddynt adeiladu tai fforddiadwy na thai sector preifat, bydd yn rhaid iddynt fenthyg mwy fyth o arian i wneud hynny. O ble y daw'r arian hwnnw?

Mae'r cwestiwn yn dal heb ei ateb: ble mae'r ateb i'r argyfwng tai y bydd y Llywodraeth yn ei wynebu yng Nghymru, lle na fydd pobl ifanc a phobl sy'n prynu tŷ am y tro cyntaf yn gallu fforddio cartref, lle bydd llai o dai fforddiadwy ar gael oherwydd y pwysau ar y sector tai rhent, a'r sector tai rhent preifat o bosibl yn gorfod mynd i'r afael â'r broblem? Gwyddom i gyd nad oes gan y sector tai rhent preifat record dda iawn o reidrwydd am sicrhau bod pobl yn cael llety priodol, yn enwedig pan fydd dan bwysau. Yr wyf yn awyddus i sicrhau rhoi sylw i hynny, ac nid wyf yn credu bod y Llywodraeth yn ystyried hynny.

Yn olaf, o ran economi Cymru, un problem fawr yw na fydd cwmnïau'n gallu benthycu arian ar y farchnad agored i'r un graddau ag o'r blaen. Byddwn wedi gobeithio clywed y Dirprwy Brif Weinidog yn dweud beth y mae'n bwriadu ei wneud ynglŷn â phroblem llif arian cwmnïau a fyddai fel rheol yn rhoi benthycu arian ar gyfraddau manteisiol ar y cyfan, o gofio sefyllfa'r Cynulliad fel darparwr benthyciadau pan fetho popeth

marginally lower rate of potential return than a bank might. If more money is being put into the market by the Assembly, that is fine, but if no more money is being put into the marketplace by the Assembly to help companies to move along, that puts into jeopardy a whole set of revivals that we need to have across Wales.

We have not heard the answers that we would have expected from the Government. I did not expect the Plaid Cymru Minister to defend London. However, having heard it, I am sure that the people of Wales will note it. I am concerned that we have not had any reflection from the Government on what will be definite problems for our housing and for our economy in Wales, and I am disappointed about that.

The Deputy Presiding Officer: I assume that there will be dissension regarding the amendments, therefore we will defer voting until voting time. I do not intend to adjourn now but to take the short debate and then go into voting time immediately after.

*Gohiriwyd y pleidleisiau tan yr amser pleidleisio
Votes deferred until voting time.*

Dadl Fer Short Debate

Marwolaeth Entrepreneur Death of an Entrepreneur

Angela Burns: I have given a minute of my time to Jeff Cuthbert and to Nicholas Ramsay.

The word 'entrepreneur' is a glamorous sounding word, but the reality could not be more different. Most people think of Richard Branson, the consummate serial entrepreneur with his myriad of interwoven companies and strong brand identity. His business, although established and part of the establishment, has retained that slightly risky air that people associate with entrepreneurs. Richard Branson is well liked and well respected, and is an entrepreneur who has graduated to being able to be the corporate man, or at least to employ the corporate men, and whose undoubted skill is in taking businesses that

arall, ac y bydd yn rhoi benthyg ar gyfradd adennill ychydig yn llai yn unig na banc. Os yw'r Cynulliad yn mynd i roi mwy o arian i'r farchnad, mae hynny'n iawn, ond os nad yw'r Cynulliad yn rhoi mwy o arian i'r farchnad i helpu cwmnïau i symud yn eu blaenau, mae hynny'n rhoi cyfres gyfan o ddiwygiadau y mae arnom eu hangen ledled Cymru yn y fantol.

Nid ydym wedi clywed yr atebion y byddem wedi disgwyl eu cael gan y Llywodraeth. Nid oeddwn yn disgwyl i Weinidog Plaid Cymru amddiffyn Llundain. Fodd bynnag, ar ôl ei glywed yr wyf yn siŵr y bydd pobl Cymru'n cofio hynny. Yr wyf yn bryderus nad yw'r Llywodraeth wedi rhoi dim awgrym beth fydd y problemau pendant yng Nghymru o ran tai a'r economi, ac yr wyf yn siomedig ynglŷn â hynny.

Y Dirprwy Lywydd: Cymeraf y bydd anghytuno ynglŷn â'r gwelliannau, felly, yr wyf am ohirio'r bleidlais tan amser pleidleisio. Yn hytrach na gohirio'r cyfarfod yn awr, bwriadaf gymryd y ddadl fer a symud ymlaen i'r amser pleidleisio yn syth wedyn.

Angela Burns: Yr wyf wedi rhoi munud o'm hamser i Jeff Cuthbert ac i Nicholas Ramsay.

Mae rhyw gyfaredd yn perthyn i'r gair 'entrepreneur', ond mae'r realiti'n gwbl wahanol. Mae'r rhan fwyaf o bobl yn meddwl am Richard Branson, yr entrepreneur arbennig sydd wedi llwyddo gymaint o weithiau gyda'i fyrdd o gwmnïau ymblethedig a'i ddelwedd gref. Mae ei fusnes, er ei fod wedi hen sefydlu ac wedi dod yn rhan o'r sefydliad, wedi cadw'r elfen honno o risg y mae pobl yn ei chysylltu ag entrepreneuriaid. Mae Richard Branson yn ŵr dymunol iawn ac yn uchel ei barch. Mae'n entrepreneur sydd wedi symud ymlaen i weithredu fel y dyn corfforaethol, neu o leiaf

have been started by those with entrepreneurial spirit and growing them. However, some people think that that is all there is to being an entrepreneur, and that it is easy bucks because you get to keep the money yourself, that all you need is a good idea or a chance, that there is cachet in being seen by your friends and society, and in your own eyes, as someone who can operate out of the groove, and that that is all it takes.

i gyflogi'r dynion corfforaethol, a'i ddawn yn sicr yw cymryd busnesau sydd wedi eu sefydlu gan y bobl hynny sydd ag ysbryd entrepreneuriaidd a gwneud iddynt dyfu. Fodd bynnag, mae rhai pobl yn meddwl mai dyna'r cyfan y mae ei angen i fod yn entrepreneur, a'i bod yn ffordd hawdd ineud arian gan eich bod yn cael cadw'r arian eich hun, mai'r cyfan y mae arnoch ei angen yw syniad da neu gyfle, a bod cael eich gweld gan eich ffrindiau a chan gymdeithas, ac yn eich golwg eich hun, fel rhywun sy'n gallu gwneud rhywbeth gwahanol yn rhoi rhyw statws ichi, ac mai dyna'r cyfan sydd ei angen.

4.10 p.m.

Willy Loman kept repeating in *Death of a Salesman* that to be liked and to be looking good is all that it takes to be successful. However, Richard Branson and others of his ilk have shown us that to be truly successful you need to possess sheer determination and grit, to be prepared to be brave and take risks, to shrug off the negative opinions of friends and society, to be passionate and to possess an internal locus of control that will help you to ride over the many obstacles that will be in your path. People with such entrepreneurial spirit are suffering badly at present for many reasons.

Yr oedd Willy Loman yn dweud drosodd a throsodd yn *Death of a Salesman* mai'r unig beth y mae ei angen i lwyddo yw edrych yn dda a chael pobl i'ch hoffi. Fodd bynnag, mae Richard Branson, a phobl eraill tebyg iddo, wedi dangos inni fod angen ichi fod yn benderfynol ac yn ddygn diwyro i fod yn wirioneddol lwyddiannus. Mae angen bod yn ddewr a chymryd risg, diystyru safbwyntiau negyddol ffrindiau a chymdeithas, credu'n angerddol yn rhywbeth, a meddu ar reolaeth fewnol a fydd yn eich helpu i oresgyn y rhwystrau niferus a fydd o'ch blaen. Mae pobl sydd ag ysbryd entrepreneuriaidd o'r fath yn dioddef yn enbyd ar hyn o bryd am nifer o resymau.

Our children are being spoon-fed. The school curriculum is squashed with such a diversity of subjects—some important and, at times, some plain daft—that we have squashed out creativity, imagination, lateral thinking, risk taking, resilience and grit.

Mae ein plant yn cael eu bwydo â llwy. Mae cynifer o bynciau gwahanol wedi eu gwasgu i mewn i gwricwlwm yr ysgol—rhai'n bwysig a rhai, ar adegau, yn gwbl hurt—fel nad oes lle i greadigrwydd, dychymyg, meddwl ochrol, cymryd risg, cadernid a dycnwch.

The Loman family in Miller's play are an example of what life is like if you continually live in a dream world and never train yourself for anything. Many of our young people are in a dream world: they leave school so inadequately prepared to cope with life's ups and downs that they sink, sometimes barely getting a job, let alone dreaming of setting up their own business. Many just hope to get famous and then believe that life will be a never-ending round of parties and partners.

Mae'r teulu Loman yn nrama Miller yn enghraifft o'r hyn yw bywyd os ydych yn byw mewn breuddwyd drwy'r adeg heb hyfforddi'ch hun o gwbl ar gyfer dim. Mae llawer o'n pobl ifanc yn byw mewn breuddwyd: maent yn gadael yr ysgol gyda chyn lleied o syniad sut i ddygymod â throeon yr yrfa fel eu bod yn boddi, a phrin eu bod yn gallu cael swydd weithiau, heb sôn am freuddwydio am sefydlu eu busnesau eu hunain. Mae llawer yn gobeithio y byddant yn enwog ryw ddydd ac yn credu wedyn y bydd bywyd yn llawn partion a phartneriaid.

So how can we arm these dreamers who want fame and fortune, glamour and success and channel them down a path that may indeed give them some of those things, but will surely give them purpose and will give Wales the engine house of enterprise that she needs to be successful on both the UK and global stages?

When I was at school, did I have lessons in any of the entrepreneurial qualities that I have talked about? No, I did not. However, I went to a school that equipped me with an education that encouraged me to think for myself, to look things up and not to learn by rote, and to be prepared to form my own views, and then gave me the ability to express myself sufficiently well to defend those views. Are our children being given this? I think not.

I come from a family where being different was allowed and being resourceful was encouraged and we need to built that mindset into our schools and our further and higher education institutions. Our teachers must not teach that the only way forward is the public sector or that life's ambition must only amount to being a tiny cog in the great wheel of life.

That mindset will stifle the creativity that many of us have when we are young. Like all animals, the human child is naturally inquisitive and fearless. We breed fear into people: fear of failure, or ridicule, or of being different. In Miller's play, it took Biff 15 years to figure out that he did not fit into any of the openings that society had made. We need to encourage people so that they do not waste their years wondering, but feel empowered enough to start creating their own openings.

We can teach entrepreneurial skills and turn out young people who can read a set of books, know what a balance sheet is, understand funds flow, know what a patent is and how that works and understand a product life cycle and know about the charm and toughness required in selling. Young people

Felly, sut y gallwn baratoi'r bobl ifanc hyn sy'n breuddwydio am enwogrwydd a chyfoeth, cyfaredd a llwyddiant a'u cyfeirio at lwybr a allai yn wir roi rhai o'r pethau hynny iddynt, ond a fydd yn sicr yn rhoi pwrpas iddynt ac a fydd yn rhoi i Gymru y peiriandy mentergarwch y mae arni ei angen i lwyddo ar lwyfannau'r DU a'r byd?

Pan oeddwn i yn yr ysgol, a gefais i wersi'n ymwneud ag unrhyw rai o'r rhinweddau entrepreneuriaidd y bûm yn siarad amdanynt? Naddo. Fodd bynnag, bûm mewn ysgol a roddodd imi addysg a'm hanogodd i feddwl drosof fy hun, i ymchwilio i bethau yn hytrach na dysgu ar fy nghof, ac i fod yn barod i ddatblygu fy marn fy hun, ac a roddodd imi wedyn y gallu i'm mynegi fy hun yn ddigon da i amddiffyn y farn honno. A yw hyn yn cael ei roi i'n plant ni? Go brin.

Dof o deulu nad oedd yn gweld dim o'i le ar fod yn wahanol ac a oedd yn annog dyfeisgarwch, ac mae angen inni sefydlu'r ffordd honno o feddwl yn ein hysgolion ac yn ein sefydliadau addysg bellach ac uwch. Rhaid i'n hathrawon beidio â dysgu mai'r unig ffordd ymlaen yw'r sector cyhoeddus, neu fod yn rhaid iddynt gyfyngu eu huchelgais mewn bywyd i fod yn gocsyn bach yn olwyn fawr bywyd.

Bydd y ffordd honno o feddwl yn lladd y creadigrwydd sydd gan lawer ohonom yn ein hieuentid. Fel pob anifail, mae plentyn yn naturiol chwilfrydig a di-ofn. Yr ydym yn gwneud pobl yn ofnus: ofn methu, ofn bod yn destun sbort, neu ofn bod yn wahanol. Yn nrama Miller cymerodd 15 mlynedd i Biff ddarganfod nad oedd yn ffitio yn unrhyw rai o'r agoriadau yr oedd cymdeithas wedi'u creu. Mae angen inni annog pobl fel na fyddant yn gwastraffu eu blynyddoedd yn dyfalu beth i'w wneud, ond yn hytrach yn teimlo'n ddigon grymus i ddechrau creu eu hagoniadau eu hunain.

Gallwn ddysgu sgiliau entrepreneuriaidd a chynhyrchu pobl ifanc sy'n gallu darllen cyfres o lyfrau, gwybod beth yw mantolen, deall llif arian, gwybod beth yw patent a sut mae hynny'n gweithio, a deall cylch bywyd cynnyrch a gwybod sut mae apelio at gwsmeriaid a bod yn galed wrth werthu. Mae

need the confidence and the sheer guts to talk to a bank manager, who will probably be much older and vastly more experienced than them, and to understand the purpose of a plan and have the vision to see the end game.

Another reason our entrepreneurs are finding times difficult is because we do not truly have a culture of enterprise here in Wales. We talk the talk, but we do not walk the walk. The Welsh economy needs a larger private sector. We cannot leave it to the public sector to drive the wealth of the nation. If we aspire to true nation status, then we must encourage the private sector to flourish here. We need to spread prosperity across Wales and not just be satisfied with trying to replicate the south-east of England in Cardiff and Newport.

Large businesses are obviously important, but so are small to medium-sized businesses and micro-businesses. We should remember that all companies were once little and started by someone. Who would have thought that Bill Hewlett and Dave Packard fiddling about in a garage in 1939 would turn into Hewlett Packard, with a miniscule investment of \$583? However, the world has changed and Dave and Bill were in the States—a country that lauds enterprise and respects you for trying even if you fail.

Here the entrepreneur finds investment difficult to get at and advice never-ending. Organisations such as Business Link are good in terms of the advice that they can offer, although it almost always comes at a price. When I talk to the owners of smaller businesses, they tell me that there are advisers by the dozen and that many are former managers of organisations, but that they do not fully understand the pressures of being your own boss or the ambition of the vision. They also tell me that people are always telling them what they should do, could do or ought to do, but that the real help that they need is not there.

How about someone who would not only

ar bobl ifanc angen yr hyder a'r dycnwch diwyro i siarad â rheolwr banc, a fydd mae'n debyg lawer yn hŷn ac yn fwy profiadol na hwy o lawer, ac i ddeall pwrpas cynllun a chael y weledigaeth i weld y nod yn y pen draw.

Mae pethau'n anodd iawn i'n hentrepreneuriaid hefyd gan na oes gennym yma yng Nghymru ddiwylliant gwirioneddol o fentro. Yr ydym yn gwybod y geiriau, ond yn gyndyn o'u rhoi ar waith. Mae ar economi Cymru angen sector preifat mwy o faint. Ni allwn ddisgwyl i'r sector preifat yn unig ein gwneud yn genedl gyfoethog. Os ydym am gael statws go iawn fel gwlad, rhaid inni annog y sector preifat i ffynnu yma. Mae angen inni ledaenu ffyniant ar draws Cymru a pheidio â bodloni ar geisio efelychu deddwyrain Lloegr yng Nghaerdydd a Chasnewydd.

Mae busnesau mawr yn amlwg yn bwysig, ond mae busnesau bach a chanolig a microfusnesau lawn mor bwysig. Dylem gofio bod pob cwmni'n fach ar un adeg a'i fod wedi ei gychwyn gan rywun. Pwy fyddai'n meddwl y byddai ffidlan Bill Hewlett a Dave Packard mewn garej yn 1939 wedi datblygu'n gwmni Hewlett Packard, gyda buddsoddiad pitw o \$583? Fodd bynnag, mae'r byd wedi newid ac yr oedd Dave a Bill yn yr Unol Daleithiau—gwlad sy'n clodfori menter ac sy'n eich parchu am roi cynnig hyd yn oed os byddwch yn methu.

Yma bydd yr entrepreneur yn cael bod buddsoddiad yn anodd ei gael a chyngor yn ddi-ben-draw. Mae sefydliadau fel Cyswllt Busnes yn dda o ran y cyngor y gallant ei gynnig, er bod pris i hynny bron bob amser. Pan fyddaf yn siarad â pherchnogion busnesau bach, maent yn dweud wrthyf fod digonedd o gynghorwyr ar gael a llawer ohonynt yn gyn reolwyr sefydliadau, ond nad ydynt yn deall yn iawn y pwysau o fod yn bennaeth arnoch eich hun na pha mor uchelgeisiol yw'r weledigaeth. Maent hefyd yn dweud wrthyf fod pobl bob amser yn dweud wrthynt beth y dylent ei wneud, neu beth y gallent ei wneud, ond nad yw'r cymorth gwirioneddol y mae arnynt ei angen ar gael.

Beth am gael rhywun a fyddai nid yn unig yn

help you to redraft your business plan, but go to the banks or venture capitalists with you? How about someone who can make sales contacts for you to get you going? How about someone with decent contacts, who can introduce you to business angels, because one commodity the entrepreneur does not have much of is time?

'Surely that is part and parcel of being an entrepreneur', I hear you say. Well, yes and no. The imagination, the ideas and the bravery all have to be within you, but everyone needs training. You could be a brilliant and imaginative inventor who has come up with a product with a future, but it stands to reason that you may not necessarily be able to undertake the sales and marketing work required, or to handle employing a salesperson, who is likely to be a character entirely unlike your own, requiring input and management beyond your ken. How great if there were someone who could come and get that side of it going for you on a pro tem basis, rather like an interim manager. However, you cannot afford a person, because you are just starting out. Perhaps what the entrepreneurs of Wales need are interim managers whom they can call on for help but do not have to pay for. Perhaps they could pay for them later, when they are established or, heaven forbid, they can pay for the results delivered. They need people who can teach them the practicalities of the business mix, which are beyond their experience or knowledge.

Then there is the money. Access to finance is the killer for small, micro and start-up businesses. They may have ability and drive, and a good product or service. They may know what they can do, and the sales plan may stack up, but the money men will not be interested, because the business is too small, or there are no assets, or no quick exit route with the appropriate percentage returns. In November last year, I asked an Assembly question about banks becoming even more stringent in their lending to new ventures, and how even the small firms loan guarantee scheme is not that helpful, because of the mistrust and unwillingness of banks to support the scheme, even though it is underwritten by the Government. The Deputy First Minister and Minister for Economy and

eich helpu i ailddrafftio'ch cynllun busnes, ond a fyddai hefyd yn mynd at y banciau neu gyfalafwyr menter gyda chi? Beth am rywun a all greu cysylltiadau gwerthu ichi i roi cychwyn ichi? Beth am rywun sydd â chysylltiadau da a all eich cyflwyno i angyllion busnes, oherwydd un peth nad oes gan yr entrepreneur lawer ohono yw amser?

'Siawns bod hynny'n rhan annatod o fod yn entrepreneur', meddech chi. Wel, ydyw a nac ydyw. Rhaid i'r dychymyg, y syniadau a'r dewrder i gyd fod oddi mewn ichi, ond mae angen hyfforddiant ar bawb. Gallech fod yn ddyfeisiwr disglair a llawn dychymyg sydd wedi meddwl am gynnyrch sydd â dyfodol iddo, ond mae'n sefyll i reswm na fyddwch o reidrwydd yn gallu gwneud y gwaith gwerthu a marchnata gofynnol, nac ymdopi â chyflogi gwerthwr, sy'n debygol o fod yn gymeriad hollol wahanol i chi, yn gofyn am fewnbwn a rheolaeth y tu hwnt i'ch gwybodaeth. Oni fyddai'n wych pe gallai rhywun ddod a rhoi'r agwedd honno ar ei thraed ichi dros dro, tebyg i reolwr dros dro. Fodd bynnag, ni allwch fforddio neb, oherwydd cychwyn yr ydych chi. Efallai mai'r hyn y mae ei angen ar entrepreneuriaid Cymru yw rheolwyr dros dro y gallant alw arnynt am gymorth ond nad oes rhaid iddynt eu talu. Efallai y gallent dalu amdanynt yn ddiweddarach, ar ôl ymsefydlu, neu, a'n gwaredo, pan allant dalu am y canlyniadau a sicrhawyd. Mae arnynt angen pobl a all eu dysgu am bethau ymarferol y cymysgedd busnes, sydd y tu hwnt i'w profiad a'u gwybodaeth.

Wedyn dyna'r arian. Gallu cael cyllid yw'r bwgan i fusnesau bach, micro a rhai sy'n dechrau. Hwyrach fod ganddynt allu ac egni, a chynnyrch neu wasanaeth da. Hwyrach eu bod yn gwybod beth y gallant ei wneud, bod y cynllun gwerthu'n dal dŵr, ond ni fydd gan yr arianwyr ddiddordeb gan fod y busnes yn rhy fach, neu'n brin o asedau, neu heb ffordd allan gyflym gyda'r elw canrannol priodol. Ym mis Tachwedd y llynedd, gofynnais gwestiwn yn y Cynulliad am fanciau sy'n mynd yn fwyfwy llym byth wrth roi benthyg i fentrau newydd, a'r ffaith nad yw hyd yn oed y cynllun gwarantu benthyciadau i gwmnïau bach mor fuddiol â hynny, oherwydd amheuaeth ac amharodrwydd banciau i gefnogi'r cynllun, er ei fod wedi'i warantu gan y Llywodraeth. Cefais sicrwydd

Transport assured me that he was discussing this with banks, and I am sure that he did, but that has not filtered through, and the people to whom I spoke a few weeks ago told me that the banks that they were talking to were not interested in entering into the small firms loan scheme. I appreciate that the current climate is not helping, but now is exactly when we need to ensure that the spirit of entrepreneurship in Wales is not killed off.

What other options are there? In March this year, the UK Government launched a new enterprise strategy. Its central vision is to make the UK the most enterprising economy in the world, and the best place to start and grow a business. However, most of the funds, like the regional venture capital fund, the Phoenix Fund or the early growth funds, are all full with no plans for further investment—either that or they are for England only. Here, the Government has just launched the single investment fund, and, in the process, has rolled up all the grants for small businesses and start-ups. The aim of the fund is to make it easier to access finance. However, when going through the forms, imagining myself to be a ‘wannabe’ business, I found that it does not fit smaller enterprises that want only £20,000, £30,000 or £50,000. The fund stands at £200 million and that is that. It is just not enough. The Deputy First Minister said that smaller companies were telling him to make it simpler to get business support and advice. I am telling him that they have the advice, but now they need access to the funds if they are to turn their visions into reality.

Another reason for the stifling of entrepreneurship in Wales is the burden of the regulatory framework that holds Wales and the UK together. This particularly affects the small business and the sole trader, who is, after all, the distillation of all that is considered entrepreneurial. I have spent the past two weeks trying to help doormen and security guards whose livelihoods have been threatened by excessive delays in the processing of licence renewals. Some of them

gan y Dirprwy Brif Weinidog a'r Gweinidog dros yr Economi a Thrafnidiaeth ei fod yn trafod hyn gyda'r banciau, ac yr wyf yn siŵr iddo wneud hynny. Ond nid yw hynny wedi dod drwodd, a dywedodd y bobl y siaradais â hwy ychydig wythnosau'n ôl nad oedd gan y banciau yr oeddent yn siarad â hwy ddim diddordeb ymuno â'r cynllun benthyciadau i gwmnïau bychain. Deallaf nad yw'r hinsawdd presennol yn helpu, ond dyma'r union adeg y mae angen inni sicrhau na chaiff ysbryd entrepreneuriaeth yng Nghymru ei ladd.

Pa ddewisiadau eraill sydd? Ym mis Mawrth eleni lansiodd Llywodraeth y Deyrnas Unedig strategaeth fenter newydd. Ei gweledigaeth ganolog yw gwneud y Deyrnas Unedig yn economi fwyaf mentrus y byd, a'r lle gorau i gychwyn a thyfu busnes. Fodd bynnag, mae mwyafrif y cronfeydd, fel y gronfa ranbarthol cyfalaf menter, Cronfa Phoenix neu'r cronfeydd twf cynnar, i gyd yn llawn heb heb gynuniau i fuddsoddi ymhellach—un ai hynny neu maent ar gyfer Lloegr yn unig. Yma, mae'r Llywodraeth newydd lansio'r gronfa fuddsoddi sengl, ac yn y broses mae wedi casglu ynghyd yr holl grantiau ar gyfer busnesau bach a rhai sy'n cychwyn. Nod y gronfa yw ei gwneud yn haws gallu cael cyllid. Fodd bynnag, wrth fynd drwy'r ffurflenni gan ddychmygu fy mod am gychwyn busnes, canfûm nad yw'n addas ar gyfer mentrau llai sydd ag angen dim mwy na £20,000, £30,000 neu £50,000. Mae'r gronfa yn £200 miliwn a dyna hi. Nid yw'n ddigon. Dywedodd y Dirprwy Brif Weinidog fod cwmnïau llai yn dweud wrtho am symleiddio'r broses o gael cefnogaeth a chynghor busnes. Dywedaf fi wrtho fod y cynghor ganddynt, ond yn awr mae angen iddynt allu cael y cronfeydd os ydynt i am droi eu gweledigaeth yn wirionedd.

Peth arall sy'n mygu entrepreneuriaeth yng Nghymru yw baich y fframwaith rheoli sy'n dal Cymru a'r Deyrnas Unedig at ei gilydd. Mae hyn yn effeithio'n arbennig ar y busnes bach a'r unig fasnachwr, sef distylliad popeth a gyfrifir yn entrepreneuriaidd, wedi'r cyfan. Treuliais y pythefnos diwethaf yn ceisio helpu gwylwyr drysau a gwarcheidwaid diogelwch sydd â'u bywoliaeth yn cael ei fygwth oherwydd oedi gormodol wrth brosesu adnewyddu trwyddedau. Mae gan rai

have small companies employing between three and 20 people. They are the embodiment of the entrepreneur: they offer a service in a good market; they have the drive and determination to grow their businesses, to take on the responsibilities of employing staff, with the burden that that lays upon an employer; they have customers; and they are going out of business because of red tape and Government ineptitude in renewing licences.

You have only to look at the farming industry, where the entrepreneurs of the land are trying to diversify and fund new projects, to see where the lack of money and the burden of regulation really hit. How can the sole trader grow, employing one member of staff and then another and another, without facing the overwhelming confusion and stricture of employment legislation? How about a new shop trying to rent premises, but responsible for paying to install disabled access measures? It is right and proper that that be done, but it is a cost that a new business simply cannot bear. How about a couple of people writing software in cheap premises being fined for not having category 2 lighting, which they require by regulation, but which costs a fortune? These are items that an established, successful business can cope with, but you cannot stick new business into a corporate box. The sheer excitement of business means that those who start up a new venture do not care if the lighting is not right; they will sort that out when they have made it, and are established.

The town of Narberth, in my constituency, has had a rate break for 10 years. That has just ended and the turnover of businesses has shot up. You may say that these businesses are not fit to stay if they cannot afford the rates, but I would argue that while Wales has such a sparse spread of population, we need to support centres such as Narberth. Otherwise, all our enterprise will be in the south east, and we will kill the fledgling development areas.

4.20 p.m.

It is hard to have a business away from the south east. If you provide services, there are

ohonynt gwmnïau bach sy'n cyflogi rhwng tri ac 20 o bobl. Hwy yw ymgorfforiad yr entrepreneur: cynigiant wasanaeth mewn marchnad dda; mae ganddynt yr egni a'r penderfyniad i dyfu eu busnes, i ymgymryd â chyfrifoldebau cyflogi staff, a'r baich y mae hynny'n ei osod ar gyflogwr; mae ganddynt gwsmeriaid; ac maent yn mynd allan o fusnes oherwydd tâp coch ac am fod y Llywodraeth mor ddi-glem wrth adnewyddu trwyddedau.

Nid oes rhaid ond edrych ar y diwydiant ffermio, lle mae entrepreneuriaid y tir yn ceisio arallgyfeirio ac ariannu prosiectau newydd, i weld ble mae'r diffyg arian a'r baich rheoleiddio yn taro'n wirioneddol. Sut y gall yr unig fasnachwr dyfu, gan gyflogi un aelod o staff ac wedyn un arall ac un arall, heb wynebu caethder a dryswch llethol deddfwriaeth cyflogaeth? Beth am siop newydd sy'n ceisio rhentu adeilad, ond sy'n gyfrifol am dalu i osod dulliau mynediad i'r anabl? Mae'n iawn ac yn briodol y dylid gwneud hynny, ond mae'n gost na all busnes newydd ei fforddio, yn syml. Beth am ddau berson yn ysgrifennu meddalwedd mewn adeilad rhad a gafodd eu dirwyo am beidio â chael goleuadau categori 2, fel sy'n rhaid iddynt eu cael dan y ddeddf, ond sy'n costio ffortiwn? Mae'r rhain yn eitemau y gall busnes sefydledig, llwyddiannus ymdopi â hwy, ond ni allwch wrthio busnes newydd i mewn i flwch corfforaethol. Mae cyffro noeth busnes yn golygu nad yw'r rheini sy'n cychwyn menter newydd yn poeni os nad yw'r goleuo'n iawn; byddant yn datrys y broblem honno ar ôl iddynt lwyddo ac ymsefydlu.

Mae tref Arberth, yn fy etholaeth i, wedi cael gwyliau treth am 10 mlynedd. Mae hynny newydd ddod i ben ac mae'r trosiant busnesau wedi saethu i fyny. Gallech ddweud nad yw'r busnesau hyn yn ffit i barhau os na allant fforddio'r trethi, ond byddwn i'n dadlau bod angen cefnogi canolfannau fel Arberth gan fod poblogaeth denau Cymru mor wasgaredig. Fel arall, bydd ein mentro i gyd yn digwydd yn y de-ddwyrain, a byddwn yn lladd yr egin ardaloedd datblygu.

Mae'n anodd cynnal busnes y tu allan i'r de-ddwyrain. Os darparwch wasanaethau, nid

not enough people to support you well. If you make products, your transport and infrastructure costs will be a heavy burden. Therefore, the Assembly must support our entrepreneurs. We must enable business innovation, and we must train, skill and encourage anyone who wants to try to make a go of it. If they fail, we should pick them up, dust them down, and let them have another chance. They will have learned so much from that experience that they will be all the better for it.

We need to provide financial support focused entirely on microbusinesses and small and medium-sized enterprises. Perhaps a Government bank could be introduced, which would still be rigorous in who it accepts to support, but one that would have a more achievable ratio of risk to reward than the venture capitalists and mainstream banks.

We need the advice and the advisers to be more practical and effective. We need to encourage our schools and our further and higher education institutions to teach our future generations how to succeed, how to dream, and how to take risks. In Arthur Miller's famous play, *Death of a Salesman*, it is said of Willy that,

'He had the wrong dreams. All, all, wrong.'

However, I say to our entrepreneurs and those wanting to start, 'You have good dreams; we must and will support you'. If Wales is to grow, is to have real fiscal responsibility and financial power, is to attract more people and is to give more people the opportunity to fulfil their dreams and potential, let us breathe life back into our entrepreneurs.

Jeff Cuthbert: I thank Angela Burns for raising this important subject. It is a matter that has caused great concern—and a great amount of work—for members of the Enterprise and Learning Committee, and we were pleased to receive the Gibson report on commercialisation in Wales, which talks about the links that should exist between the higher education sector and business so that entrepreneurship can be supported, especially

oes digon o bobl i'ch cefnogi'n dda. Os ydych yn gwneud nwyddau, bydd eich costau cludiant ac isadeiledd yn faich trwm. Felly, rhaid i'r Cynulliad gefnogi ein hentrepreneuriaid. Rhaid inni alluogi arloesi mewn busnes, a rhaid inni hyfforddi, datblygu medr ac annog unrhyw un sydd am geisio mynd amdani. Os methant, dylem eu codi ar eu traed a gadael iddynt gael cyfle arall. Byddant wedi dysgu cymaint o'r profiad hwnnw nes byddant gymaint â hynny'n well o'r herwydd.

Mae angen inni ddarparu cefnogaeth ariannol sy'n canolbwyntio'n gyfan gwbl ar ficrofusnesau a mentrau bach a chanolig. Efallai y gellid cyflwyno banc Llywodraeth, a fyddai'n llym o ran pwy y byddai'n eu derbyn i'w cefnogi, ond un a fyddai â chymhareb fwy ymarferol o risg yn erbyn gwobr na'r cyfalafwyr menter a banciau'r brif ffrwd.

Mae angen i'r cyngor a'r cynghorwyr fod yn fwy ymarferol ac effeithiol. Mae angen annog ein hysgolion a'n sefydliadau addysg bellach ac uwch i ddysgu cenedlaethau'r dyfodol sut i lwyddo, sut i freuddwydio, a sut i fentro. Yn nrama enwog Arthur Miller, *Death of a Salesman*, dywedir am Willy,

Fodd bynnag, dywedaf wrth ein hentrepreneuriaid a phawb sy'n awyddus i gychwyn, 'Mae gennych freuddwydion da; rhaid inni eich cefnogi ac fe wnawn hynny'. Os yw Cymru am dyfu, am gael gwir gyfrifoldeb cyllidol a grym ariannol, am ddenu mwy o bobl ac am roi i fwy o bobl y cyfle i wireddu eu breuddwydion a'u potensial, gadewch inni roi bywyd yn ôl yn ein hentrepreneuriaid.

Jeff Cuthbert: Diolch i Angela Burns am godi'r pwnc pwysig hwn. Mae'n fater sydd wedi achosi pryder mawr—a llawer iawn o waith—i aelodau'r Pwyllgor Menter a Dysgu. Yr oeddem yn falch cael adroddiad Gibson ar fasnacheiddio yng Nghymru, sy'n sôn am y cysylltiadau a ddylai fodoli rhwng y sector addysg uwch a busnes, fel y gellir cynnal entrepreneuriaeth, yn enwedig yn yr economi wybodaeth.

in the knowledge economy.

Angela also referred to an issue that is just as important, namely how we ensure that our young people receive a grounding in entrepreneurship through the education system. They may not necessarily end up as entrepreneurs in the sense of inventing and developing a new product or project, but perhaps in the way that they think things through, understanding where mistakes are made, and developing and improving thought processes such as problem-solving, communication and team-working.

